Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 24 Medi 2012**

Amser:
**14:00**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Polici: Tom Jackson**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8597
Publicaccounts.comm@Wales.gov.uk

## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (14:00 - 14:05)

### 2. Sesiwn friffio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal' (14:05 - 14:30) (Tudalennau 1 - 69)

PAC(4) 17-12 - Papur 1 - Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal'

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Stephen Martin, Rheolwr - Archwilio Perfformiad

### 3. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Eitemau 4 a 7.

### 4. Opsiynau ar gyfer ymdrin â 'Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal' (14:30 - 14:45)

**Egwyl (14:45 - 15:00)**

**Sesiwn gyhoeddus**

### 5. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) - Tystiolaeth gan y Gweinidog

### Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (15:00 - 16:00)

Jane Hutt AC, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Llywodraeth Leol a Gwasanaeth Cyhoeddus, Llywodraeth Cymru
Nicola Charles, Cyfreithiwr, Llywodraeth Cymru

## 6. Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) - Tystiolaeth gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (16:00 - 17:00) (Tudalennau 70 - 93)

PAC(4) 17-12 - Papur 2 - Archwilydd Cyffredinol Cymru

Huw Vaughan Thomas, Archwilydd Cyffredinol Cymru
Mike Usher, Cyfarwyddwr Grŵp - Archwilio Ariannol
Martin Peters, Rheolwr Cydymffurfio

**Sesiwn breifat**

## 7. Ystyried tystiolaeth ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) (17:00 - 17:15)

## 8. Papurau i'w nodi (Tudalennau 94 - 95)

Eitem 2

22 Awst 2012

www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 135 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Steve Martin, Claire Flood-page, Joy Rees, Huw Lloyd Jones and Carol Moseley dan gyfarwyddyd Alan Morris.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol a'r Llywodraeth. Mae yntau'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwerth gorau o dan Raglen Gwella Cymru. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffôn 02920 320500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

Cyflwynwyd yr adroddiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 22 Awst 2012

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2012

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 22 Awst 2012





80% recycled paper
80% o bapur a ailgylchwyd

# Cynnwys


## Crynodeb 7

Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf, ond nid yw llawer yn cyrraedd eu potensial, mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, ac mae'n anodd ei werthuso oherwydd gwendidau mewn data 9

Mae polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi helpu i sicrhau rhywfaint o welliant ond nid ydynt wedi diffinio canlyniadau penodol ac er bod tystiolaeth gynyddol o arfer da, ni roddir cymorth mewn ffordd gyson 11

Nid oes gan Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol gynlluniau cyflawni ar y cyd ac nid ydynt wedi asesu a oes adnoddau ar gael i sicrhau gwelliant sylweddol 14

Mae gwelliant wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad er y bydd newidiadau diweddar i gynyddu cydweithredu rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwell deilliannau o bosibl 15

Argymhellion 16

## 1 Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf, ond nid yw llawer yn cyrraedd eu potensial, mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, ac mae'n anodd ei werthuso oherwydd gwendidau mewn data 17

Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dipyn yn is na chyrhaeddiad plant eraill ac mae gormod yn wynebu sefyllfaoedd sy’n tarfu ar eu haddysg, er bod tystiolaeth o welliant bach o ran cyrhaeddiad 18

Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ledled Cymru ac yn achos rhai mesurau mae'n is nag mewn rhannau eraill o'r DU 26

Mae newidiadau yn y ffordd y cesglir data a bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i fonitro gwelliannau mewn cyrhaeddiad ac yn cyfyngu ar y gallu i gymharu ledled y DU 27

## 2 Mae polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi helpu i sicrhau rhywfaint o welliant ond nid ydynt wedi diffinio canlyniadau penodol ac er bod tystiolaeth gynyddol o arfer da, ni roddir cymorth mewn ffordd gyson 30

Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhannu ymrwymiad strategol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ond nid oes ganddynt ddeilliannau penodol y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn 31

Ceir tystiolaeth gynyddol o arfer da ond mae'r hyn a gyflawnir yn anghyson 38

## 3 Nid yw Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol wedi asesu a oes modd cyflawni gwelliant sylweddol ac nid oes ganddynt gynlluniau cyflawni ar y cyd 46

Nid oes sicrwydd a oes digon o adnoddau i sicrhau gwelliannau sylweddol 46

Ers i'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf ddod i ben, ni fu cynllun cyflawni gweithredol ar y cyd ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud â gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal 49

## 4 Mae gwelliant wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad er y bydd newidiadau diweddar i gynyddu cydweithredu rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwell deilliannau o bosib 52

Mae'r gwaith o sicrhau gwell deilliannau wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad, diffyg atebolrwydd, a diffyg gwerthuso 52

Mae trefniadau cyflawni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol newydd yn rhoi cyfleoedd i wella gwaith cynllunio cydgysylltiedig i sicrhau gwell deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal 57

# Cynnwys

| | |
|---|---|
| Atodiad 1 – Rhestr Termau | 61 |
| Atodiad 2 – Methodoleg | 62 |
| Atodiad 3 – Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru | 65 |
| Atodiad 4 – Data addysg plant sy’n derbyn gofal yn ôl awdurdodau lleol yng Nghymru | 68 |



# Crynodeb

**1** Ar 31 Mawrth 2011, roedd 5,415 o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal[1] yng Nghymru, sef cynnydd o bump y cant ers y flwyddyn flaenorol ac 20 y cant dros y pum mlynedd diwethaf. Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, sef rôl a elwir yn 'rhianta corfforaethol' lle mae cyfrifoldeb y rhiant yn symud o'r rhiant geni i'r awdurdod lleol. Nodir cyfrifoldebau'r rhiant corfforaethol yn Neddf Plant 1989 ac mewn deddfwriaeth ddiweddarach[2] ac maent yn cynnwys:

- diogelu lles plant sy'n derbyn gofal drwy sicrhau lleoliadau diogel a chefnogol gyda gofalwyr maeth, eu rhieni eu hunain neu mewn cartrefi preswyl neu gartrefi eraill;
- cefnogi iechyd corfforol a meddyliol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mewn partneriaeth ag awdurdodau iechyd;
- helpu plant sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial yn yr ysgol ac mewn addysg bellach ac addysg uwch;
- eu helpu i ddod yn ddinasyddion cyflawn a gweithredol.

**2** Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar un elfen o gyfrifoldebau'r rhiant corfforaethol: helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial addysgol. Ers 1999, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau polisi, canllawiau ac arian grant penodol sydd wedi helpu i roi mwy o ffocws ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal, a phlant eraill mewn angen, yn dal i fod yn isel iawn.


**3** Mae gan blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ystod eang o anghenion a phrofiadau. Mae gan lawer ohonynt anghenion iechyd a dysgu cymhleth ac anghenion eraill. Ceir nifer fach o geiswyr lloches ifanc ar eu pen eu hunain yng Nghymru hefyd. Maent yn dod yn rhan o system gymhleth iawn sy'n cynnwys llawer o asiantaethau gan gynnwys gofalwyr maeth, darparwyr gofal, rhieni, gweithwyr cymdeithasol, ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru (Ffigur 1). Dim ond am gyfnod byr y bydd llawer ohonynt mewn gofal: dengys ymchwil fod dau o bob tri phlentyn yn dychwelyd adref o fewn chwe mis. Fodd bynnag, dengys ymchwil y bydd y rhan fwyaf o blant sy'n treulio o leiaf chwe mis mewn gofal, yn treulio cryn dipyn o'u plentyndod mewn gofal[3]. Mae profiadau gofal plant a phobl ifanc yn amrywio o fod yn gadarnhaol iawn i fod yn negyddol iawn: bydd rhai mewn lleoliadau sefydlog am flynyddoedd lawer ac yn cael profiad ysgol sy'n debyg iawn i brofiad plant a phobl ifanc eraill ond mae eraill yn mynd o un lleoliad i'r llall, yn newid ysgol fwy nag unwaith ac yn colli cyfnodau o addysg lawn amser. Bydd niferoedd sylweddol o blant sy'n derbyn gofal, fel plant eraill sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan eu hawdurdod lleol, wedi'u hatgyfeirio i gael cymorth o ganlyniad i ffactorau sy'n effeithio ar eu rhieni, gan gynnwys camddefnyddio

1 'Yn derbyn gofal' yw'r term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio pob plentyn sy'n destun gorchymyn gofal, neu y darperir llety iddo ar sail wirfoddol am fwy na 24 awr. Mae rhai plant yn derbyn gofal at ddibenion seibiant hefyd. Yn ystod y flwyddyn tan 31 Mawrth 2011, cafodd 642 o blant y cymorth hwn ond nid yw'r rhain wedi'u cynnwys yng nghwmpas yr adroddiad hwn.

2 Mae rhagor o wybodaeth am y cyd-destun cyfreithiol a niferoedd, lleoliadau a nodweddion plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn Atodiad 3.

3 Nina Biehal (2006), *Reuniting looked after children with their families,* Sefydliad Joseph Rowntree, http://www.jrf.org.uk/sites/files/jrf/0056.pdf

## Ffigur 1 - Mae plant a phobl ifanc sy'n cael gofal yn dod yn rhan o system gymhleth o asiantaethau a chydberthnasau




*Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru*



sylweddau neu alcohol, anableddau dysgu, salwch meddwl neu gam-drin domestig.

4 Dengys ymchwil fod[4] plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn credu eu hunain fod addysg yn bwysig iawn. Yn 2006, aeth y Rhwydwaith Maethu, sef elusen sy'n rhoi gwybodaeth am faethu ac yn rhoi cymorth i ofalwyr maeth, ati i weithio gyda phlant a oedd yn derbyn gofal yng Nghymru i ddatblygu *Looked After Children's Education Charter* a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru. Dywed y cyflwyniad:

'We as fostered young people want the same things in life as other children: success at school, a good job, and a happy family. However, many of us face great upheaval and disruption in our lives. We can experience several moves during a year, resulting in a change of foster carers, school and friends. Despite these difficulties, many of us still go on to fulfil our potential and ... our achievements should be noted and celebrated.'

5 Roedd ein hastudiaeth yn ystyried a oedd y camau a gymerwyd yn y gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn ddigon i wella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn sylweddol. Sefydlwyd grŵp cyfeirio gennym a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol a nifer o sefydliadau perthnasol eraill i gefnogi ein gwaith. Buom hefyd yn gweithio gyda chwe awdurdod lleol i brofi trefniadau hunanasesu a mathau eraill o adnoddau. Ceir rhagor o wybodaeth am ein methodoleg yn Atodiad 2. Ceir gwybodaeth am nodweddion plant sy'n derbyn gofal yn Atodiad 3.

6 Daethom i'r casgliad bod mentrau gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cyfrannu at rywfaint o gynnydd ond nad yw llawer o blant sy'n derbyn gofal yn cyrraedd eu llawn botensial o hyd. Mae diffyg amcanion clir a gwendidau mewn cynllunio, rheoli perfformiad a rhianta corfforaethol yn rhwystr i gynnydd.

## Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf, ond nid yw llawer yn cyrraedd eu potensial, mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, ac mae'n anodd ei werthuso oherwydd gwendidau mewn data

7 Mae newidiadau yn y ffordd y cesglir data a bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i fonitro deilliannau i blant sy'n derbyn gofal neu wneud cymariaethau â'r gwahanol rannau o'r DU. Fodd bynnag, dengys ystadegau fod cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dipyn yn waeth na chyrhaeddiad plant yn gyffredinol. Ar Gyfnodau Allweddol 1 (saith oed), 2 (11 oed) a 3 (14 oed), mae perfformiad plant sy'n derbyn gofal dipyn yn waeth na phlant yn gyffredinol. At hynny, wrth iddynt fynd yn hŷn mae eu perfformiad yn mynd yn waeth fyth o gymharu â phlant eraill. Mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3[5] wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond nid yw'r gwelliant hwn yn fwy na'r cynnydd mewn cyrhaeddiad ar gyfer plant yn gyffredinol ar Gyfnod Allweddol 2. Ar Gyfnod Allweddol 3 mae cyfradd wella plant sy'n derbyn gofal

4 Canfu'r Uned Allgáu Cymdeithasol fel a ganlyn: 'Despite the common perception that children in care are 'uninterested in learning', the vast majority (97 per cent) consider education important, with nearly two-thirds (61 per cent) giving future employment as the reason. Many enjoy school, with around a third (35 per cent) identifying specific subjects or learning as their favourite aspect.' (Swyddfa'r Cabinet, *A Better Education for Children in Care*, 2003, tudalen 12.)

5 Dim ond yn y Cyfrifiad Plant mewn Angen newydd a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ers 2010 y ceir ffigurau ar berfformiad plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 1 (saith oed).

wedi bod yn is na chyfradd wella plant yn gyffredinol. O ganlyniad, mae'r bwlch rhwng eu cyrhaeddiad hwy a chyrhaeddiad plant yn gyffredinol wedi mynd yn fwy.

8 Mae cymwysterau pobl ifanc sy'n gadael gofal yn 16 oed neu drosodd yn waeth na phlant yn gyffredinol ac nid oes gan 29 y cant unrhyw gymwysterau o gwbl, o gymharu ag un y cant o blant yn gyffredinol. Dangosodd Cyfrifiad Plant mewn Angen 2011[6] yn 2010-11, mai dim ond 23 y cant o blant a oedd yn derbyn gofal a gyflawnodd drothwy Lefel 2 (cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU graddau A*-C) o gymharu â 67 y cant o blant yn gyffredinol. Dim ond 10 y cant o blant sy'n derbyn gofal sy'n cyflawni trothwy Lefel 2 sy'n fwy ymestynnol yn cynnwys cymwysterau TGAU mewn mathemateg a Chymraeg neu Saesneg o gymharu â 50 y cant o blant yn gyffredinol.

9 Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ledled Cymru ac yn achos rhai mesurau mae'n wannach nag mewn rhannau eraill o'r DU. Roedd cyfran y rhai 16 i 19 oed a oedd wedi gadael gofal yn ystod 2010-11 a enillodd bum TGAU gradd A*-G yn amrywio rhwng 21 y cant a 68 y cant ymhlith awdurdodau lleol yng Nghymru (Atodiad 4). Fodd bynnag, oherwydd y niferoedd bach o blant sy'n derbyn gofal gan rai awdurdodau lleol mewn unrhyw garfan flwyddyn mae angen dehongli'r ffigurau'n ofalus, gall un neu ddau o blant sy'n cyrraedd y lefel berthnasol wneud gwahaniaeth sylweddol i'r ganran. Ar yr un pryd, mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal mewn rhai awdurdodau yn gyson uwch na'r cyfartaledd ac mewn rhai awdurdodau eraill mae'n gyson is na'r cyfartaledd. Mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru yn llai tebygol o ennill cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C na'r rhai yn Lloegr. Dengys yr ystadegau diweddaraf, ar Gyfnod Allweddol 4 (16 oed), fod 13.2 y cant o blant a oedd wedi derbyn gofal am chwe mis yn olynol yn Lloegr wedi cyflawni'r hyn sy'n gyfwerth â phum TGAU gan gynnwys mathemateg a Saesneg o gymharu â 10.4 y cant yng Nghymru.

10 Mae'r rhai sy'n gadael gofal yn fwy tebygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant na phobl ifanc yn gyffredinol. Er bod cyfran y rhai sy'n gadael gofal nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar eu pen-blwydd yn 19 oed wedi gostwng ers 2006, erys bedair gwaith yn uwch na'r gyfradd ar gyfer plant yn gyffredinol. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011, nid oedd 48 y cant o'r rhai a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn cysylltiad â'u hawdurdod lleol mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed o gymharu ag 11.5 y cant o bobl ifanc 16-18 oed yn gyffredinol. Mae'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru yn llai tebygol o fod mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant ar eu pen-blwydd yn 19 oed na'r rhai yn Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Prin iawn yw'r dystiolaeth am gyflawniad addysgol tymor hwy pobl ifanc a fu'n derbyn gofal, er bod Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif bod tua 12 (tua 2.4 y cant) o'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru yn mynd i astudio mewn sefydliadau addysg uwch bob blwyddyn[7].

11 Mae presenoldeb a nodwyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol yn debyg i bresenoldeb plant yn gyffredinol ond mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn dal i wynebu sefyllfaoedd sy'n tarfu ar eu haddysg. Ni welsom unrhyw broblemau sylweddol o ran nodi presenoldeb yn yr ysgol gynradd yn ystod ein harolwg o bresenoldeb mewn chwe awdurdod lleol ond nid oedd lefelau presenoldeb ymhlith disgyblion uwchradd sy'n

6 Cyflwynwyd Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru gan Lywodraeth Cymru yn 2010. Mae'n defnyddio gwybodaeth am blant sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan awdurdodau lleol ac a oedd ag achos a fu ar agor am o leiaf dri mis ar 31 Mawrth, ynghyd â data o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion i roi gwybodaeth, yn cynnwys cyrhaeddiad addysgol, am blant sy'n derbyn gofal, plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a phlant eraill mewn angen fel plant ag anabledd. Mae rhagor o wybodaeth am y Cyfrifiad ar gael ym mharagraff 1.29.

7 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru)*, 2011, Adran 5.



derbyn gofal cystal â'r hyn a awgrymir gan y data cofnodedig. Mae nifer yr achosion o wahardd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn barhaol wedi gostwng i lefelau isel iawn yn rhannol oherwydd y defnydd cynyddol o symudiadau wedi'u rheoli rhwng ysgolion. Fodd bynnag, yn 2010-11, amharwyd ar leoliad ysgol 14 y cant o blant a oedd yn derbyn gofal am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â newid wedi'i gynllunio megis symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

## Mae polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi helpu i sicrhau rhywfaint o welliant ond nid ydynt wedi diffinio canlyniadau penodol ac er bod tystiolaeth gynyddol o arfer da, ni roddir cymorth mewn ffordd gyson

12 Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhannu ymrwymiad strategol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ond nid oes ganddynt ddeilliannau penodol y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn. Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o bolisïau a mentrau i wella gwasanaethau cymdeithasol plant yn gyffredinol a gwella perfformiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn benodol. Yn 1999, cyflwynodd y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf gyda'r nod o drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol plant a rhoddodd gymorth ariannol drwy gyllid wedi'i glustnodi. Roedd y cyllid hwnnw yn cynnwys cronfa grant gwerth £1 filiwn y flwyddyn wedi'i thargedu at addysg plant sy'n derbyn gofal. Ar y pryd, pennodd Llywodraeth Cymru ddau darged i awdurdodau lleol o dan y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf a oedd yn canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal, sef y dylai 50 y cant o blant sy'n derbyn gofal ennill o leiaf ddau gymhwyster TGAU neu GNVQ erbyn 2001 a 75 y cant erbyn 2003; ac na ddylai cyrhaeddiad plant sy'n gadael gofal fod yn is na chyrhaeddiad cyfartalog plant o gefndir tebyg yn eu hardal. Adeiladodd dogfen bolisi 2001 Llywodraeth Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu*[8] ar y rhain drwy bennu targed mwy ymestynnol: y dylai 75 y cant o blant sy'n derbyn gofal gyflawni o leiaf bum TGAU erbyn 2010.

13 Yna, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd ar addysg plant sy'n derbyn gofal[9]. Cyhoeddodd Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) adroddiad arolygu ar y cyd ar ddarpariaeth addysgol i blant sy'n derbyn gofal[10]. Ynddo gwnaed argymhellion i gefnogi cydweithio rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol mewn awdurdodau lleol a chefnogi gwaith cynllunio a chydgysylltu gwasanaethau Llywodraeth Cymru a lledaenu arfer gorau.

14 Cafodd cyllid Rhoi Plant yn Gyntaf ei integreiddio â'r arian bloc a roddwyd i lywodraeth leol yn 2004-05 a 2005-06. Yn ystod gwanwyn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn sefydlu rhaglen Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion) a oedd yn cynnwys grant ar gyfer plant sy'n derbyn gofal i'w dalu i awdurdodau lleol i wella gwasanaethau addysgol. Rhaglen ddwy flynedd ydoedd i ddechrau ond cafodd ei hymestyn yn ddiweddarach tan 31 Mawrth 2011. Roedd cylch gwaith y grant yn canolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 4 ond cafodd ei ddiwygio hefyd er mwyn sicrhau, er bod mentrau yn canolbwyntio ar Gyfnod Allweddol 4, y gallai arian hefyd gefnogi gwaith gyda phlant ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3 a’r rhai a oedd

8 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Y Wlad sy'n Dysgu*, 2001.

9 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cyfarwyddyd ar addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol*, Cylchlythyr 2/2001.

10 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Darpariaeth Addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal, adroddiad arolygiad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn*, 2001.

wedi gadael gofal ac a oedd yn astudio cwrs addysg uwch drwy fwrsari addysg uwch. Yna cafodd arian Rhagori ei integreiddio â'r elfen o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal. Mae'r grant hwn ar gael i awdurdodau lleol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal o unrhyw oedran.

**15** Yn 2006, diddymwyd targedau cenedlaethol ar gyfer cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal fel rhan o ymgyrch Llywodraeth Cymru i leihau targedau i 'lefelau y gellid ymdopi â hwy'. Yn 2011, nododd Strategaeth Tlodi Plant Cymru[11] fod 'consensws helaeth bod cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn annerbyniol o isel, o'i gymharu â'u cyfoedion'. Un o 13 o nodau'r Strategaeth yw lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol yn gyffredinol ond nid yw'r Llywodraeth wedi nodi'r deilliannau y mae'n ceisio eu cyflawni yn achos plant sy'n derbyn gofal.

**16** Hefyd yn 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Rhaglen Lywodraethu[12]. Mae'r Rhaglen yn cynnwys ymrwymiad i gymryd camau i 'wella'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod eu bywydau'n fwy sefydlog' gyda'r nod o wella canran y rhai sy'n gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth yn 19 oed a lleihau'r bwlch ar Gyfnod Allweddol 4 rhwng deilliannau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal, a phlant yn gyffredinol. Mae'r rhan hon o'r rhaglen yn dod o dan 'Cefnogi Pobl' a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Llywodraeth leol a Chymunedau sy'n gyfrifol amdani. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu targedau penodol ac ni chyfeirir at y nodau hyn yn y rhan o'r Rhaglen sy'n ymwneud ag addysg.

**17** Ar hyn o bryd nid oes cynllun clir na dogfen strategol sy'n amlinellu sut y caiff gwahanol gyfrifoldebau o fewn Llywodraeth Cymru neu rhwng y Llywodraeth, cyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill eu cysoni i gefnogi gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. O fewn Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am y ffrwd ariannu wedi'i thargedu ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n gyfrifol yn gyffredinol am bolisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi chwarae rôl arweiniol gadarn ar rianta corfforaethol. Yn yr un modd, ar lefel leol a rhanbarthol, mae nifer o adrannau awdurdodau lleol, partneriaethau ac asiantaethau yn gyfrifol am blant sy'n derbyn gofal.

**18** Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i gefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol drwy gyhoeddi canllawiau ar gyfrifoldebau deddfwriaethol ac arfer gorau. Ym mis Mehefin 2007, gosododd Llywodraeth Cymru ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, y cyrff iechyd a phartneriaid eraill i wella iechyd, lles ac addysg plant sy'n derbyn gofal drwy gyhoeddi ei dogfen bolisi *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*. Ym mis Medi 2008, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol at gynghorwyr ac uwch swyddogion mewn llywodraeth leol i bwysleisio pwysigrwydd eu cyfrifoldebau. Daeth Llywodraeth Cymru ynghyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i lansio fersiwn wedi'i ddiweddaru o *Pe bai'n blentyn i mi*[13] yn 2009, yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ddeddfwriaeth a chanllawiau helaeth ar fod yn rhiant corfforaethol da.

11 Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru,* Chwefror 2011, tudalen 31.

12 Llywodraeth Cymru, *Rhaglen Lywodraethu,* 2011.

13 Llywodraeth Cymru a CLILC, *Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i Gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal*, Mehefin 2009.



**19** Nid yw llawer o gynlluniau Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc lleol yn nodi'r deilliannau a fwriedir ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Gwelsom fod Cynllun pob Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2011-14 yn cynnwys datganiadau am wella deilliannau addysgol plant sy'n agored i niwed a chyfeiriodd y rhan fwyaf yn benodol at wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal ond dim ond chwech o'r 22 o gynlluniau a oedd yn cynnwys ymrwymiad penodol i wella deilliannau addysgol. At hynny, ychydig iawn o awdurdodau lleol a oedd wedi cynnwys targedau ar gyfer cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal neu'r rhai sy'n gadael gofal yn eu Cytundebau Gwella neu Gytundebau Canlyniadau mwy diweddar[14] â Llywodraeth Cymru.

**20** Ceir tystiolaeth gynyddol o arfer da ond mae prosesau cyflawni yn anghyson. Dros y degawd diwethaf mae awdurdodau lleol wedi datblygu amrywiaeth o brosiectau cymorth arbenigol a swyddi staff ac ers 2007 bu'n ofynnol iddynt benodi cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal i weithio gydag ysgolion a thimau gwaith cymdeithasol. Gwelwyd enghreifftiau lle mae'r gwasanaethau hyn yn cefnogi plant yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf wedi cael eu hariannu drwy gyfres o grantiau byrdymor sydd wedi effeithio ar gysondeb gwasanaethau. Mae gwaith ymchwil dros y blynyddoedd diwethaf wedi nodi'n eithaf cyson yr un fath o faterion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy er mwyn gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae portffolio sylweddol o enghreifftiau o arfer nodedig wedi datblygu, y mae rhai ohonynt wedi cael eu gwerthuso. Mae'r rhain yn cynnwys cyflwyno Pennaeth Ysgol Rhithwir i oruchwylio addysg plant sy'n derbyn gofal mewn awdurdod lleol; hyfforddiant un-i-un ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; a chynnig profiad gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r mentrau hyn wedi cael eu cyflwyno ledled Cymru mewn ffordd gyson.

**21** Gwnaed cynnydd sylweddol i ehangu mynediad at addysg uwch ac mae gwell arfer yn datblygu ym maes addysg bellach a pharatoi ar gyfer cyflogaeth. Mae Llywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), partneriaethau rhanbarthol Ymgeisio yn Uwch, sefydliadau addysg uwch a Buttle UK[15] wedi cydweithio i nodi a goresgyn rhai o'r rhwystrau a wynebir gan bobl a fu'n derbyn gofal i fynd ymlaen i addysg uwch. Ers 2006, mae partneriaethau rhanbarthol Ymgyrraedd yn Ehangach CCAUC wedi mynd ati i weithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal a chyda phrifysgolion. Erbyn canol 2011, roedd pob prifysgol yng Nghymru wedi ennill Nod Ansawdd Buttle UK sy'n cydnabod eu hymrwymiad i alluogi'r rhai sy'n gadael gofal i fynd ymlaen i addysg uwch. Ym mis Mehefin 2011, diwygiodd Llywodraeth Cymru reoliadau er mwyn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddarparu bwrsari addysg uwch o £2,000 o leiaf yn ystod y cyfnod astudio. Yn anffodus, ni chyflwynir adroddiadau'n genedlaethol ar faint o fwrsarïau a dderbynnir dderbynnir na nifer y rhai sy'n gadael gofal sy'n dechrau neu'n gorffen addysg uwch.

**22** Er gwaetha'r ddealltwriaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio, ceir anghysondeb rhwng awdurdodau lleol o ran gwasanaethau, trefniadau a deilliannau. Cwblhaodd pum awdurdod lleol hunanasesiad o'u gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan ddefnyddio adnodd a gynhyrchwyd gan y Comisiwn Archwilio fel rhan o'r astudiaeth hon. Roedd yr awdurdodau lleol

14 Strwythurwyd Cytundebau Gwella i ddangos cyfraniad awdurdodau lleol at agenda Cymru'n Un Llywodraeth Cymru, gyda gweithgarwch yn seiliedig ar bedair thema strategol o 2008-09. Ym mis Ebrill 2010, cafodd y rhain eu holynu gan Gytundebau Canlyniadau tair blynedd rhwng Llywodraeth Cymru a phob awdurdod lleol unigol. Mae cytundebau canlyniadau yn cynnwys 10 thema strategol gyffredinol sy'n deillio o ddogfen *Cymru'n Un.* Lle y bo'n bosibl, mae Cytundebau Canlyniadau yn adlewyrchu amcanion presennol yr awdurdod ar gyfer gwella neu'r amcanion ar gyfer gwella a nodwyd ganddo. Mae Cytundebau Gwella a Chytundebau Canlyniadau wedi'u cysylltu ag arian grant.

15 Mae Buttle UK yn elusen gofrestredig sy'n rhoi grantiau i gefnogi plant agored i niwed ac mae'n rhedeg Rhaglenni Addysgol (http://www.buttleuk.org/pages/grant-programmes.html) sydd â'r nod o drawsnewid bywydau plant a phobl ifanc agored i niwed y mae eu haddysg yn dioddef oherwydd materion meddygol, cymdeithasol ac, yn aml, economaidd.

yn amrywio'n sylweddol o ran eu darpariaeth a'u trefniadau. Mae adroddiadau diweddar gan Gomisiynydd Plant Cymru wedi tynnu sylw at anghysondebau yn y ffordd y darperir gwasanaethau eirioli[16] ond hefyd at y ffaith bod plant sy'n derbyn gofal yn cael budd o wasanaethau cwnsela i bobl ifanc yn yr ysgol sydd newydd eu datblygu[17].

## Nid oes gan Lywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol gynlluniau cyflawni ar y cyd ac nid ydynt wedi asesu a oes adnoddau ar gael i sicrhau gwelliant sylweddol

**23** Nid oes sicrwydd a oes digon o adnoddau i sicrhau gwelliant sylweddol. Nid yw'r cyllid penodol sydd ar gael i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu ers 2005-06, ac ni chaiff ei glustnodi'n benodol yn y dyfodol. Mae'n llai na'r swm sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal mewn rhannau eraill o'r DU. Nid yw Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol wedi asesu cost debygol cyflawni'r bwriad yn *Rhaglen Lywodraethu 2011* i leihau'r bwlch ar Gyfnod Allweddol 4 rhwng deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a'r boblogaeth gyffredinol a deilliannau gwell eraill i blant sy'n derbyn gofal.

**24** Yn ogystal ag incwm grant penodol, mae gan awdurdodau lleol gyllid dewisol drwy'r grant cynnal refeniw a'u hincwm eu hunain i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo addysg plant yn eu gofal. Ar hyn o bryd, mae cyllidebau gofal cymdeithasol o dan bwysau oherwydd y nifer gynyddol o blant sy'n dod yn rhan o'r system ofal yn ogystal â'r pwysau cyffredinol sy'n deillio o'r gostyngiadau mewn termau real mewn gwariant ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Mewn adroddiadau eraill mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi y disgwylid i wariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol ac addysg ostwng tua dau y cant mewn termau real yn 2011-12[18].

**25** Er bod Llywodraeth Cymru wedi darparu arian wedi'i dargedu i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal ers 2001 drwy gyfres o grantiau, mae'r swm sydd ar gael (tua £1 filiwn y flwyddyn) wedi aros yn ddigyfnewid. Golyga hyn fod ei werth gwirioneddol wedi gostwng dros amser drwy gyfuniad o chwyddiant, y niferoedd cynyddol o blant mewn gofal a chymhwysedd ehangach i gael arian. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn ymrwymedig i leihau arian grant penodol a dim ond yn ystod ei blwyddyn gyntaf mae'r elfen o'r grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal wedi'i chlustnodi. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu addysg rhag gostyngiadau mewn cyllid termau real, mae'r ffaith nad yw arian wedi'i glustnodi yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol ac ysgolion i benderfynu faint o arian sydd ei angen i gyflawni eu cyfrifoldebau am blant sy'n derbyn gofal a sut maent yn ei ddefnyddio.

**26** Yn Lloegr telir, ‘premiwm disgybl’, o £600 fesul disgybl yn 2012-13, i ysgolion ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau bwyd am ddim. Mae tua chwarter y plant sy'n derbyn gofal hefyd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac felly byddant yn derbyn ‘premiwm dwbl’. Yng Nghymru cyflwynwyd Grant Amddifadedd Disgyblion o £450 fesul disgybl yn 2012-13 ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ond, yn wahanol i Loegr, ni chaiff ei dalu i ysgolion mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal. Amcangyfrifwn, pe bai cyllid yn cael ei ddyrannu ar gyfer pob plentyn o oedran ysgol sy'n derbyn gofal yng

16 Comisiynydd Plant Cymru, *Lleisiau Coll, adolygiad o’r eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru,* 2012.

17 Llywodraeth Cymru, *Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Strategaeth Genedlaethol*, Ebrill 2008.

18 Swyddfa Archwilio Cymru, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*, paragraffau 1.18 - 1.24.



Nghymru yn unol â lefel y premiwm disgybl yn Lloegr, byddai ysgolion yng Nghymru yn cael tua £2 filiwn yn 2012-13 i gefnogi eu haddysg.

## Mae gwelliant wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad er y bydd newidiadau diweddar i gynyddu cydweithredu rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwell deilliannau o bosibl

**27** Mae gwendidau mewn rhianta corfforaethol, a rheoli perfformiad, diffyg atebolrwydd a gwerthuso annigonol yn tanseilio ymdrechion awdurdodau lleol i sicrhau gwell deilliannau. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau neu bwyllgorau rhianta corfforaethol i oruchwylio eu gwaith yn y maes hwn. Fodd bynnag, gwelsom fod diffyg gwybodaeth fanwl mewn adroddiadau yn amharu ar eu heffeithiolrwydd mewn rhai achosion. At hynny, awgryma tystiolaeth mai dim ond cychwyn y daith tuag at welliant yw sefydlu pwyllgor: mae rhianta corfforaethol effeithiol yn gofyn am ddiwylliant sy'n rhoi buddiannau plant sy'n derbyn gofal yn gyntaf, a all fod yn anodd pan fo cynghorwyr a swyddogion yn wynebu pwysau oddi wrth grwpiau eraill â blaenoriaeth a'r pwysau i fantoli cyllidebau.

**28** Yn ei adroddiad diweddar ar brofiadau'r rhai sy'n gadael gofal[19], mae Comisiynydd Plant Cymru yn cydnabod yr heriau a wynebir gan awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu rôl fel rhiant corfforaethol. Mae'n galw ar awdurdodau lleol i ddatblygu dulliau gweithredu mwy cydgysylltiedig sy'n cynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai ac adrannau perthnasol eraill yn ogystal â chynnwys darparwyr lleoliadau yn y sector gwirfoddol a'r sector preifat.

**29** Mae fframwaith newydd, a mwy effeithiol o bosibl, ar gyfer cyflawni polisi yn datblygu. Yn 2011, nododd Llywodraeth Cymru ei chynigion i ddarparu addysg a gofal cymdeithasol ar lefel fwy rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r rhain yn rhagweld y datblygir gwasanaethau a arweinir ar lefel ranbarthol sy'n cwmpasu agweddau ar addysg a gofal cymdeithasol ynghyd â rhai agweddau eraill a gyflawnir yn genedlaethol a rhai a gyflawnir yn lleol. Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu eu partneriaethau a'u trefniadau cynllunio lleol sydd, mewn llawer o ardaloedd, yn cynnwys strategaethau cymunedol symlach sydd hefyd yn cyflawni'r gofynion ar gyfer Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a chynlluniau statudol eraill. Gyda'i gilydd, mae'r datblygiadau hyn yn cynnig fframwaith newydd a allai ddatblygu strategaethau cydgysylltiedig a chliriach ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Gall y newidiadau arwain at atebolrwydd a chyfrifoldebau cliriach ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol ac, ynghyd â chysoni ffrydiau ariannu, gallent sicrhau'r gydlyniaeth sydd ei hangen ar strategaethau a chynlluniau ar gyfer gwella deilliannau addysgol i blant a phobl ifanc yn gyffredinol, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Mae datblygu trefniadau rhanbarthol cadarn hefyd yn rhoi cyfle i nodi'r arfer gorau i gefnogi cyrhaeddiad addysgol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a sicrhau bod pob awdurdod lleol yn gweithredu yn unol â'r lefel hon.

**30** Fodd bynnag, er gwaethaf y ddyletswydd benodol ar awdurdodau lleol tuag at blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, mae'n bosibl o hyd nad yw'r plant hyn sy'n agored i niwed yn cael y sylw manwl ac unigol sydd ei angen.

19 Comisiynydd Plant Cymru, *Ar Goll Ar ôl Gofal*, Gorffennaf 2011.

# Argymhellion

**Gwella effeithiolrwydd addysg plant sy'n derbyn gofal**

**A1** Mae llawer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus a sefydliadau eraill yn ymwneud â'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. **Wrth bennu'r fframwaith polisi ac er mwyn gwella effeithiolrwydd y gadwyn gymhleth hon o wasanaethau, argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:**

- **mynegi cyfrifoldeb Gweinidogion am addysg plant sy'n derbyn gofal yn glir o fewn Llywodraeth Cymru a nodi rolau'r adrannau perthnasol i helpu i sicrhau gwell deilliannau addysgol i blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal;**
- **cyhoeddi cynllun cyffredinol ar gyfer gwella addysg plant sy'n derbyn gofal sy'n cydnabod cyfraniad strategaethau ategol gan gynnwys y strategaeth tlodi plant a'r fframwaith effeithiolrwydd ysgolion;**
- **ddatblygu cytundeb clir ynglŷn â'u priod rolau a chyfrifoldebau am wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal gan gynnwys trefniadau ariannu;**
- **sicrhau bod canlyniadau penodol ar y cyd yn cael eu pennu ar gyfer y sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol dan sylw.**

**Hyrwyddo arfer da ym maes addysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**

**A2** Ceir gwaith ymchwil helaeth a gwybodaeth gynyddol am arfer da yng Nghymru ac mewn rhannau eraill o'r DU ynglŷn ag ymyriadau a gwaith i wella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ym mis Ebrill 2011, cyhoeddodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru grynodeb o arfer nodedig ym maes rhianta corfforaethol yng Nghymru a oedd yn cynnwys rhai enghreifftiau o arfer addysgol[20]. **Er mwyn adeiladu ar hyn a lledaenu arfer gorau argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru:**

- **ar y cyd â'i phartneriaid yng Nghymru a thu hwnt, ddatblygu man gwybodaeth canolog i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal sy'n gysylltiedig â chanolfannau gwybodaeth addysg ac arfer da sy'n bodoli eisoes;**
- **annog awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol i ddatblygu mentrau seiliedig ar dystiolaeth megis y Pennaeth Ysgol Rhithwir ac ymestyn hyfforddiant un-i-un yng Nghymru.**

**Gwella'r ffordd y caiff deilliannau plant sy'n derbyn gofal eu monitro**

**A3** Mae'n hanfodol monitro deilliannau er mwyn dwyn rhieni corfforaethol i gyfrif a sbarduno gwelliant. Mae hyn, yn ei dro, yn dibynnu ar gael data da ar ddeilliannau. Fodd bynnag, rydym wedi nodi gwendidau yn y wybodaeth sydd ar gael a cheir bylchau yn y data, yn enwedig ynglŷn ag addysg ôl-16. Oherwydd y llu o newidiadau yn y data a gofnodir ac a gyhoeddir yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'n anodd olrhain newidiadau dros amser. Mae'r gwendidau hyn o ran data yn cyfyngu ar y gallu i gymharu â chyrhaeddiad grwpiau eraill o blant a deilliannau plant sy'n derbyn gofal ledled y DU. Mae datblygiad Cyfrifiad o Blant Mewn Angen, a gynhaliwyd am y tro cyntaf yn 2010, yn rhoi gwybodaeth am gyrhaeddiad ar Gyfnodau Allweddol 1-4 a bydd yn dod yn gynyddol ddefnyddiol os bydd cwmpas y cyfrifiad yn gwella. **Dylai Llywodraeth Cymru adolygu pa ddata sydd ar gael ar bob Cyfnod Allweddol, ar bresenoldeb yn yr ysgol uwchradd, ar y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn 16 oed, yn 19 oed a thu hwnt, ac wedyn cyrhaeddiad ôl-16 a'r rhai sy'n dechrau ac yn cwblhau cyrsiau addysg bellach ac addysg uwch ynghyd â dibynadwyedd y data hwnnw er mwyn sicrhau bod data priodol ar gael i helpu i fonitro a rheoli cynnydd. Dylai hefyd gadarnhau dilysrwydd a dibynadwyedd y Cyfrifiad Plant mewn Angen a pharhau i wella ymarferion paru data i gynyddu'r wybodaeth sydd ar gael.**

**Gwella effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer asesu cynnydd plant sy'n derbyn gofal yn genedlaethol**

**A4** Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am asesu effeithiolrwydd ei bwriad i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae rheoleiddwyr ac arolygwyr hefyd yn chwarae rhan yn y gwaith o fonitro ac asesu cynnydd, ac mae hyn wedi'i gynnwys yn eu trefniadau ar gyfer arolygu a gwerthuso ar lefel ysgolion ac awdurdodau lleol. Mae'r fframwaith ar gyfer asesu cynnydd a dysgu ar lefel genedlaethol yn llai amlwg. **Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff archwilio, arolygu a rheoleiddio i ystyried sut y gellir atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer asesu cynnydd a'r graddau y mae plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni eu potensial addysgol.**

20 CLILC, *WLGA Notable Practice Compendium – Corporate Parenting*, 2011.



# Rhan 1 – Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn gwella'n araf, ond nid yw llawer yn cyrraedd eu potensial, mae gormod o amrywiad o ran cyrhaeddiad, ac mae'n anodd ei werthuso oherwydd gwendidau mewn data

**1.1** O ran plant sy'n derbyn gofal, mae eu hawdurdod lleol yn ymgymryd â'r cyfrifoldebau y mae'r gyfraith fel arfer yn eu gosod ar rieni. Mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel eu rhiant ac mae arno ddyletswydd statudol i ddiogelu a hyrwyddo lles y plant hyn, sef rôl a elwir yn 'rhianta corfforaethol'. Nodir cyfrifoldebau'r rhiant corfforaethol yn Neddf Plant 1989 ac mewn deddfwriaeth ddiweddarach:

- **a** diogelu lles plant sy'n derbyn gofal drwy sicrhau lleoliadau diogel a chefnogol gyda gofalwyr maeth, mewn cartrefi preswyl neu gartrefi eraill;
- **b** cefnogi iechyd plant a phobl ifanc, gan gynnwys iechyd meddwl, mewn partneriaeth ag awdurdodau iechyd;
- **c** helpu plant sy'n derbyn gofal i gyflawni eu potensial addysgol yn yr ysgol ac mewn addysg bellach ac addysg uwch;
- **ch** eu helpu i ddod yn ddinasyddion llawn a gweithredol.

**1.2** Mae effeithiolrwydd rhianta corfforaethol yn cael effaith fawr ar fywydau'r plant a'r bobl ifanc dan sylw. Gall diffyg cefnogaeth i gyflawni eu potensial gyfrannu at ddiffyg cymwysterau, digartrefedd, troseddu ac, maes o law, sgiliau rhianta gwael yn y dyfodol. Mae i hyn oblygiadau o ran costau ac effeithiau ar gymdeithas. Mae'r rhan hon o'n hadroddiad yn ystyried data cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Bydd llawer o blant a phobl ifanc yn derbyn gofal am gyfnod byr yn unig ac efallai y byddant yn dod yn rhan o'r system ofal a'i gadael yn ystod eu plentyndod wrth i'w hamgylchiadau newid - ceir rhagor o wybodaeth am oedran, niferoedd a lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn Atodiad 3.


**1.3** Mae'r adran hon o'r adroddiad yn dibynnu ar ddwy brif ffynhonnell o ddata ynglŷn â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal:

- Data ar blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal a ddaw o ddata awdurdodau lleol ar lefel plant unigol, gwybodaeth am berfformiad a chofnodion unigol. Cyhoeddir y data hyn bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru fel 'Adoptions, outcomes and placements for children looked after by local authorities'.
- Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru sy'n mesur nodweddion plant mewn angen a'u rhieni. Diffinnir plant mewn angen fel y rhai sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol gan eu hawdurdod lleol ac mae'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant eraill mewn angen. Mae'r Cyfrifiad yn seiliedig ar wybodaeth am ddatganiadau unigol gan awdurdodau lleol ar blant yr oedd achos ar agor yn eu cylch am o leiaf dri mis hyd at 31 Mawrth. Yna caiff y wybodaeth hon ei 'pharu' â'r gronfa ddata genedlaethol o ddisgyblion er mwyn cael gwybodaeth addysg. Cafodd y Cyfrifiad cyntaf, a oedd yn ymwneud â phlant a oedd yn derbyn gofal ym mis Mawrth 2010 ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2011.

## Mae cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dipyn yn is na chyrhaeddiad plant eraill ac mae gormod yn wynebu sefyllfaoedd sy'n tarfu ar eu haddysg, er bod tystiolaeth o welliant bach o ran cyrhaeddiad

**1.4** Fel grŵp, mae plant sy'n derbyn gofal yn perfformio'n waeth na'r cyfartaledd ar gyfer plant yn gyffredinol ar bob cyfnod yn eu haddysg. Dengys Ffigur 2 fod plant sy'n derbyn gofal yn llai tebygol o gyflawni'r lefel ddisgwyliedig, fel y'i hasesir gan athrawon, ar Gyfnodau Allweddol 1 (saith oed), 2 (11 oed) a 3 (14 oed). At hynny, mae'r bwlch yn mynd yn fwy wrth i blant fynd yn hŷn: ar Gyfnodau Allweddol 1 a 2, mae cyfran plant yn gyffredinol sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig bron ddwywaith yn fwy na'r gyfran ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ond, erbyn Cyfnod Allweddol 3, mae'r gymhareb deirgwaith yn fwy.

**Ffigur 2 - Mae cyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2011 yn is na chyrhaeddiad plant yn gyffredinol ar Gyfnodau Allweddol 1, 2 a 3**




*Ffynhonnell: Plant mewn Angen 2011, Tabl 14, Ystadegau Cymru*

*Nodiadau:*

1. *Mae'r Dangosydd Pynciau Craidd yn cynrychioli canran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (lefel 2 ar Gyfnod Allweddol 1, lefel 4 ar Gyfnod Allweddol 2 a lefel 5 ar Gyfnod Allweddol 3) neu'n uwch mewn Cymraeg (iaith gyntaf), Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth ar y cyd.*
2. *Yn ôl data awdurdodau lleol a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru, mae 44 y cant o blant sy'n derbyn gofal yn cyflawni'r Dangosydd Pynciau Craidd ar Gyfnod Allweddol 2. Mae 22 y cant yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar Gyfnod Allweddol 3, yr un ganran ag yng Nghyfrifiad Plant mewn Angen. Ni chaiff gwybodaeth am Gyfnod Allweddol 1 ei chasglu'n uniongyrchol gan awdurdodau lleol.*



1.5 Gall plant ddod yn rhan o'r system ofal o sefyllfaoedd anodd ac mae gan lawer anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol. Felly mae eu cynnydd addysgol yn debygol o fod yn arafach na chynnydd llawer o blant eraill. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd cymorth i ddisgyblion drwy gydol eu haddysg. (Mae Ffigur 3 yn esbonio'r mathau o gymorth sydd ar gael i blant yn yr ysgol.) Yn ôl Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2011 ym mis Mawrth 2011, roedd gan 21 y cant o blant o oedran ysgol sy'n derbyn gofal ddatganiadau anghenion addysgol arbennig o gymharu â thri y cant o ddisgyblion yn gyffredinol. Roedd 43 y cant arall yn dod o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol neu drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy o gymharu â 22 y cant o ddisgyblion yn gyffredinol[21].

**Ffigur 3 - Mae nifer o fathau o gymorth ar gael i blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol a hefyd i blant sydd yng ngofal awdurdodau lleol**

Mae gan blant **anghenion addysgol arbennig (AAA)** os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Caiff plant o'r fath eu cofnodi ar Gofrestr AAA ac maent yn cael cymorth priodol. Gall hyn gynnwys rhoi datganiad anghenion addysgol arbennig sy'n nodi'r anghenion hynny a sut y cânt eu diwallu. Mae gan bob ysgol gydlynydd anghenion addysgol arbennig (SENCO) sy'n gyfrifol am y disgyblion hyn yn yr ysgol. Nod *Cod Ymarfer AAA Cymru*[22] yw cynnig canllawiau clir ar gyfer darparwyr y blynyddoedd cynnar, athrawon ysgol gynradd ac athrawon ysgol uwchradd, awdurdodau addysg lleol, teuluoedd a'r rhai sy'n ymwneud â diwallu anghenion addysgol arbennig plant. Dylai cynnydd pob plentyn ag anghenion arbennig gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai natur a lefel y cymorth gael eu haddasu yn unol â hynny.

**Gweithredu gan yr Ysgol** – Pan fo athro dosbarth neu athro pwnc yn nodi nad yw plentyn yn gwneud cynnydd heb ddarpariaeth ychwanegol sy'n wahanol i gwricwlwm gwahaniaethol arferol yr ysgol, bydd yn gweithio gyda'r SENCO i nodi strategaethau ac ymyriadau i gefnogi'r plentyn yn yr ysgol. Mae'r Cynllun Addysg Unigol yn cofnodi cymorth ychwanegol.

**Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy** – Pan fo'r athro a'r SENCO yn nodi bod angen cymorth ar blentyn o ffynhonnell allanol i'w helpu i ddysgu. Unwaith eto, cofnodir cymorth ychwanegol yn y Cynllun Addysg Unigol.

**Aelod dynodedig o staff ar gyfer plant sy'n derbyn gofal** – Uwch aelod o staff sy'n gyfrifol am gydgysylltu gwasanaethau a chymorth i blant sy'n derbyn gofal, gan weithredu fel eiriolwr yn yr ysgol, sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol a llunio cytundeb cartref ac ysgol â'r gofalwr. Bydd gan sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch sydd wedi ennill Nod Ansawdd Buttle UK aelod dynodedig o staff hefyd ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol, Chwefror 2011*

21 Ystadegau Cymru, *Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru*, 2011 SDR 32/2012, Chwefror 2012.

22 Llywodraeth Cymru, *Cod Ymarfer AAA Cymru*, 2004.

1.6 Mae cyrhaeddiad plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fel grŵp cyfan yn tueddu i fod yn is na chyrhaeddiad y grŵp o blant ar y gofrestr AAA. Awgryma hyn na ellir priodoli cyflawniad isel plant sy'n derbyn gofal i'r gyfran gymharol uchel sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac awgryma nad yw rhai plant sy'n derbyn gofal yn cyflawni eu potensial. Canfu'r gwerthusiad o raglen Rhagori[23] Llywodraeth Cymru 'mai dim ond perthynas wan iawn a oedd rhwng ffactorau megis nifer y plant a oedd ag anghenion addysgol arbennig a chyrhaeddiad' plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, yn 2010 ar Gyfnod Allweddol 4, roedd y gyfran a gyflawnodd drothwy Lefel 1 (cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU Gradd A*-G neu fwy) yn 45 y cant ar gyfer plant â Datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig, 67 y cant ar gyfer plant o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy, 83 y cant ar gyfer y rhai o dan drefniadau Gweithredu gan yr Ysgol, ond dim ond 35 y cant ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal[24].

1.7 Dengys data cyhoeddedig awdurdodau lleol fod cyfran y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru sy'n cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar bob Cyfnod Allweddol[25] wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf: mae'r gyfran sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar Gyfnod Allweddol 2 (11 oed) wedi cynyddu o 40 y cant yn 2009 i 44 y cant yn 2011 ac ar Gyfnod

**Ffigur 4 - Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3[1] wedi gwella ychydig ond mae'r bwlch rhwng eu cyrhaeddiad hwy a chyrhaeddiad plant yn gyffredinol[2] wedi aros yn ddigyfnewid bron**

| | Canran y plant cymwys sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig (y Dangosydd Pynciau Craidd - DPC) | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **2007** | **2008** | **2009** | **2010** |
| **Cyfnod allweddol 2 (11 oed)** | | | | |
| Plant sy'n derbyn gofal[3] | 39 | 40 | 44 | 44 |
| Plant yn gyffredinol | 74 | 76 | 77 | 78 |
| ***Bwlch mewn cyrhaeddiad ar Gyfnod Allweddol 2*** | ***35*** | ***36*** | ***33*** | ***34*** |
| **Cyfnod allweddol 3 (14 oed)** | | | | |
| Plant sy'n derbyn gofal | 18 | 21 | 25 | 22 |
| Plant yn gyffredinol | 57 | 60 | 61 | 64 |
| ***Bwlch mewn cyrhaeddiad ar Gyfnod Allweddol 3*** | ***39*** | ***39*** | ***36*** | ***42*** |

*Nodiadau:*

1 *Ffynhonnell: Ystadegau Cymru Llywodraeth Cymru, Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked after by Local Authorities: year ending March 2011, SDR 166/2011. Ffigurau ar gyfer plant mewn ysgolion a gynhelir gan y wladwriaeth ydynt. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal yn fach ac felly mae'r ffigurau yn debygol o amrywio: yn 2010-11, 250 ar Gyfnod Allweddol 2 (11 oed) a 313 ar Gyfnod Allweddol 3 (14 oed).*

2 *O ran plant sy'n derbyn gofal mae'r wybodaeth yn cynnwys y rhai a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth ac a oedd wedi'u hasesu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, felly ar gyfer 2010-11, mae'n cyfeirio at asesiadau plant a phobl ifanc yn 2010 ac felly fe'i cymerir â data a gyhoeddwyd ar gyfer 'plant yn gyffredinol' ar gyfer 2010.*

3 *Rhoddodd data arbrofol Cyfrifiad Plant mewn Angen ffigur is (42 y cant) ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 yn 2009 a ffigur uwch (49 y cant) ar gyfer 2010. Ar Gyfnod Allweddol 3, rhoddodd y Cyfrifiad ffigur is (22 y cant) ar gyfer 2009 a'r un ffigur (22 y cant) ar gyfer 2010.*


23 Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 15/2012, *Gwerthusiad o dair blynedd gyntaf y rhaglen Rhagori, a gynhaliwyd gan yr Uned Pobl a Gwaith*, paragraff 11.14.

24 Ffigurau ar gyfer pob plentyn - Llywodraeth Cymru, *Cyflawniad Academaidd yn ôl Nodweddion Disgyblion, 2011*, Mawrth 2012. Ffigurau ar gyfer plant mewn gofal - Llywodraeth Cymru, *Adoptions, outcomes and placements for children looked after by local authorities: year ending 31 March 2011*, SDR 166/2011, Medi 2011.

25 Dim ond ers 2010 y mae ystadegau ar gyflawniad plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 1 wedi bod ar gael.



**Ffigur 5 - Mae cyfran y plant a phobl ifanc a adawodd ofal yn 16-19 oed sydd wedi ennill o leiaf un cymhwyster TGAU wedi cynyddu ers 2002-03 ond mae'n dal i fod ymhell o gyrraedd y targed a bennwyd yn 2001**




*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru*

Allweddol 3 (14 oed) bu cynnydd o 20 y cant yn 2009 i 22 y cant yn 2011. Fodd bynnag, mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu'r cynnydd a welir yn gyffredinol yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar bob Cyfnod Allweddol yng Nghymru. Felly mae'r bwlch rhwng cyflawniadau'r plant sy'n derbyn gofal a chyflawniad plant yn gyffredinol wedi aros yn ddigyfnewid bron (Ffigur 4). Ar Gyfnod Allweddol 2, mae'r bwlch rhwng cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal a chyrhaeddiad plant yn gyffredinol wedi lleihau un pwynt canrannol yn unig ers 2007 ond mae wedi cynyddu tri phwynt canrannol ar Gyfnod Allweddol 3.


**1.8** Mae perfformiad plant sy'n gadael gofal yn 16 oed neu drosodd hefyd wedi gwella rhywfaint yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ers 2002-03, mae canran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi ennill o leiaf un cymhwyster TGAU neu GNVQ wedi cynyddu o 38 y cant i 56 y cant (Ffigur 5) er bod hyn yn golygu o hyd nad oes gan 44 y cant o'r rhai sy'n gadael gofal yr un cymhwyster TGAU neu GNVQ. Mae'r cynnydd i'w groesawu ond mae'n brin o dargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf, sef y dylai canran y rhai sy'n gadael gofal sy'n cyflawni o leiaf ddau gymhwyster TGAU/GNVQ gyrraedd 50 y cant erbyn 2002 a 75 y cant erbyn 2003[26].

**1.9** Bu cynnydd hefyd yn ystod yr un cyfnod yng nghyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi ennill pum TGAU gradd A*-G neu fwy o 24 y cant yn 2002-03 i 35 y cant yn 2010-11. Cynyddodd cyfran 'plant yn gyffredinol' a enillodd bum TGAU gradd A*-G neu fwy yn 16 oed yn ystod yr un cyfnod o 85 y cant i 90 y cant.

**1.10** Mae cyfran y rhai sy'n gadael gofal sydd wedi ennill cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C neu fwy ('trothwy Lefel 2') wedi cynyddu chwe phwynt canrannol i 10 y cant rhwng 2002-03 a 2010-11. Yn ystod yr un cyfnod, cynyddodd cyfran y plant yn gyffredinol a gyflawnodd y lefel hon yn 16 oed o 51 y cant i 67 y cant.

26 Nid yw data ar ennill o leiaf ddau gymhwyster TGAU/GNVQ wedi'u cofnodi mwyach felly mae ein gwybodaeth yn seiliedig ar ennill un TGAU/GNVQ.

**Ffigur 6 - Mae plant 16 oed neu drosodd sy'n gadael gofal yn llawer llai tebygol o ennill cymwysterau addysgol na phlant yn gyffredinol**




*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru ynghyd â dadansoddiad ychwanegol gan Swyddfa Archwilio Cymru*

**1.11** Mae Ffigur 6 yn dangos y bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant yn gyffredinol yn 2010: nid oedd gan ychydig o dan draean (29 y cant) o blant sy'n derbyn gofal unrhyw gymwysterau (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol a chymwysterau eraill yn ogystal â TGAU neu GNVQ) pan wnaethant adael gofal, o gymharu â llai nag un y cant (0.8 y cant) o gyfanswm y rhai a adawodd yr ysgol yn 2010-11[27].

**1.12** Fodd bynnag, yn ôl canfyddiadau Cyfrifiad Plant mewn Angen 2011, a oedd wedi'i seilio ar wybodaeth am blant a phobl ifanc 16 oed sy'n derbyn gofal, enillodd 23 y cant o blant 15 oed sy'n derbyn gofal drothwy Lefel 2 (sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C). Ni wyddys ar hyn o bryd i ba raddau y gellir priodoli'r lefel uwch hon o ran deilliannau i wahaniaethau rhwng y ffynonellau ystadegol, gan gynnwys newidiadau yn y garfan (er enghraifft y meini prawf cymhwyso gwahanol), cynnwys amrywiaeth ehangach o gymwysterau yn ogystal â chwmpas anghyflawn y cyfrifiad.

**1.13** Cyflwynwyd mesur newydd o gyrhaeddiad disgyblion - y 'sgôr pwyntiau cyfartalog' - ar Gyfnod Allweddol 4 (16 oed) yn 2007-08. Fe'i cyfrifir ar sail yr amrywiaeth o gymwysterau a enillwyd ac mae'n cynnwys cymwysterau ac eithrio cymwysterau GNVQ a TGAU[28]. Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn lleoliad a gynhelir gan yr awdurdod lleol oedd 183 yn 2011 o gymharu â 423 ar gyfer plant yn gyffredinol[29]. Un feirniadaeth o'r sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach yw y gall nifer fach o blant sy'n cyflawni'n dda iawn gael ei hystumio. Mae'r 'sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio' yn seiliedig ar yr wyth cymhwyster uchaf a enillwyd ac felly mae effaith plant sy'n cyflawni'n dda iawn yn llai. Yn ôl Cyfrifiad Plant mewn Angen 2011 y sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i chapio ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 4 oedd 178 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o gymharu â 312 ar gyfer plant yn gyffredinol.

27 Darparwyd y ffigurau gan Ystadegau Cymru, *Disgyblion sy'n gadael ysgol heb gymwysterau.*

28 Ymhlith y cymwysterau eraill mae'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQs), tystysgrifau BTEC a chanlyniadau Sgiliau Allweddol. Caiff pob un ei asesu yn ôl gwerth y gellir ei adio at ei gilydd i roi sgôr pwyntiau. Er enghraifft gradd A TGAU = 50 pwynt, gradd F = 22, teilyngdod mewn GNVQ Canolradd = 196 pwynt, Tystysgrif Gyntaf BTEC mewn gwyddoniaeth gymhwysol = 98, a llwyddo ar lefel 2 Sgiliau Allweddol = 34 pwynt.

29 Daw'r ffigurau ar gyfer plant yn gyffredinol o *Canlyniadau arholiadau yng Nghymru 2010/11*, Ystadegau Cymru 221/2011. Daw ffigurau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o *Arolwg Plant mewn Angen Cymru 2011*, Ystadegau Cymru, SDR 32/2012, Chwefror 2012.



## Mae presenoldeb cofnodedig yn yr ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi gwella ond ceir tystiolaeth bod ystadegau yn gorddatgan presenoldeb o bosibl, o leiaf yn yr ysgol uwchradd

**1.14** Awgryma data a ddarparwyd gan awdurdodau lleol i uned ddata llywodraeth leol ar gyfer 2010-11 fod presenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol gynradd ychydig yn uwch na phresenoldeb disgyblion yn gyffredinol: collodd disgyblion sy'n derbyn gofal 5.8 y cant o sesiynau o gymharu â ffigur cyfartalog o 6.8 y cant o sesiynau ar gyfer plant yn gyffredinol. O ran ysgolion uwchradd, mae presenoldeb plant sy'n derbyn gofal ychydig yn is na phlant yn gyffredinol: collodd plant sy'n derbyn gofal 9.9 y cant o sesiynau o gymharu â 8.6 y cant ar gyfer plant yn gyffredinol. Mae presenoldeb cofnodedig plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi gwella ers 2006-07 pan gollwyd 6.2 y cant o sesiynau cynradd a 12.4 y cant o sesiynau uwchradd.

**1.15** Fodd bynnag, yn y ffurflenni data, nid yw cyfanswm presenoldeb posibl y disgyblion bob amser yn cyfateb i'r lefel y gellid bod wedi'i disgwyl. Mewn rhai cynghorau mae'r data ar bresenoldeb yn seiliedig ar lawer llai o sesiynau ysgol na'r disgwyl ar gyfer nifer y plant o oedran ysgol sy'n derbyn gofal; yn achos cynghorau eraill mae nifer y sesiynau yn uwch na'r cyfanswm disgwyliedig. Nid ydym wedi llwyddo i esbonio'r amrediad hwn na ellir ei briodoli i newidiadau yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn na'r amrywiadau yn y gyfran mewn addysg arbennig.

**1.16** Yn ystod ein gwaith gyda chwe awdurdod lleol, ni welsom unrhyw broblemau sylweddol gyda'r ffigurau ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol gynradd ac roedd presenoldeb o 94.9 y cant wedi'i gofnodi. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, ar lefel uwchradd, gwelwyd presenoldeb o 85 y cant, sef tua phum pwynt canrannol yn is na’r data cofnodedig mwyaf diweddar ar gyfer yr awdurdodau dan sylw. Roedd y prif anghysondebau yn ymwneud â disgyblion a oedd wedi'u cofrestru ag ysgolion uwchradd prif ffrwd ond y disgwylid iddynt fynychu unedau cyfeirio disgyblion a darpariaeth amgen am yr wythnos gyfan neu ran o'r wythnos. Dylid ymgymryd â gwaith pellach i asesu dibynadwyedd y data ar bresenoldeb yn yr ysgol uwchradd ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal.

**Ffigur 7 - Gellir gwahardd disgybl o'r ysgol mewn sawl ffordd ac mae modd lleihau'r niferoedd drwy symudiadau wedi'u rheoli rhwng ysgolion**

**Gwahardd disgybl o'r ysgol am gyfnod penodol** – Gall plentyn sy'n mynd i helynt fawr yn yr ysgol gael ei wahardd am gyfnod penodol. Dim ond os oes plentyn wedi torri rheolau'r ysgol mewn modd difrifol neu os byddai ei bresenoldeb yn yr ysgol yn niweidiol iawn i les y plentyn ei hun neu les disgyblion eraill y gall ysgolion wahardd plentyn.

**Gwahardd disgybl o'r ysgol yn barhaol** – Dim ond ar ôl ceisio newid ymddygiad plentyn yn barhaol drwy ffyrdd eraill y bydd ysgol yn gwahardd plentyn fel arfer. Fodd bynnag gall disgybl gael ei wahardd yn barhaol am ddigwyddiad ‘untro’ o dan amgylchiadau eithriadol.

**Symudiadau wedi'u rheoli** – Proses ofalus wedi'i chynllunio i drosglwyddo disgybl i ysgol newydd i'w alluogi i ddechrau o'r newydd. Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y defnydd o symudiadau wedi'u rheoli ar gyfer plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol yn ogystal ag achosion lle nad yw eu hysgol bresennol yn llwyddo i fynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol neu broblemau eraill neu lle mae ei bresenoldeb yn yr ysgol yn niweidiol i les emosiynol y disgybl (e.e. oherwydd bwlio). Gall symudiadau wedi'u rheoli leihau nifer y gwaharddiadau parhaol drwy roi cyfle i gynllunio newid ysgol a lleihau faint o amser a dreulir i ffwrdd o'r ysgol.

*Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Defnydd effeithiol o symudiadau wedi'u rheoli: Cychwyn newydd i blant a phobl ifanc yn yr ysgol, Chwefror 2011*

**Mae nifer yr achosion o wahardd disgyblion yn barhaol o'r ysgol wedi lleihau ond mae llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn dal i wynebu sefyllfaoedd sy'n tarfu ar eu haddysg drwy newid ysgol yn fynych ac mae gwaith cynllunio i wella parhad addysg yn anghyson**

**1.17** Mae nifer y disgyblion yn gyffredinol a nifer y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael eu gwahardd yn barhaol o'r ysgol wedi lleihau yn ystod y blynyddoedd diwethaf, a hynny'n rhannol oherwydd y bu mwy o ddefnydd o 'symudiadau wedi'u rheoli' a gwaharddiadau am gyfnod penodol (gweler Ffigur 7). Yn 2010-11, dim ond tri o blant a phobl ifanc a oedd yn derbyn gofal a gafodd eu gwahardd yn barhaol ledled Cymru o gymharu ag 11 yn 2007-08.

**1.18** Fodd bynnag, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu gwahardd am gyfnod penodol wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf o 232 yn 2007-08 i 304 yn 2010-11. Hyd cyfartalog pob gwaharddiad oedd 7.6 diwrnod ysgol o gymharu â 7.1 yn 2009-10. Ni wyddys faint o blant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu gwahardd am gyfnod penodol, gan ei bod yn bosibl i blentyn neu berson ifanc gael ei wahardd fwy nag unwaith yn ystod y flwyddyn. Yn ôl yr arolwg o bresenoldeb a gynhaliwyd gyda'r cynghorau dan sylw, yn ystod wythnos y cyfrifiad, roedd pump o 111 o blant o oedran ysgol uwchradd sy'n derbyn gofal wedi'u gwahardd am ran o'r wythnos honno.

**1.19** Mae llawer o blant sy'n derbyn gofal yn wynebu sefyllfaoedd sy'n tarfu ar eu bywydau dro ar ôl tro, ac weithiau gall newidiadau o ran ble maent yn byw a chyda phwy, amharu ar eu haddysg ac mewn rhai achosion, arwain at newid ysgol. Yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011, gorfu i naw y cant o blant a oedd yn derbyn gofal symud lleoliad o leiaf deirgwaith[30]. Mae plant sy'n derbyn gofal yn aml yn cwyno bod penderfyniadau ynglŷn â lleoliadau yn cael eu gwneud heb roi ystyriaeth ddigonol i'r effaith arnynt os bydd yn rhaid iddynt newid ysgol. Weithiau gall plant newid ysgol i gael dechrau newydd, ond awgryma ymchwil fod newid ysgol yn brofiad negyddol i'r rhan fwyaf o blant sy'n derbyn gofal[31]. Yn 2010-11, bu'n rhaid i 14 y cant a oedd yn derbyn gofal newid ysgol o leiaf unwaith am resymau nad oeddent yn gysylltiedig â threfniadau pontio megis symud o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Mae'r gyfran hon wedi aros o fewn yr amrediad 13.1 y cant i 14.4 y cant dros y chwe blynedd diwethaf er gwaethaf y ffaith bod hwn yn un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol - mesurau allweddol o berfformiad awdurdodau lleol.

**1.20** Gan gydnabod effaith negyddol newid ysgol ar ddisgyblion, yn 2000 cyflwynodd Llywodraeth Cymru ofyniad y dylai awdurdodau lleol lunio cynlluniau addysg personol i blant sy'n derbyn gofal er mwyn helpu gydag unrhyw newid. Mae'r cynllun addysg personol yn cofnodi gwybodaeth am y plentyn, ei gynnydd a'i gyflawniadau hyd yma a thargedau hirdymor a byrdymor ar gyfer ei addysg. Mae'r aelod dynodedig o staff yn gyfrifol am sicrhau bod pob plentyn sy'n derbyn gofal yn ei ysgol yn cael cynllun addysg personol o fewn 20 diwrnod ar ôl iddo ddod yn rhan o'r system ofal neu ddechrau mewn ysgol newydd os yw eisoes mewn gofal. Caiff cynlluniau eu hailasesu o leiaf bob chwe mis a disgwylir i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad ar y graddau y maent yn bodloni'r gofyniad hwn. Yn sgil cyflwyno cynlluniau addysg personol, cynyddodd y ffigur ar gyfer cynlluniau addysg personol a gyflwynwyd o fewn 20 diwrnod i 65 y cant yn 2008-09 ond mae wedi gostwng ers hynny. Yn 2010-11, gwnaeth 1,326 o blant o oedran ysgol ddod yn rhan o'r system ofal neu newid ysgol ond dim ond 60 y cant o'r rhain a gafodd gynllun addysg personol o fewn 20 diwrnod. Roedd cyfran y cynlluniau addysg personol ar waith o fewn 20 diwrnod yn 2010-11 mewn awdurdodau lleol yn amrywio rhwng 16 y cant ar gyfer yr awdurdod isaf i 98

30 Ystadegau Cymru, *Adoptions, Outcomes and Placements of Children Looked After by Local Authorities: year ending 31 March 2011*, Tabl 1.

31 Holland, S, Floris, C, Crowley, A, a Renold, A, *How was your day? Learning from experience: lessons for preventative policies and practice from analysing critical moments in care leavers life histories*, Lleisiau o Ofal Cymru a Phrifysgol Caerdydd, Mehefin 2010, tudalen 24.




y cant ar gyfer yr awdurdod uchaf[32]. Mae'n amhosibl dweud o'r ffigurau sydd ar gael a yw'r cynlluniau addysg personol sy'n weddill yn cael eu llunio ar ôl y targed o 20 diwrnod neu a yw ysgolion yn methu â llunio cynlluniau addysg personol ar gyfer rhai plant sy'n derbyn gofal.

**1.21** Gwelsom gryn dipyn o amrywio o ran fformat y cynlluniau addysg personol, eu cyflawnder a'r defnydd a wneir ohonynt. Daethom i'r casgliad nad oedd y dangosydd cyfredol ar gyfer amseroldeb cynlluniau addysg personol yn un gwerthfawr ar lefel genedlaethol. Dylid rhoi mwy o sylw i ansawdd y cynlluniau addysg personol a ph'un a gânt eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi addysg y plentyn neu'r person ifanc dan sylw.

## Ar ôl gadael gofal, mae bron hanner y rhai sy'n gadael yn debygol o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

**1.22** Mae cyfrifoldeb parhaus ar awdurdodau lleol i gefnogi'r rhai sydd wedi gadael gofal ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed ac maent mewn cysylltiad â thros 90 y cant o'r rhai sydd wedi gadael gofal pan fyddant yn cyrraedd eu pen-blwydd yn 19 oed. Yn 2010-11, roedd ychydig o dan hanner y rhai a oedd wedi gadael gofal mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed ac roedd chwech y cant o'r rhain mewn swyddi rhan amser yn hytrach na chyflogaeth lawn amser. Gwelwyd gostyngiad yng nghyfran y rhai nad oeddent mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant rhwng 2006 a 2007 (Ffigur 8) ond nid yw wedi newid fawr ddim ers hynny ac erys yn llawer uwch na'r gyfran ar gyfer plant yn gyffredinol. Yn 2010-11, nid oedd 48 y cant o'r rhai a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn cysylltiad â'u hawdurdod lleol mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed o gymharu ag 11 y cant o bobl ifanc 16-18 oed yn gyffredinol ar ddiwedd 2010 a 23 y cant o bobl 19-24 oed[33].

**Ffigur 8 - Nid yw ychydig o dan hanner y rhai sydd wedi gadael gofal mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed ond mae'r gyfran wedi gostwng ers 2006**




*Ffynhonnell: Ystadegau Cymru ynghyd â dadansoddiad ychwanegol gan Swyddfa Archwilio Cymru*

32 Ffigurau o Ddangosyddion Perfformiad SCC/022a ac SCC/024b yr Uned Ddata Llywodraeth Leol ac ystadegau addysg allweddol Ystadegau Cymru (gweler Atodiad 4).

33 Mae'r ffigurau ar gyfer pawb sy'n gadael ysgol o ddogfen Llywodraeth Cymru, *Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant: y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Rhagfyr 2010*, Gorffennaf 2011, SB 67/2011.

Bydd y grŵp hwn yn cynnwys nifer sylweddol o rieni ifanc: mae rhai enghreifftiau o ymchwil wedi canfod bod hyd at chwarter y rhai o dan 20 oed sydd wedi gadael gofal yn rhieni. Mae hyn yn cynyddu i 40 y cant ymhlith merched ifanc sydd wedi gadael gofal[34].

### Nid oes fawr o wybodaeth ar gael am berfformiad y rhai sydd wedi gadael gofal a phobl ifanc sydd wedi derbyn gofal mewn addysg bellach neu addysg uwch

**1.23** Nid oes fawr o wybodaeth ar gael i amcangyfrif nifer y plant sydd wedi derbyn gofal gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac sy'n mynd ymlaen i addysg uwch. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif bod tua 12 o bobl ifanc yng Nghymru sydd wedi gadael gofal yn mynd ymlaen i addysg uwch bob blwyddyn[35]. Byddai hynny yn cyfateb i tua dau y cant o'r rhai sy'n gadael gofal dros 16 oed yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011. Yn Lloegr, cesglir y wybodaeth am y rhai sydd wedi gadael gofal ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed. Yn 2010-11, roedd 6.2 y cant mewn addysg uwch. Yn yr Alban, roedd pump y cant o'r rhai rhwng 15 a 21 oed sydd wedi gadael gofal ac sy'n cael ôl-ofal (103 o unigolion) mewn addysg uwch yn 2009-10.

## Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn amrywio ledled Cymru ac yn achos rhai mesurau mae'n is nag mewn rhannau eraill o'r DU

**1.24** Mae cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal yn amrywio cryn dipyn rhwng awdurdodau lleol (gweler Atodiad 4). Roedd cyfran y rhai 16-19 oed a oedd yn gadael gofal ac a oedd wedi ennill o leiaf un cymhwyster (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol) yn amrywio rhwng 100 y cant a 40 y cant ledled Cymru yn 2010-11, ac roedd y ganran a enillodd gymwysterau yn gyfwerth â phum TGAU gradd A*-G (trothwy 1) yn amrywio rhwng 21 y cant a 68 y cant. Roedd y sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach a gofnodwyd yn amrywio rhwng 72 a 275 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 4 (Atodiad 4).

**1.25** Oherwydd gwahaniaethau yn y math o ddata a gesglir ac yn y systemau gofal ac addysg yn y DU bu'n anodd cymharu perfformiad a deilliannau addysgol ledled y DU. Fodd bynnag, awgryma'r data sydd ar gael bod deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn Lloegr yn well na'r rhai yng Nghymru. Nid oes gwybodaeth gymaradwy ar gael ar gyfer rhai saith oed na Chyfnodau Allweddol 1, 2 neu 3. Fodd bynnag, gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau yn y ffordd y caiff ffigurau eu casglu, nid yw cymwysterau'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru cystal â'r rhai yn Lloegr[36], ond ychydig uwch na'r rhai yng Ngogledd Iwerddon[37]. (Oherwydd y gyfundrefn addysg wahanol yn yr Alban nid oes modd gwneud cymhariaeth uniongyrchol):

- yng Nghymru, enillodd 23 y cant o blant sy'n derbyn gofal gymwysterau a oedd yn gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C ar Gyfnod Allweddol 4 o gymharu â 31.5 y cant yn Lloegr ac 20 y cant yng Ngogledd Iwerddon;
- yng Nghymru, roedd 10.4 y cant o blant a oedd wedi derbyn gofal wedi ennill cymwysterau a oedd yn gyfwerth â phum TGAU gan gynnwys mathemateg a Chymraeg neu Saesneg o gymharu ag 13.2 y cant yn Lloegr.

34 R Barn et al, (2005) *An exploration of the post-care experiences of young people from different minority ethnic backgrounds*, Sefydliad Joseph Rowntree.

35 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Memorandwm Esboniadol Rheoliadau Deddf Plant 1989 (Bwrsari Addysg Uwch) (Cymru)*, 2011, adran 5.

36 Daw ffigurau Cymru o Gyfrifiad Plant Mewn Angen 2011 a ffigurau Lloegr o gyhoeddiad yr Adran Addysg, *Outcomes for Children Looked After by Local Authorities in England, as at 31 March 2011* (SFR 30/2011), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011. Mae data Cymru yn cynnwys y rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal am o leiaf dri mis. Mae data Lloegr yn cynnwys y rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal yn ddi-dor am o leiaf chwe mis.

37 Daw ffigurau Gogledd Iwerddon o *Children in care in Northern Ireland 2009-10: Statistical bulletin,* (cyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012), Ffigur 4.4. Mae'n cynnwys y rhai sydd wedi bod yn derbyn gofal yn ddi-dor am 12 mis hyd at 30 Medi 2010.



1.26 Awgryma ystadegau hefyd fod cyfran uwch o'r rhai sydd wedi gadael gofal yng Nghymru nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant yn 19 oed o gymharu â Lloegr neu Ogledd Iwerddon. Nid oes gwybodaeth gymaradwy ar gael am yr Alban:

- Yng Nghymru nid oedd 48 y cant o'r rhai a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol ar adeg eu pen-blwydd yn 19 oed mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.
- Yn Lloegr, o'r bobl ifanc 19 oed a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn gofal ar 1 Ebrill pan oeddent yn 17 oed, nid oedd 38 y cant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant[38].
- Yng Ngogledd Iwerddon yn 2009-10, o'r bobl ifanc 16-18 oed a oedd wedi gadael gofal ac a oedd mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol nid oedd 36 y cant mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar adeg gadael gofal. O'r rhain roedd bron draean (11 y cant o'r cyfanswm) wedi'u dosbarthu'n economaidd anweithgar am eu bod yn ofalwyr, yn rhieni, yn sâl neu'n anabl[39].

## Mae newidiadau yn y ffordd y cesglir data a bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael yn genedlaethol yn ei gwneud yn anodd i fonitro gwelliannau mewn cyrhaeddiad ac yn cyfyngu ar y gallu i gymharu ledled y DU

1.27 Bu nifer o newidiadau yn y ffordd y cesglir data a'r trefniadau cyhoeddi mewn cysylltiad â deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Er bod rhai o'r newidiadau hyn wedi sicrhau bod y wybodaeth sydd ar gael yn fwy dibynadwy, mae eraill wedi cyfyngu ar y gallu i fonitro cynnydd, yn enwedig ar Gyfnod Allweddol 4, lle nad yw'r prif ystadegau cyhoeddedig ynglŷn â chyrhaeddiad ar lefel TGAU neu gymwysterau cyfwerth yn adlewyrchu'r prif ddangosyddion a ddefnyddiwyd ar gyfer targedau Rhoi Plant yn Gyntaf mwyach. Mae'r broses o gymharu deilliannau plant yn gyffredinol wedi gwella ers 2010 oherwydd mae adroddiadau'r Cyfrifiad newydd o Blant mewn Angen yn nodi'r un data ar gyfer plant sy'n derbyn gofal â phlant yn gyffredinol. Mae gwahaniaethau mewn data addysg a gesglir ymhob gwlad yn dal i amharu ar ein gallu i gymharu deilliannau plant sy'n derbyn gofal ledled y DU. Yn gyffredinol, mae'r meysydd lle mae diffyg data neu newidiadau yn y ffordd y cesglir data yn ei gwneud yn anodd i fonitro cynnydd a chymharu deilliannau yn cynnwys y canlynol:

- **Ar Gyfnodau Allweddol 1, 2 a 3** – Cyflwynwyd dangosyddion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mhrif broses casglu data awdurdodau lleol ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 yn 2007. Mae'r Cyfrifiad Plant mewn Angen bellach yn casglu'r wybodaeth hon hefyd ynghyd â data ar Gyfnod Allweddol 1. Dyma'r un dangosyddion ar gyfer disgyblion yng Nghymru yn gyffredinol. Fodd bynnag, mae'r dangosyddion yng Nghymru yn wahanol i'r rhai a ddefnyddir yn Lloegr a Gogledd Iwerddon sy'n cyfyngu ar y gallu i gymharu ledled y DU.
- **Ar Gyfnod Allweddol 4 ac ôl-16** – Mae dangosyddion perfformiad ar gyfer cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal wedi newid dros y blynyddoedd diwethaf a, than yn ddiweddar, roeddent yn wahanol i blant yn gyffredinol. Yn 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru amcanion ar gyfer deilliannau plant a oedd yn derbyn

38 Ffynhonnell: Yr Adran Addysg.
39 Ffynhonnell: Asiantaeth Ymchwil ac Ystadegau Gogledd Iwerddon, *Care leavers aged 16-18*, 2009-10.

gofal er mwyn gwella cyfran y plant sy'n derbyn gofal sy'n ennill dau neu fwy o gymwysterau TGAU neu gymwysterau cyfwerth[40]. Yn 2005, rhoddwyd y gorau i'r mesur hwn o ddeilliannau ac yn lle hynny dechreuwyd cofnodi'r sgôr pwyntiau cyfartalog a enillwyd ar Gyfnod Allweddol 4. Newidiodd y sail dros gyfrifo'r sgôr pwyntiau cyfartalog yn 2007 ac oherwydd anawsterau cofnodi nid oedd data ar gael ar gyfer pob awdurdod lleol tan 2009-10.

- Prif fesurau deilliannau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant yn gyffredinol a phlant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 4 ar hyn o bryd yw cyfrannau'r disgyblion sy'n cyflawni trothwy Lefel 1 (cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A*-G) a throthwy Lefel 2 (cymwysterau sy'n gyfwerth â phum TGAU gradd A*-C). Erbyn hyn rhoddir mwy o ffocws ar gyflawniad ar Lefel 2 gan gynnwys TGAU mewn Cymraeg/Saesneg a mathemateg. Cafodd y dangosyddion hyn eu casglu am y tro cyntaf yn 2010 fel rhan o Gyfrifiad Plant mewn Angen. Cesglir gwybodaeth am gyrhaeddiad ar lefel TGAU/GNVQ hefyd ar gyfer y rhai 16-19 oed sy'n gadael gofal yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Ni chaiff unrhyw wybodaeth ei chasglu na'i chyhoeddi am gyrhaeddiad ôl-16 gan gynnwys arholiadau safon uwch a chymwysterau cyfwerth neu gyrhaeddiad arall mewn addysg bellach.

- **Addysg uwch** – Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu unrhyw ffigurau ynglŷn â nifer y rhai sy'n gadael gofal ac yn mynd ymlaen i addysg uwch yng Nghymru neu yn rhywle arall fel mater o drefn.

**1.28** Un o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol oedd yn ymwneud â chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal fu 'canran y disgyblion sy'n blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol, yn 15 oed ar 31 Awst, ac ar restr unrhyw ysgol wedi'i chynnal gan yr awdurdod lleol, sy'n gadael addysg orfodol heb gymhwyster allanol wedi'i gymeradwyo, ac nad ydynt yn parhau ag addysg, hyfforddiant na dysgu seiliedig ar waith'. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng o 12 y cant yn 2008-09 i 6.5 y cant yn 2010-11. Fodd bynnag, nid yw'r mesur hwn yn werthfawr gan fod llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn parhau mewn addysg ôl-16 ond maent yn dal i fethu ag ennill unrhyw gymhwyster. Mae llawer o'r bobl ifanc hyn yn cael eu cofnodi'n rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant pan fyddant yn gadael gofal wedyn.

**1.29** Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y Cyfrifiad cyntaf o Blant mewn Angen yng Nghymru sy'n cynnwys plant sy'n derbyn gofal, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant mewn angen nad ydynt yn derbyn gofal. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys gwybodaeth am blant sy'n derbyn gofal a ddaw o Gronfa Ddata Genedlaethol y Disgyblion. Yn 2011, gellid paru 86 y cant o blant mewn angen â'r systemau gwybodaeth a ddefnyddiwyd gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol drwy ddefnyddio eu rhif disgybl unigryw, cynnydd o un y cant o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Drwy ddwyn ynghyd y ddwy ffynhonnell hyn o ddata creir corff da o wybodaeth am fywydau a deilliannau Plant mewn Angen yng Nghymru. Fodd bynnag mae'n bosibl bod y grŵp heb ei baru yn cynnwys cyfran sylweddol o blant nad ydynt mewn lleoliadau sefydlog ac a all fod yn fwy tebygol o fod â lefelau cyrhaeddiad is na'r grŵp o blant sydd wedi cael ei baru sy'n derbyn gofal. Gall ffactorau eraill hefyd gyfrannu at wahaniaethau yng nghanlyniadau'r Cyfrifiad o'u cymharu â ffynonellau eraill o ddata gan gynnwys y gwahanol ystod o gymwysterau a gynhwyswyd ar Gyfnod Allweddol 4. Mae'r Cyfrifiad yn cynnwys plant a oedd wedi bod yn derbyn gofal am o leiaf

40 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Gwlad sy'n Dysgu*, 2001.



dri mis ar 31 Mawrth ond roedd ffynonellau eraill o ddata yn cynnwys plant a oedd wedi bod yn derbyn gofal yn ddi-dor am chwech neu ddeuddeg mis. Ar hyn o bryd, ystadegau arbrofol yw’r rhain ym marn Llywodraeth Cymru a bydd angen eu gwerthuso. Fodd bynnag, mae'r Cyfrifiad yn cynnwys data ar ddangosyddion nad yw ar gael mewn mannau eraill gan gynnwys cyrhaeddiad ar Gyfnod Allweddol 1 (saith oed) ac ar gyfer trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg iaith gyntaf a Saesneg a mathemateg.

**1.30** Awgryma ein dadansoddiad y byddai'n briodol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol adolygu'r ystod o wybodaeth am gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn benodol ystyried:

- rhoi'r gorau i gofnodi amseroldeb cynlluniau addysg personol yn genedlaethol gan nad yw'n werthfawr iawn (paragraff 1.19);
- rhoi'r gorau i gasglu gwybodaeth am bresenoldeb plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol gynradd yn genedlaethol, ac eithrio drwy'r Cyfrifiad Plant mewn Angen, oherwydd yn ôl ein canfyddiadau roedd eu cyfraddau presenoldeb yn debyg i gyfraddau plant yn gyffredinol ac nid oedd unrhyw broblemau sylweddol i'w nodi (paragraffau 1.12-1.14);
- ymgymryd â gwaith i asesu cywirdeb data ar bresenoldeb yn yr ysgol uwchradd;
- datblygu trefniadau ar gyfer casglu gwybodaeth am gyrhaeddiad ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch;
- parhau i ymchwilio i ddilysrwydd a dibynadwyedd y Cyfrifiad Plant mewn Angen a'i werthuso a sicrhau mwy o baru data.

# Rhan 2 – Mae polisïau a mentrau Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi helpu i sicrhau rhywfaint o welliant ond nid ydynt wedi diffinio canlyniadau penodol ac er bod tystiolaeth gynyddol o arfer da, ni roddir cymorth mewn ffordd gyson

**2.1** Awdurdodau lleol sydd â'r ddyletswydd statudol i weithredu fel rhiant corfforaethol ar gyfer plant a phobl ifanc unigol sy'n derbyn gofal. Cynghorwyr sydd wedi'u hethol yn lleol sy'n gyfrifol am nodi angen a phenderfynu ar wasanaethau mewn ardal. Mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y fframwaith polisi cyffredinol i wella deilliannau addysgol plant yn gyffredinol a phlant sy'n derbyn gofal yn benodol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro deilliannau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy ddangosyddion perfformiad, dangosyddion deilliannau strategol a datganiadau ystadegol. Fodd bynnag, mae gan lawer o sefydliadau cenedlaethol a lleol eraill yn ogystal ag ysgolion, gofalwyr maeth a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu hunain rôl i'w chwarae i wella deilliannau addysgol.

**2.2** Ym mis Ebrill 1999, ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd at aelodau etholedig a nodi rhai o'r cyfrifoldebau dan sylw:

‘Mae'n rhaid i Lywodraeth Ganolog ymgymryd â'r cyfrifoldeb am roi'r fframwaith deddfwriaethol a strwythurol ar gyfer darparu gwasanaethau; pennu amcanion a safonau; monitro ac arolygu gwasanaethau a deilliannau; a sicrhau bod adnoddau ar gael i wneud y gwaith. O'ch rhan chi, llywodraeth leol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn unol ag amcanion a safonau cenedlaethol i ddiwallu anghenion lleol. Asesu'r anghenion hynny, cynllunio a sicrhau gwelliannau mewn gwasanaethau, a monitro cynnydd o ran y deilliannau rydych yn eu sicrhau i blant.’

**2.3** Yn y rhannau canlynol o'n hadroddiad, rydym yn ystyried effeithiolrwydd y sector cyhoeddus wrth sicrhau gwelliant yn y maes cymhleth hwn. (Mae Atodiad 2 yn amlinellu sut yr aethom ati i werthuso cadwyni cyflawni cymhleth.) Y ffactorau a oedd yn bwysig, yn ein barn ni, i werthuso effeithiolrwydd y trefniadau cyflawni oedd:

- i ba raddau mae canlyniadau ar y cyd wedi’u pennu ar gyfer y sefydliadau;
- a oes sylfaen dystiolaeth o'r hyn sy'n llwyddo er mwyn llywio datblygiadau polisi yn y dyfodol;
- a oes digon o adnoddau i gyflawni nodau;
- i ba raddau mae gan sefydliadau gynllun gweithredol ar y cyd.



## Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn rhannu ymrwymiad strategol i wella cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ond nid oes ganddynt ddeilliannau penodol y gellir asesu cynnydd yn eu herbyn

**2.4** Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno nifer o bolisïau a mentrau yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda'r nod o wella gwasanaethau cymdeithasol plant yn gyffredinol ac, yn fwy penodol, gwella perfformiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn benodol. Mae rhai o'r polisïau hyn wedi adlewyrchu datblygiadau yng ngweddill y DU a chawsant eu datblygu, yn rhannol o leiaf, mewn ymateb i gyfres o adroddiadau ac ymchwiliadau i wasanaethau cymdeithasol plant. Roedd y rhain yn cynnwys Adolygiad Diogelu Plant Syr William Utting (1997)[41], adroddiad Tribiwnlys yr Ymchwiliad i Gam-drin Plant yng Ngogledd Cymru o dan arweiniad Syr Ronald Waterhouse (2000)[42] ac adroddiadau ar ymchwiliadau i farwolaethau plant yn y DU gan gynnwys adroddiadau ar farwolaeth Victoria Climbié yn 2003[43] a Peter Connolly yn 2009[44].

### Rhwng 1998 a 2004, datblygwyd gweledigaeth strategol glir, wedi'i hategu gan fesurau o lwyddiant, cymorth ariannol, cynlluniau cyflawni a dealltwriaeth o arfer da a safonau ar gyfer asesu gwelliant tebygol

**2.5** Ym mis Ebrill 1999, ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar y pryd amlinelliad o gyfrifoldebau rhiant corfforaethol, mewn llythyr at bob Cynghorydd yng Nghymru, gan gynnwys gofynion i:

- ddarparu gofal, cartref a mynediad at iechyd ac addysg a gwasanaethau cyhoeddus eraill y mae gan bob plentyn hawl i'w cael yn unol â'u hanghenion;
- dathlu a rhannu cyflawniadau plant, eu cefnogi pan fyddant yn teimlo'n isel;
- bod yn uchelgeisiol ar eu rhan ac annog a chefnogi eu hymdrechion i lwyddo a chyrraedd eu potensial, boed hynny drwy addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

**2.6** Yn ei lythyr, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd ei fod yn lansio menter Rhoi Plant yn Gyntaf, y Gronfa Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc a Cychwyn Cadarn yng Nghymru. Nod Rhoi Plant yn Gyntaf oedd gweddnewid gwasanaethau i blant a oedd yn agored i niwed a'u teuluoedd, gan alluogi'r plant hynny i fyw bywydau llawnach a mwy llwyddiannus fel oedolion. Roedd wyth amcan y fenter yn cynnwys:

- sicrhau bod plant mewn gofal yn cael y manteision bywyd gorau posibl o gyfleoedd addysg, gofal iechyd a gofal cymdeithasol;
- sicrhau nad yw pobl ifanc sy'n gadael gofal yn cael eu hynysu wrth iddynt ddechrau ar eu bywyd fel oedolion a'u bod yn gallu cyfranogi'n gymdeithasol ac yn economaidd fel dinasyddion.

**2.7** Un o nodau canolog y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf oedd codi safonau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Pennodd Llywodraeth Cymru nifer o dargedau ar gyfer awdurdodau lleol mewn ymateb i'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf, ac roedd dau ohonynt yn canolbwyntio ar godi perfformiad addysgol plant sy'n derbyn gofal fel a ganlyn:

- y dylai 50 y cant o blant sy'n derbyn gofal ennill o leiaf dau gymhwyster TGAU neu GNVQ erbyn 2001 a 75 y cant erbyn 2003;

41 Y Llyfrfa, Syr William Utting et al, *People Like Us: The Report of the Review of the Safeguards for Children Living Away From Home*, 1997.

42 Yr Adran Iechyd, *Ar Goll Mewn Gofal, adroddiad tribiwnlys yr ymchwiliad i gam-drin plant mewn gofal yn ardaloedd hen gynghorau sir Gwynedd a Chlwyd ers 1974: Adroddiad gan Yr Anrhydeddus Syr Ronald Waterhouse (Cadeirydd)*, Chwefror 2000.

43 Yr Adran Iechyd a'r Swyddfa Gartref, *Ymchwiliad Victoria Climbié: Adroddiad ar Ymchwiliad gan yr Arglwydd Laming,* Cm 5730, Ionawr 2003.

44 Y Llyfrfa, Yr Arglwydd Laming, *The Protection of Children in England: A Progress Report,* Mawrth 2009.

- ni ddylai cyrhaeddiad plant sy'n gadael gofal fod yn is na chyrhaeddiad cyfartalog plant o gefndir tebyg yn eu hardal.

**2.8** Cafodd y targedau hyn eu hailadrodd a'u hymestyn yn nogfen bolisi 2001 Llywodraeth Cymru *Y Wlad sy'n Dysgu*[45] lle y nododd y Llywodraeth ei strategaeth i drawsnewid addysg a dysgu gydol oes yng Nghymru yn fwy cyffredinol. Yn y ddogfen nodwyd unwaith eto darged Llywodraeth Cymru y dylai 75 y cant o blant sy'n derbyn gofal ennill o leiaf dau TGAU neu gymhwyster cyfwerth cyn gadael yr ysgol erbyn 2003. Pennodd y strategaeth dargedau newydd, mwy ymestynnol hefyd ar gyfer y dyfodol: y dylai 75 y cant o blant sy'n derbyn gofal ennill 'amrediad o gymwysterau ar lefel 2 a 3 a lleiafswm o 5 TGAU neu gymhwyster cyfwerth erbyn 2010'.

**2.9** Ym mis Tachwedd 2001, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfarwyddyd ar addysg plant sy'n derbyn gofal[46]. Roedd yn ofynnol i awdurdodau lleol sicrhau bod gan bob plentyn sy'n derbyn gofal gynllun addysg personol ac y dylai pob plentyn gael lleoliad addysg o fewn 20 diwrnod ar ôl dod yn rhan o'r system ofal neu o fewn 20 diwrnod ar ôl i leoliad gofal neu leoliad addysgol chwalu. Roedd yn ofynnol hefyd iddynt ddatblygu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth am ofal ac addysg plant sy'n derbyn gofal ganddynt a datblygu Cynlluniau Gweithredu Rheoli yr oedd yn rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo cyn i gyllid i sicrhau gwelliant gael ei ryddhau.

**Rhwng 2004 a 2010 cafodd y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf ei disodli gan ddatblygiadau polisi eraill ond nid oeddent yn cynnwys unrhyw fesurau o ddeilliannau na mesurau o lwyddiant ar gyfer cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal**

**2.10** Ar ôl 2004, cafodd y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf ei disodli gan bolisïau eraill ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a chafodd ei harian ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant ei integreiddio â'r Grant Cynnal Refeniw yn 2004-05 a 2005-06. Diddymwyd y gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi Cynlluniau Gweithredu Rheoli Rhoi Plant yn Gyntaf gan Lywodraeth Cymru.

**2.11** Yn ystod gwanwyn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru raglen o'r enw Rhagori (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru). Dyfarnwyd grant o tua £16 miliwn y flwyddyn i'r rhaglen a hynny am ddwy flynedd i ddechrau. Ei phrif ffocws oedd mynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawniad addysgol drwy roi arian ychwanegol i ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (lle roedd o leiaf 20 y cant o ddisgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim). Roedd hefyd yn anelu at helpu awdurdodau lleol i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a darparodd arian wedi'i glustnodi o £1 filiwn i'w rannu rhwng awdurdodau lleol. Canolbwyntiodd yr elfen o'r grant Rhagori a oedd yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal ar blant 14-16 oed (Blwyddyn 10 ac 11) i ddechrau ond rhoddwyd y gorau i'r cyfyngiad hwn ar oedran wrth iddi ddod yn amlwg bod anfantais addysgol yn dechrau yn gynt yn yr ysgol uwchradd ac ar adeg pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd. Caniatawyd i gyllid gael ei ddefnyddio hefyd i gefnogi'r rhai a oedd yn gadael gofal i fynd ymlaen i addysg uwch.

**2.12** Ar yr un pryd ag y cyflwynodd Llywodraeth Cymru raglen Rhagori, cafodd targedau cenedlaethol i fesur deilliannau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal eu hepgor o'i strategaeth ddysgu wedi'i diweddaru a amlinellwyd yn *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith*, fel rhan o broses o leihau nifer y targedau i 'lefelau y gellid ymdopi â hwy'. Roedd hyn mewn gwrthgyferbyniad â'r hyn a ddigwyddodd yn Lloegr, lle y pennodd y Gweinidog dargedau ar gyfer deilliannau gwell yn 1999 a gafodd eu diweddaru yn 2007

45 Llywodraeth Cymru, *Y Wlad sy'n Dysgu*, 2001.

46 Cylchlythyr 2/2001 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Cyfarwyddyd ar addysg plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol.*



a'u hymgorffori yn nhargedau'r Cytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus. Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddatblygu cynlluniau i helpu i gyflawni'r targedau cenedlaethol hyn[47]. Er i Lywodraeth y DU roi terfyn ar y system o Gytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2010, mae gan yr Adran Addysg ddangosyddion perfformiad allweddol ar waith ar hyn o bryd i leihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad rhwng plant sy'n derbyn gofal a phlant eraill. Mae hefyd yn cyhoeddi data sy'n cymharu deilliannau plant sy'n derbyn gofal ar lefel genedlaethol ac yn ôl awdurdod lleol[48].

**2.13** Cafodd y brif elfen o'r rhaglen Rhagori a oedd yn ymwneud ag ysgolion ei gostwng o 2009-10 a'i diddymu yn 2010-11, er i'r elfen o'r rhaglen Rhagori a oedd yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal barhau ar yr un lefel tan fis Mawrth 2011.

**2.14** Yn 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei bod yn cyflwyno'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion fel y fframwaith cyffredinol gyda'r nod o drawsnewid safonau a darpariaeth addysgol yng Nghymru. Yn dilyn prosiectau peilot a gwerthusiadau, mae'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cael ei roi ar waith ledled Cymru ac, o 2011-12, bydd yn cael arian grant gwerth £24.6 miliwn y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru. Cafodd arian grant gwerth £1 filiwn i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal o dan y rhaglen Rhagori ei integreiddio â'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion - Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae awdurdodau lleol wedi cyflwyno cynllun gweithredu tair blynedd sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 1 Medi 2011 a 31 Awst 2014 fel rhan o'r broses grant. Mae i'r grant hwn nifer o nodau:

- atgyfnerthu gwaith amlasiantaeth a chysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn sicrhau cymorth mwy effeithiol i blant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r sir;
- rhoi cymorth astudio personol i blant sy'n derbyn gofal, a lle y bo angen, fwrsarïau addysg uwch statudol;
- gwella'r trefniadau ar gyfer casglu, cofnodi, dadansoddi, defnyddio a rhannu gwybodaeth am hynt plant sy'n derbyn gofal, yn enwedig y rhai sy'n byw y tu allan i ardal awdurdod lleol y rhiant corfforaethol;
- teilwra addysgu a dysgu at anghenion penodol plant sy'n derbyn gofal a'u cyfeirio tuag at gymwysterau cydnabyddedig sy'n fwy ystyrlon i ddarpar gyflogwyr.

**Cydnabyddir cyrhaeddiad addysgol 'annerbyniol o isel' plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn *Rhaglen Lywodraethu 2011* ac mae wedi bod yn un o'r ffactorau a arweiniodd at Strategaeth Tlodi Plant Cymru 2011, er nad yw'r rhain yn nodi'r deilliannau y maent yn ceisio eu cyflawni**

**2.15** Mae *Rhaglen Lywodraethu 2011* Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad, yn yr adran 'Cefnogi Pobl', i gymryd camau i 'wella'r trefniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel bod eu bywydau'n fwy sefydlog'. Mae'n nodi bod angen cymryd camau i wella canran y rhai sydd wedi gadael gofal sydd mewn addysg, hyfforddiant, neu gyflogaeth yn 19 oed a lleihau'r bwlch ar Gyfnod Allweddol 4 rhwng deilliannau addysgol plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal, a phlant yn gyffredinol. Ni phennir unrhyw dargedau ac ni chyfeirir at y nodau hyn yn yr adran o'r Rhaglen ar addysg.

**2.16** Nid yw Strategaeth Tlodi Plant Cymru na'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yn cynnwys y datganiad angenrheidiol o ddeilliannau penodol ar y cyd na'r cynllun gweithredol ar y cyd y gall y Llywodraeth, awdurdodau lleol a phartneriaid a rhanddeiliaid eraill eu defnyddio fel sail i'w cynlluniau a'u camau gweithredu.

47 Nod Cytundeb Gwasanaeth Cyhoeddus 11 oedd cau'r bwlch mewn cyflawniad addysgol rhwng plant o gefndiroedd incwm isel a difreintiedig a'u cyfoedion. Pennwyd targedau penodol ar gyfer cyflawniad plant sy'n derbyn gofal ar Gyfnod Allweddol 2 (11 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (16 oed).

48 Yr Adran Addysg, *Children in Care and Adoption Performance Tables*, 2011.

**2.17** O dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 rhoddwyd dyletswydd ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau eraill yng Nghymru i gyhoeddi strategaeth i fynd i'r afael â thlodi plant. Roedd y Mesur yn cynnwys 13 o nodau cyffredinol. Un ohonynt oedd lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant a phobl ifanc. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth Tlodi Plant newydd i Gymru[49] ym mis Chwefror 2011. Mae'r strategaeth yn cydnabod bod consensws helaeth bod cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc sy'n gadael gofal yn annerbyniol o isel o'i gymharu â'u cyfoedion ac mae'n cyfeirio at grant Rhagori gwerth £1 filiwn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a fydd yn parhau drwy ddarparu'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Haerodd y strategaeth fod deilliannau wedi gwella'n sylweddol ers cyflwyno'r grant, ond ni chynigiwyd unrhyw dystiolaeth i ategu'r haeriad hwn.

**2.18** Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru yn rhoi crynodeb o'r amrywiaeth o weithgareddau y mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ymgymryd â hwy i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb. Fodd bynnag, ar wahân i'r cyfeiriad at y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, nid oes unrhyw gyfeiriad penodol at y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ehangach ac er ei bod yn cynnwys grŵp o ddangosyddion allweddol ar gyfer mesur cynnydd, nid oes yr un o'r rhain yn ymwneud yn benodol â deilliannau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Nid yw'r Strategaeth yn cynnwys y datganiad am ganlyniadau ar y cyd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal sydd ei angen i sicrhau gwelliant yn effeithiol ar draws y system gymhleth o sefydliadau dan sylw.

**2.19** Mae prif ddogfen y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion[50] yn amlinellu'r weledigaeth ac amserlen weithredu ar gyfer rhoi ar waith effeithiolrwydd ysgolion yn seiliedig ar ddiwygio ar dair lefel. Mae diwygio ar dair lefel yn cynnwys y gymuned addysgol gyfan (ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru) yn gweithio ar y cyd â'i gilydd ac mewn ffordd gyson. Mae'r Fframwaith yn disgrifio'r prif nodweddion sydd eu hangen i adeiladu ar arfer da presennol a gwella dysgu a lles plant a phobl ifanc ledled Cymru a chyfraniad pob partner i sicrhau hynny. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gyfeiriad at blant sy'n derbyn gofal na sut y bydd gwella effeithiolrwydd ysgolion yn helpu i wella eu deilliannau.

### Nid oes cynllun cyffredinol na dogfen strategol glir sy'n amlinellu sut y caiff gwahanol gyfrifoldebau o fewn Llywodraeth Cymru neu rhwng y Llywodraeth, cyrff rhanbarthol, awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill eu cysoni i gefnogi gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal

**2.20** Fel y nodir uchod, mae sicrhau gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal yn cynnwys llawer o asiantaethau a gwasanaethau. Mae gan bob asiantaeth a phob sector eu blaenoriaethau, eu mesurau perfformiad, a'u trefniadau atebolrwydd eu hunain. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn gymharol fach ac mae'r nifer sy'n ymwneud ag unrhyw asiantaeth neu wasanaeth penodol yn gallu bod yn fach iawn. Felly mae'n hanfodol bod cyfres glir a chydlynol o bolisïau, mesurau llwyddiant, cynlluniau cyflawni a gweithgarwch monitro ar draws adrannau a sefydliadau. Fodd bynnag, canfuom nad oedd fframwaith clir o'r fath.

49 Llywodraeth Cymru, *Strategaeth Tlodi Plant Cymru,* Chwefror 2011.

50 Llywodraeth Cymru, *Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion: creu cymunedau dysgu effeithiol gyda'n gilydd*, 2008.



**2.21** O fewn Llywodraeth Cymru, y Gweinidog Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am gyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc, gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal. Yr Adran Addysg a Sgiliau sy'n gweinyddu'r ffrwd ariannu ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal. Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant sy'n gyfrifol yn gyffredinol am bolisïau sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ac yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi chwarae rôl arweiniol gadarn ar rianta corfforaethol. Fodd bynnag, nid oes cynllun cyffredinol na dogfen strategol glir sy'n amlinellu sut y caiff gwahanol gyfrifoldebau o fewn Llywodraeth Cymru neu rhwng y Llywodraeth, awdurdodau lleol a sefydliadau eraill eu cysoni i gefnogi gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal. Mae Grŵp Rhanddeiliaid trawsadrannol ac amlasiantaeth ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal wedi cyfarfod o bryd i'w gilydd ond nid yw wedi cael ei ddefnyddio i sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

**2.22** O fewn awdurdodau lleol, caiff cyfrifoldeb am sicrhau gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ei rannu ar draws adrannau gyda'r risg gysylltiedig y gall y grŵp hwn o blant sy'n agored i niwed fynd ar goll ymhlith blaenoriaethau gwasanaethau. Gall y risg hon gynyddu os mai dim ond niferoedd cymharol fach o blant sy'n derbyn gofal a rhai sy'n gadael gofal y mae asiantaethau yn ymdrin â hwy. Adolygwyd cynlluniau strategol cyfredol awdurdodau lleol gennym a gwelwyd nad oedd y rhain yn aml yn cyfeirio at gyflawni gwell deilliannau i blant sy'n derbyn gofal ganddynt, mewn addysg neu ofal cymdeithasol. Roedd blaenoriaethau addysg yn tueddu i ganolbwyntio ar wella cyrhaeddiad disgyblion yn gyffredinol ac, lle y nodwyd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, roedd cynlluniau strategol yn tueddu i flaenoriaethu grwpiau eraill, er enghraifft plant ag anableddau. Roedd blaenoriaethau gofal cymdeithasol ar gyfer plant yn tueddu i ganolbwyntio ar faterion diogelu a rheoli costau'r niferoedd cynyddol o blant mewn gofal ar y cyfan. Ni welwyd fawr o dystiolaeth o ffocws ar y rhai sy'n gadael gofal yn y blaenoriaethau ar gyfer addysg ôl-16, cyflogaeth na chyfiawnder ieuenctid. Er enghraifft, nid yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru*[51], yn cyfeirio'n benodol at blant sy'n derbyn gofal na'r rhai sy'n gadael gofal ar wahân i gydnabyddiaeth eu bod hwy yn arbennig yn wynebu risg.

**Mae Llywodraeth Cymru a chyrff arolygu a rheoleiddio wedi darparu ystod o wybodaeth am gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal ond nid yw cynnydd wedi cael ei asesu'n rheolaidd nac yn gyson ar lefel genedlaethol**

**2.23** Llywodraeth Cymru sy'n bennaf cyfrifol am asesu effeithiolrwydd ei bwriad i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth ystadegol drwy fwletinau ac adroddiadau gan gynnwys yr adroddiadau blynyddol ar *Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities* sy'n cynnwys gwybodaeth am gyrhaeddiad ar Gyfnodau Allweddol 2 a 3, y sgôr pwyntiau cyfartalog ar Gyfnod Allweddol 4 a deilliannau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal. Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen wedi darparu gwybodaeth ychwanegol ers 2011. Mae *Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Lywodraethu, Mai 2012* yn cynnig sylwadau ar y camau gweithredu a'r cynnydd ar raglen Llywodraeth Cymru ers 2011. Y prif gyrff rheoleiddio sy'n gyfrifol am arolygu safonau

51 Llywodraeth Cymru, *Sgiliau sy'n Gweithio i Gymru - Strategaeth a Chynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth*, 2009.

i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yw Estyn, sy'n gyfrifol am arolygu cyrff addysg, ac AGGCC, sy'n arolygu lleoliadau gofal cymdeithasol. Ym mis Gorffennaf 2001, cyhoeddodd Estyn ac AGGCC adroddiad arolygiad ar y cyd ar ddarpariaeth addysgol i blant sy'n derbyn gofal, yn seiliedig ar waith arolygu mewn pedwar awdurdod lleol rhwng mis Tachwedd 1999 a mis Ionawr 2000[52]. Gwnaeth tîm yr arolygiad ar y cyd nifer o argymhellion ar gyfer awdurdodau lleol, yn benodol, y dylent gefnogi cydweithio rhwng addysg a gwasanaethau cymdeithasol ac y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi gwaith cynllunio a chydgysylltu gwasanaethau a lledaenu arfer gorau.

**2.24** Ar hyn o bryd, mae deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn rhan o fframweithiau arolygu pob corff. Mae fframwaith Estyn ar gyfer arolygu ysgolion a gwasanaethau addysg awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr ystyried pa mor dda y mae ysgolion yn diwallu anghenion dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, sy'n cynnwys y plant sy'n derbyn gofal ganddynt. Ystyriodd Estyn hefyd y trefniadau ar gyfer cefnogi cyrhaeddiad y plant sy'n derbyn gofal mewn adroddiad ar ddarpariaeth addysg yng nghartrefi plant yn 2008, adroddiad yn 2010 a werthusodd pa mor dda mae awdurdodau lleol yn sicrhau bod pob dysgwr wedi cyflawni ei botensial ac adroddiad yn 2011 ar fynd i'r afael â thlodi ac anfantais mewn ysgolion. Mae'r adroddiadau hyn, ac adroddiadau eraill, wedi amlygu pryderon megis gwendidau yn y defnydd o ddata a systemau asesu.

**2.25** Mae AGGCC yn cyflwyno adroddiadau ar drefniadau a deilliannau plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn yr *Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad* a gyhoeddir bob blwyddyn ar gyfer pob awdurdod. Mae deilliannau plant sy'n derbyn gofal wedi'u hasesu mewn arolygiadau o wasanaethau plant ac adroddiadau AGGCC gan gynnwys yr adroddiad yn 2009 ar *Wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl*. Mae gweithgareddau cyfredol yn cynnwys 'adolygiad o wella deilliannau plant' a fydd yn defnyddio gwaith maes ym mhob awdurdod lleol ac y bwriedir iddo gyflwyno adroddiad yn 2013.

**2.26** Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu Adroddiad Gwella Blynyddol ar gynnydd awdurdodau lleol sy'n defnyddio gwybodaeth gan AGGCC ac Estyn. Mae'r cyrff arolygu a rheoleiddio yn cydgysylltu gwaith i wella gwaith dadansoddi a lleihau dyblygu.

**2.27** Ymdrinnir â'r ffordd yr asesir cynnydd plant sy'n derbyn gofal yn yr ysgol ac ar lefel awdurdod lleol yn y fframwaith cyfredol ond mae'r trefniadau asesu ar lefel genedlaethol yn llai eglur. Fel y nodwyd uchod, nid oes cynllun cyffredinol clir na dogfen strategol ar y cyd ac nid yw targedau cenedlaethol wedi'u pennu. Er bod sylw byr yn *Adroddiad Cynnydd y Rhaglen Lywodraethu, Mai 2012* ni fu adroddiad mwy sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyrhaeddiad addysgol ers i'r Rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf ddod i ben. Dylid ystyried trefniadau penodol ar gyfer adroddiadau cenedlaethol ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal oherwydd eu sefyllfa gyfreithiol benodol lle mae'r awdurdod lleol yn gweithredu fel eu rhiant corfforaethol.

### Nid yw llawer o gynlluniau partneriaeth lleol yn nodi'r deilliannau y mae partneriaid yn bwriadu eu cyflawni ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

**2.28** Cyflwynwyd y gofyniad i awdurdodau lleol a'u partneriaid gyhoeddi Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc gan Ddeddf Plant 2004 i ddechrau[53]. Y Cynllun Plant a Phobl Ifanc yw'r datganiad lleol allweddol lle mae awdurdodau yn nodi

52 Cynulliad Cenedlaethol Cymru, *Darpariaeth Addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal, adroddiad arolygiad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn,* 2001.
53 Y Llyfrfa, *Deddf Plant 2004*, Adran 26.



eu blaenoriaethau ar gyfer gwella lles plant a phobl ifanc. Mae Deddf 2004 hefyd yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal[54]. Mae arweiniad ar fod yn rhiant corfforaethol da a baratowyd gan Lywodraeth Cymru a CLILC[55] yn nodi bod y canllawiau statudol[56] ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc:

- Yn ei gwneud yn ofynnol i Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc amlinellu eu polisïau ar ddarparu addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.
- Yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol amlinellu eu polisïau ar ddarparu addysg ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phennu targedau cyrhaeddiad lleol priodol ar gyfer y disgyblion hyn ar Gyfnod Allweddol 4 (TGAU). Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol nodi'r trefniadau ar gyfer monitro eu safonau addysgol. Gofynnir hefyd i awdurdodau lleol rodi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd hyd yma wrth gyflwyno Cynlluniau Addysg Personol.

**2.29** Gwelsom fod pob Cynllun Plant a Phobl Ifanc ar gyfer 2008-2011 yn cynnwys datganiadau am wella deilliannau addysgol i blant sy'n agored niwed a bod y rhan fwyaf wedi cyfeirio'n benodol at wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Roedd tua hanner y cynlluniau yn cynnwys targedau penodol o ran deilliannau, er bod y rhan fwyaf o'r rhain yn canolbwyntio ar bresenoldeb, cyflawnder y Cynlluniau Addysg Personol neu gyfran y rhai sy'n gadael gofal y gwyddys eu bod mewn cyflogaeth, addysg a hyfforddiant yn 19 oed. Ychydig iawn oedd yn cynnwys targedau ar gyfer lefelau cyrhaeddiad yn yr ysgol.

**2.30** Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ragor o Ganllawiau[57] yn 2011, sy'n nodi bod yn rhaid i Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc amlinellu gweledigaeth gyffredinol a chyfeiriad strategol y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, ei huchelgeisiau a'i blaenoriaethau. Mae'r cynlluniau mwyaf diweddar ar gyfer 2011-2014 yn amrywio o ran fformat gyda rhai yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau strategol eraill. Ceir cryn amrywiad hefyd o ran cynnwys y cynlluniau. Roedd tri o'r 22 o Gynlluniau yn rhoi gwybodaeth fanwl am eu targedau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r adnoddau penodol sydd ar gael i'w cyflawni. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, nid yw dau o'r Cynlluniau yn cynnwys unrhyw gyfeiriad o gwbl at blant sy'n derbyn gofal. Dim ond pum Cynllun sy'n cyfeirio at rianta corfforaethol. Dim ond chwe Chynllun sy'n cynnwys dangosyddion ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal neu sy'n cyfeirio at adnoddau penodol ar eu cyfer. Mae'n bosibl bod awdurdodau a'u partneriaid wedi dewis canolbwyntio ar ddangosyddion sy'n gymwys i niferoedd mawr o blant a phobl ifanc, megis cyrhaeddiad disgyblion yn gyffredinol neu'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, mae ein hadolygiad o'r Cynlluniau yn awgrymu, er gwaethaf y ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol, nad yw addysg plant sy'n derbyn gofal yn cael ei nodi'n flaenoriaeth strategol allweddol ganddynt sy'n gofyn am rianta corfforaethol effeithiol, targedau a gwaith monitro penodol ac adnoddau dynodedig.

54 Y Llyfrfa, *Deddf Plant 2004*, Adran 52.

55 Llywodraeth Cymru a CLILC, *Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i Gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal,* Mehefin 2009.

56 Llywodraeth Cymru, *Cynllunio ar y Cyd i Wella Canlyniadau: Canllawiau a Rheoliadau Cynllunio i Awdurdodau Lleol a'u Partneriaid ar Gynlluniau Plant a Phobl Ifanc.* Cylchlythyr 31/2007, 2007.

57 Llywodraeth Cynulliad Cymru, *Canllawiau Cynllunio Plant a Phobl Ifanc 2011-2014,* Cylchlythyr 016/2011, 2011.

**2.31** Yn 2010-11, lluniodd Llywodraeth Cymru 'Gytundebau Canlyniadau' â'r awdurdodau lleol sy'n cynnwys dau ganlyniad eang y gall awdurdodau lleol ganolbwyntio arnynt ym mhrosbectws y cytundebau[58]. Mae dau ganlyniad yn ymwneud â phlant ac addysg. Fodd bynnag, gwelwyd mai dim ond un cyngor (Sir Fynwy) sydd wedi cynnwys mesur ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal fel un o'r meini prawf llwyddiant yn ei Gytundeb Canlyniadau â Llywodraeth Cymru. Unwaith eto, awgryma hyn nad yw gwella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal wedi cael ei ystyried yn flaenoriaeth y dylid canolbwyntio arni drwy'r rhan fwyaf o'r Cytundebau Canlyniadau.

## Ceir tystiolaeth gynyddol o arfer da ond mae'r hyn a gyflawnir yn anghyson

### Ceir llawer o dystiolaeth am y materion allweddol i fynd i'r afael â hwy er mwyn gwella perfformiad addysgol

**2.32** Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae nifer o adroddiadau wedi nodi'n eithaf cyson ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddeilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal (Atodiad 2). Yn 2003, nododd adroddiad dylanwadol gan Uned Allgáu Cymdeithasol Swyddfa'r Cabinet bum rheswm pam bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn tangyflawni a phum rhwystr i gyflawni (Ffigur 9).

**2.33** Ymhlith y materion eraill sydd wedi cael eu nodi'n rheolaidd mewn gwaith ymchwil ac adroddiadau fel rhai sy'n hollbwysig i gefnogi gwelliant mae:

- gwaith asesu a chynllunio gofal effeithiol ac amserol;
- rheoli gwybodaeth a pherfformiad yn gywir;
- gwrando ar blant (eiriolaeth);
- helpu plant sy'n derbyn gofal wrth iddynt symud ymlaen i hyfforddiant, addysg bellach ac addysg uwch neu gyflogaeth.

**2.34** Mae llawer o adroddiadau wedi taflu goleuni ar safbwyntiau gofalwyr maeth a phobl ifanc ynglŷn ag addysg. Dengys y rhain fod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn aml yn rhoi gwerth mawr ar addysg ond cred llawer nad yw pobl yn gwrando arnynt digon a bod penderfyniadau ynglŷn â'u gofal yn cael eu gwneud weithiau heb roi digon o sylw i faterion addysgol. Dengys ein harolwg ein hunain o ofalwyr maeth eu bod yn rhoi gwerth mawr ar addysg. Roedd gan y rhan fwyaf o ofalwyr maeth bryderon am anghenion dysgu neu ddatblygu y plentyn neu ei ymddygiad ac roedd y rhan fwyaf o blant (39 allan o 43) yn cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol.

**2.35** Mae'r Rhwydwaith Maethu wedi ymgymryd â gwaith dros flynyddoedd lawer i helpu gofalwyr maeth i gefnogi addysg y plant yn eu gofal. Nododd adroddiad diweddar, *Fostering higher education: success in Wales*[59] fod angen i ofalwyr maeth fod â'r sgiliau i roi cymorth ac anogaeth effeithiol i hyrwyddo dysgu a datblygiad addysgol plentyn. Roedd gofalwyr maeth yn teimlo bod gan athrawon a gweithwyr cymdeithasol ddisgwyliadau isel o ran cyrhaeddiad academaidd plant sy'n derbyn gofal. Awgrymwyd bod angen cymorth ychwanegol ar blant sy'n derbyn gofal er mwyn iddynt lwyddo yn y system addysg, yn enwedig y nifer fach o blant sy'n derbyn gofal sy'n mynd ymlaen i addysg uwch.

### Ceir portffolio sylweddol o enghreifftiau o arfer nodedig, y mae rhai ohonynt wedi cael eu gwerthuso

**2.36** Mae'r amrywiaeth eang o adroddiadau ymchwil a rhaglenni peilot wedi cyfrannu at gorff cynyddol o wybodaeth am arfer da yng Nghymru ac yn y rhannau eraill o'r DU. Yn

58 Strwythurwyd Cytundebau Gwella i ddangos cyfraniad awdurdodau lleol at agenda Cymru'n Un, gyda gweithgarwch yn seiliedig ar bedair thema strategol o 2008-09. Fe'u holynwyd yn 2010 gan Gytundebau Canlyniadau rhwng pob awdurdod lleol unigol a Llywodraeth Cymru am dair blynedd, a fydd yn dod i ben ym mis Mawrth 2013. Mae Cytundebau Canlyniadau yn cynnwys 10 thema strategol gyffredinol sy'n deillio o ddogfen Cymru'n Un, a, lle y bo'n bosibl, maent yn adlewyrchu amcanion presennol yr Awdurdod ar gyfer gwella neu'r amcanion ar gyfer gwella a nodwyd ganddo. Mae Llywodraeth Cymru wedi cysylltu Cytundebau Gwella a Chytundebau Canlyniadau â chymhwysedd i gael arian grant.

59 Y Rhwydwaith Maethu a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd, *Fostering higher education: success in Wales. A report of foster carer's views of supporting the education of looked after children*, 2012.



**Ffigur 9 - Yn 2003, cyhoeddodd Uned Allgáu Cymdeithasol Swyddfa'r Cabinet adroddiad dylanwadol a nododd resymau allweddol pam bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn tangyflawni a phum rhwystr i gyflawni**

Y pum rheswm mawr pam bod plant mewn gofal yn tangyflawni ym maes addysg yw:

- mae gormod o bobl ifanc yn byw bywydau **llawn ansefydlogrwydd**;
- mae pobl ifanc mewn gofal yn treulio gormod o **amser i ffwrdd o'r ysgol** neu leoliad dysgu arall;
- nid yw plant yn cael digon o **gymorth gyda'u haddysg** os byddant yn mynd ar ei hôl hi;
- ni ddisgwylir i ofalwyr roi **cymorth ac anogaeth** yn y cartref o ran dysgu a datblygu, neu nid oes ganddynt y sgiliau i wneud hynny'n ddigonol;
- mae angen mwy o gymorth o ran **iechyd a lles emosiynol, meddyliol neu gorfforol** ar blant mewn gofal.

Mae pum ffactor sylfaenol wedi rhwystro newid ac wedi arwain at gynnydd araf:

- **staffio** – cyfraddau swyddi gwag hynod uchel yn y gweithlu gofal cymdeithasol plant a diffyg hyfforddiant i staff ar anghenion addysgol plant mewn gofal;
- **rheoli ac arwain** – diffyg ymrwymiad ac amser ar lefel uwch, staff yn teimlo nad oes ganddynt y pŵer i newid pethau ynghyd â diffyg dealltwriaeth rhwng staff rheng flaen a rheolwyr;
- **adnoddau** – er bod arian wedi cynyddu mewn termau real, mae rhai ardaloedd yn cael anhawster i ddarparu gwasanaeth digonol, sefyllfa sydd wedi'i gwaethygu gan ddiffyg gwaith cynllunio strategol a defnydd gwael o adnoddau;
- **systemau a strwythurau** – diffyg cydweithio yn gyffredinol rhwng gweithwyr rheng flaen a rhwng swyddogion awdurdodau lleol mewn gwahanol adrannau;
- **agweddau** – mae llawer o ofalwyr a gweithwyr cymdeithasol yn gadarnhaol ynglŷn â phlant mewn gofal, ond mae agweddau negyddol a disgwyliadau isel yn gyffredin ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r gymdeithas ehangach.

*Ffynhonnell: Swyddfa'r Cabinet, A better education for children in care, Adroddiad yr Undeb Allgáu Cymdeithasol, Medi 2003*

benodol, ym mis Ebrill 2011, cyhoeddodd CLILC grynodeb o arfer nodedig ar rianta corfforaethol yng Nghymru a oedd yn cynnwys enghreifftiau a oedd ymwneud ag addysg[60]. Ymhlith y datblygiadau a werthuswyd ac y gwelwyd eu bod yn effeithiol mae cyflwyno timau trawsadrannol i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal; cyflwyno penaethiaid rhithwir; hyfforddiant un-i-un ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (Ffigur 10).

## Mae gwasanaethau addysg plant sy'n derbyn gofal wedi darparu gwasanaethau cymorth addysgol effeithiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

**2.37** Ers 1999, mae awdurdodau lleol wedi datblygu nifer o brosiectau cymorth arbenigol a swyddi staff i helpu i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Mae'r trefniadau hyn wedi newid mewn ymateb i newidiadau yn y cyllid gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a ffynonellau eraill. Ers 2007, bu'n rhaid i bob awdurdod lleol benodi cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal i weithio gydag ysgolion a thimau gwaith cymdeithasol i wella cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod. Mae awdurdodau lleol yng Nghymru wedi datblygu gwasanaethau addysg arbenigol i gefnogi plant sy'n derbyn gofal, weithiau ar y cyd â sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Mae'r timau hyn yn darparu ystod o wasanaethau cymorth: mae rhai yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau i unigolion ac mae eraill yn canolbwyntio ar roi cymorth i ysgolion a gofalwyr. Daw cydgysylltwyr gwasanaeth addysg plant sy'n derbyn gofal o amryw gefndiroedd - athrawon, ymwelwyr iechyd neu seicolegwyr addysgol.

60 CLILC, *WLGA Notable Practice Compendium – Corporate Parenting 2011.*

**Ffigur 10 - Rhai enghreifftiau o ddatblygiadau sydd wedi cael eu gwerthuso ac yr ystyrir eu bod yn cael effaith gadarnhaol**

**Dangoswyd bod cyflwyno Pennaeth Ysgol Rhithwir ar gyfer yr holl blant sy'n derbyn gofal o fewn awdurdod lleol yn gwella addysg**

Mae'r Pennaeth Ysgol Rhithwir yn gweithredu fel cydgysylltydd a hyrwyddwr awdurdod lleol i sicrhau gwelliannau yn addysg plant sy'n derbyn gofal. Ariannwyd 11 o raglenni peilot gan yr Adran Addysg yn Lloegr o 2007-2009. Yn ôl gwerthusiad[1] roedd cynllun peilot y Penaethiaid Ysgol Rhithwir wedi llwyddo i sicrhau mwy o flaenoriaeth i addysgu plant sy'n derbyn gofal. Roedd gan benaethiaid a chanddynt gefndir addysgol cadarn a benodwyd ar lefel uwch fantais o ran cydgysylltu â gweithwyr proffesiynol eraill a'u hannog i gydweithredu. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy wedi dechrau prosiect Ysgol Rithwir (gweler Ffigur 12).

**Mae gwersi unigol wedi bod yn fodd effeithiol i wella perfformiad**

Cefnogodd yr Adran Addysg yn Lloegr gynlluniau peilot ar gyfer gwersi unigol i blant sy'n derbyn gofal hefyd. Yn ôl gwerthusiad bu'n llwyddiannus iawn: gwnaeth y rhan fwyaf o'r plant y cynigiwyd gwersi unigol iddynt eu derbyn ac roedd adborth plant a gweithwyr cymdeithasol yn gadarnhaol iawn. Roedd y gwersi unigol a ddarparwyd yn amrywio o gyrsiau byr (er enghraifft, 10 sesiwn awr) i wersi dros flwyddyn gyfan. Roedd rhai tiwtoriaid yn athrawon yr oedd y plant eisoes yn eu hadnabod neu defnyddiwyd athrawon eraill yn yr awdurdod neu diwtoriaid preifat. Roedd yn fwy anodd trefnu gwersi ar gyfer plant a phobl ifanc mewn lleoliadau y tu allan i ardal yr awdurdod neu'r rhai ag anghenion cymhleth. Nododd gweithwyr cymdeithasol welliannau o ran cyrhaeddiad a hefyd hyder a hunan-barch wrth i'r plant elwa ar berthynas barhaus ag oedolyn a oedd yn ymwneud yn benodol â hwy[2].

Roedd cynnig cymorth wedi'i addasu i'r unigolyn hefyd wedi cael rhywfaint o gymeradwyaeth yn y gwerthusiad allanol interim o brosiectau Rhagori[3] a ganfu fod awdurdodau lleol lle roedd cyrhaeddiad plant a oedd yn derbyn gofal yn uwch neu'n llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer 2006-07 a 2007-08 wedi mabwysiadu cymorth a dysgu wedi'u haddasu i'r unigolyn ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

**Gall rhoi profiad gwaith helpu plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal**

Ariannodd Llywodraeth Cymru yr elusen 'Busnes yn y Gymuned' i weithio gydag awdurdodau lleol a chyflogwyr i dreialu'r rhaglen Cyfle Gorau i gynnig lleoliadau profiad gwaith i blant sy'n derbyn gofal. Yn y rhaglen beilot gyntaf yn 2009, cynigiodd pum busnes leoliadau gwaith i 32 o blant a oedd yn derbyn gofal a phobl ifanc 16-20 oed a oedd wedi gadael gofal a chwblhawyd lleoliadau gan 21 ohonynt. Aeth deg o'r bobl ifanc hyn yn eu blaen i addysg bellach a chafodd dau swyddi. Cymerodd pedwar awdurdod lleol ran mewn ail raglen yn 2010-11 gan gynnig lleoliadau i 28 o bobl ifanc a oedd yn gadael gofal: cwblhawyd lleoliadau gan 19 ohonynt; aeth wyth yn eu blaen i gael swyddi ac aeth chwech ymlaen i addysg bellach neu ddysgu. Ni pharhaodd cyllid Llywodraeth Cymru yn 2011-12. Fodd bynnag, mae sawl awdurdod lleol wedi cynnig profiad gwaith i'r plant sydd yng ngofal yr awdurdod, y mae rhai ohonynt wedi mynd ymlaen i gael prentisiaethau modern gyda'r awdurdod[4] Mae 'Rhaglen Cam i'r Cyfeiriad Cywir' Rhondda Cynon Taf yn cynnig rhaglen hyfforddiant ddwy flynedd yng ngweithlu'r cyngor i chwech o bobl ifanc sy'n gadael gofal.

Nodiadau

1 Berridge, D, Henry, L, Jackson, S. and Turney, D, *Looked After and Learning: Evaluation of the Virtual Head Pilot*, University of Bristol, 2009.

2 Berridge, D, Henry, L, Jackson, S. and Turney, D, *Looked After and Learning: Evaluation of the Virtual Head Pilot,* University of Bristol, 2009.

3 Llywodraeth Cymru, *Gwerthusiad Allanol o RHAGORI - Adroddiad Thematig ar Gymorth Dysgu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, Yr Uned Pobl a Gwaith*, 2009.

4 Dyfyniad gan Gyngor Thurrock yn: *Pe bai'n blentyn i mi: arweiniad i gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal* a'r rhai sy'n gadael gofal, Llywodraeth Cymru/CLlLC, Mehefin 2009, tudalen 19 http://ssia.wlga.gov.uk/media/pdf/2/g/corporate_parenting.pdf



## Ffigur 11 - Enghreifftiau o fentrau sy'n cefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trefnu gwyliau gweithgarwch yn ystod yr haf i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal bob blwyddyn. Mae rhaglen lawn o weithgareddau wedi'i threfnu ar gyfer y bobl ifanc ac maent o dan ofal a goruchwyliaeth hyfforddwyr cwbl gymwysedig a phrofiadol a thîm staff addysg plant sy'n derbyn gofal drwy'r amser. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys dringo creigiau, abseilio, hwylio, arforgampau, syrffio a chaiacio. I rai pobl ifanc efallai mai dyma'r tro cyntaf iddynt gael gwyliau neu gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'r fath. Yn 2012, aeth 12 o bobl ifanc ar wyliau yn sir Benfro. Mae'r gwyliau yn rhoi cyfle i'r bobl ifanc gyflawni pethau y tu allan i addysg ffurfiol gan gynnig cyfrwng cyffrous a chorfforol i ddysgu a meithrin hyder a hunan-barch.

Mae Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr hefyd wedi cynnig ‘sylfaen’ i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal am flynyddoedd lawer. Mae wedi arfer â chynnig ystod eang o gymorth gan gynnwys help i bobl ifanc a fyddai'n cael budd o gymorth unigol sy'n wynebu risg o gael eu hallgáu, eu gwahardd o'r ysgol, neu eu rhoi i astudio cwricwlwm amgen. Mae lleoliad y ganolfan wedi newid dros y blynyddoedd a chaiff y ganolfan bresennol ei defnyddio hefyd ar gyfer clybiau ar ôl ysgol i blant a phobl ifanc oedran cynradd ac uwchradd sy'n derbyn gofal. Yn gyffredinol, mae'r ganolfan wedi helpu pobl ifanc i integreiddio'n llwyddiannus unwaith eto ag ysgolion prif ffrwd, wedi helpu i wella deilliannau addysgol i'r unigolion dan sylw, ac wedi helpu i wella cysylltiadau â staff addysgu dynodedig.

Cyflwynodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fath o ‘Ysgol Rithwir’ ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ym mis Tachwedd 2010. Gyda Phrif Seicolegydd Cynorthwyol y Cyngor yn bennaeth ar y prosiect mae wedi'i anelu at hyrwyddo a gwella addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae'r Pennaeth yn cydgysylltu â phartïon perthnasol gan gynnwys tri aelod etholedig, rheolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau addysg ac adrannau anghenion ychwanegol, cydgysylltydd addysg plant sy'n derbyn gofal a phobl ac asiantaethau perthnasol eraill. Mae trefniant yr Ysgol Rithwir yn sicrhau bod prosesau a strwythurau ar waith i wneud y canlynol:

- ymateb ar unwaith os bydd unrhyw ddisgybl yn cael problem fawr yn yr ysgol;
- darparu mentoriaid dysgu i roi cymorth yn yr ystafell ddosbarth neu gymorth unigol lle bo angen hynny ar frys;
- trefnu cefnogaeth i helpu i godi cyrhaeddiad myfyrwyr gan gynnwys hyfforddiant unigol ychwanegol, cymorth TG a meddalwedd ar gyfer cymorth gyda llythrennedd yn ystod Cyfnodau Allweddol 2 a 3 a chymorth i adolygu yn ystod Cyfnod Allweddol 4;
- rhoi cymorth pan gyfyd problemau gyda'r disgybl o ran ymddygiad a allai, er enghraifft, arwain at waharddiad;
- rhoi cymorth cwnsela a mentora pan fydd darpariaeth yr ysgol ei hun o dan bwysau.

Cred y Cyngor fod yr Ysgol Rithwir wedi codi blaenoriaeth addysg plant sy'n derbyn gofal ac ymwybyddiaeth o'u hanghenion, ond mae'n rhy gynnar i ddweud a yw'r Ysgol Rithwir yn sicrhau gwell cyrhaeddiad.

*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy*

**2.38** Cafodd y rhan fwyaf o'r gwasanaethau presennol ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal eu hariannu, yn rhannol o leiaf, gan grant Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal hyd at fis Medi 2011 ac wedyn gan y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion - plant sy'n derbyn gofal. Cafodd rhai gwasanaethau cynnar eu datblygu fel rhan o fentrau Rhoi Plant yn Gyntaf neu cawsant arian grant Cymorth[61] .

**2.39** Yn ein gwaith ar gyfer yr adroddiad hwn, gwelsom enghreifftiau lle roedd timau addysg plant sy'n derbyn gofal yn rhoi cymorth effeithiol i blant unigol a oedd yn derbyn gofal (Ffigur 11).

**2.40** Mae effaith y timau gwasanaethau addysg plant sy'n derbyn gofal yn debygol o ymestyn y tu hwnt i gyrhaeddiad mewn profion ac arholiadau. Yn ôl y gwerthusiad o Raglen Rhagori Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar[62] 'ar y cyfan, er mai ychydig iawn o dystiolaeth sy'n dangos effaith gadarnhaol rhaglen Rhagori ar gyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol, cafwyd tystiolaeth gryfach gan Gydgysylltwyr Plant sy'n Derbyn Gofal yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal gan Awdurdodau Lleol bod Rhagori wedi cael effaith gadarnhaol ar eu profiadau addysgol a'u sgiliau a'u tueddiadau cymdeithasol ac emosiynol'.

## Gwnaed cynnydd sylweddol i ehangu mynediad i addysg uwch ac mae gwell arfer yn datblygu ym maes addysg bellach a pharatoi ar gyfer cyflogaeth

**2.41** Gwelwyd gwelliant mawr o ran ehangu mynediad y rhai sy'n gadael gofal i addysg uwch yn sgil gwaith wedi'i gydgysylltu'n dda gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), partneriaethau rhanbarthol Ymgyrraedd yn Ehangach, sefydliadau addysg uwch a'u hymwneud â sefydliadau a gweithwyr proffesiynol eraill. Maent wedi datblygu arferion a pholisïau i oresgyn rhai o'r rhwystrau y mae pobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai a fu'n derbyn gofal yn eu hwynebu wrth anelu at astudio mewn sefydliadau addysg uwch neu fynd ymlaen i wneud hynny, gan gynnwys mentora a chefnogi'r bobl ifanc hynny â disgwyliadau isel a chyrhaeddiad gwan. Ymhlith y rhwystrau ymarferol mae'r gofyniad i adael gofal a byw'n annibynnol tra'n astudio, gallu defnyddio llety myfyrwyr drwy gydol y flwyddyn yn hytrach nag yn ystod y tymor yn unig, yn ogystal â rhwystrau ariannol.

**2.42** Mae CCAUC wedi cefnogi nifer o fentrau i ehangu mynediad y rhai sy'n gadael gofal at addysg uwch gan gynnwys y rhaglen 'Ymgyrraedd yn Ehangach' a sefydlwyd yn 2002 i ehangu mynediad at addysg uwch. Mae CCAUC wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phrifysgolion a thrwy bartneriaethau rhanbarthol ac er nad oedd y rhai sy'n gadael gofal ymhlith y grwpiau targed cychwynnol ar gyfer ehangu mynediad, ers 2006 mae wedi mynd ati i annog prifysgolion ac eraill i ystyried anghenion y rhai sy'n gadael gofal. Mae partneriaethau rhanbarthol 'Ymgyrraedd yn Ehangach' wedi mynd ati i weithio gyda'r rhai sy'n gadael gofal a chyda phrifysgolion (Ffigur 12) a nodir y ffordd y mae CCAUC yn blaenoriaethu'r rhai sy'n gadael gofal yn *Dull a Chynllun Strategol ar gyfer Ehangu Mynediad i Addysg Uwch 2010/11 i 2012/13*. Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-orllewin Cymru wedi paratoi canllaw ar addysg bellach ac addysg uwch i bobl ifanc mewn gofal ac sy'n gadael gofal yng Nghymru. Mae Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru wedi paratoi pecyn cymorth i helpu gofalwyr

61 Cymorth yw'r Gronfa Cymorth i Blant a Phobl Ifanc. Ei nod yw darparu rhwydwaith o gymorth wedi'i dargedu i wella bywydau plant a phobl ifanc o deuluoedd difreintiedig. O fis Ebrill 2012, disodlwyd arian Cymorth gan raglen Teuluoedd yn Gyntaf.

62 Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, *Gwerthusiad o dair blynedd gyntaf y rhaglen Rhagori: Adroddiad Terfynol*, a gynhaliwyd gan yr Uned Pobl a Gwaith, adroddiad 15/2012, paragraff 2.20.



**Ffigur 12 - Mae rhai timau Gwasanaeth Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal wedi annog plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal i ystyried mynd ymlaen i addysg uwch**

Mae tîm addysg plant sy'n derbyn gofal (LACE) Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi meithrin cysylltiadau â Chlwb Mentora Gwaith Cwrs Prifysgol Caerdydd ac ‘Ysgol Haf Dyfodol Hyderus’ y Brifysgol. Mynychwyd y cyfarfodydd grŵp misol yn y Brifysgol gan hyd at chwech o bobl ifanc sy'n derbyn gofal yn 2011. Mae pob un yn cael cymorth mentor sy'n fyfyriwr sy'n astudio yn eu trydedd flwyddyn. Mae'r cyfarfodydd misol yn gyfle i gyfarfod â'i gilydd, bwyta, sgwrsio a chael cymorth gyda'u gwaith cwrs, eu hysbrydoli a'u hannog i gyflawni eu nodau. Mae hefyd yn cynnig cyfle i brofi amgylchedd y brifysgol, cyfarfod pobl a gwneud ffrindiau ac ar yr un pryd mae'n rhoi cipolwg ar fywyd yn y brifysgol ac yn codi uchelgeisiau. Ar ddiwedd y rhaglen fentora, caiff y bobl ifanc gyfle i fynychu yr ‘Ysgol Haf Dyfodol Hyderus’ sef digwyddiad deuddydd wedi'i anelu at roi cyfle i bobl ifanc mewn gofal gael profiad o fywyd myfyriwr mewn amgylchedd diogel a chefnogol a mynychwyd yr ysgol haf ym mis Gorffennaf 2012 gan chwech o bobl ifanc o Ben-y-bont ar Ogwr.

Trefnodd tîm Pen-y-bont ar Ogwr bedwar gweithdy cylchol gyda Phrifysgol Morgannwg drwy brosiect CCAUC ‘Ymgeisio yn Uwch - Ymestyn yn Ehangach’. Gwahoddwyd hyd at ddeg o bobl ifanc ar Gyfnod Allweddol 4 i'r digwyddiadau a chael diwrnod yn y brifysgol yn samplu nifer o gyrsiau megis drama, animeiddio, cerddoriaeth a gwneud ffilmiau. Cynhaliodd Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-ddwyrain Cymru, Campws Cyntaf, a Phrifysgol Casnewydd ddiwrnod agored a fynychwyd gan naw o blant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr ac esboniwyd y cymorth sydd ar gael mewn addysg uwch i'r rhai sy'n gadael gofal.

*Ffynhonnell: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr; WLGA Notable Practice Compendium – Corporate Parenting 2011; Campws Cyntaf - http://www.firstcampus.org/newport-care-leavers-open-day/*

plant sy'n derbyn gofal i ddeall y cyfleoedd addysgol sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal ac mae ‘Campws Cyntaf’ Partneriaeth Ymgyrraedd yn Ehangach De-ddwyrain Cymru yn gweithio gyda thimau gofal maeth i godi ymwybyddiaeth o gyfleoedd ym maes addysg uwch.

**2.43** Ym mis Rhagfyr 2007, lansiodd CCAUC, ar y cyd â Buttle UK, Nod Ansawdd Buttle UK ar gyfer y Rhai mewn Addysg Uwch yng Nghymru sy'n Gadael Gofal (Ffigur 13). Erbyn canol 2011, roedd pob prifysgol yng Nghymru wedi ennill y Nod Ansawdd sy'n dangos eu hymrwymiad i ehangu mynediad i bobl ifanc a fu'n derbyn gofal.

**2.44** Mewn rhai ardaloedd, ceir perthynas waith agos ac effeithiol rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach ac mae nifer fach o golegau addysg bellach yng Nghymru wedi ennill Nod Ansawdd Buttle UK mewn cynllun peilot ar gyfer fersiwn addysg bellach o'r Nod Ansawdd.

## Er gwaetha'r ddealltwriaeth gynyddol o'r hyn sy'n gweithio, ceir anghysondeb rhwng gwasanaethau, trefniadau a deilliannau

**2.45** Mae dealltwriaeth o'r materion allweddol ac effeithiolrwydd rhai o'r ymyriadau wedi helpu i lywio'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru megis *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell (2007)* ac wedi llywio rhaglenni ariannu, strategaethau lleol a chynlluniau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, erys cryn anghysondeb o ran amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir i gefnogi plant sy'n derbyn gofal ac ansawdd y gwasanaethau hynny.

**2.46** Fel y nodwyd yn gynharach, ceir cryn amrywiad rhwng awdurdodau lleol o ran cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal. Yn ôl Gwerthusiad Allanol interim rhaglen grant Rhagori ni ellid priodoli'r amrywiadau hyn i nodweddion y garfan dan sylw yn gyfan gwbl a daeth i'r casgliad fod o leiaf rai o'r amrywiadau ym mherfformiad awdurdodau lleol yn debygol

**Ffigur 13 - Mae prifysgolion wedi dangos eu hymrwymiad i gefnogi mynediad i addysg uwch drwy lwyddo i gyrraedd safonau Nod Ansawdd Buttle UK ar gyfer y Rhai mewn Addysg Uwch yng Nghymru sy'n Gadael Gofal**

Er mwyn ennill Nod Ansawdd Buttle UK ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal, mae'n rhaid i brifysgolion ddangos eu hymrwymiad i ddenu a chefnogi myfyrwyr sydd wedi gadael gofal. Mae'r cymorth a gynigir yn amrywio ond gall gynnwys:

- sesiynau rhagflas ac ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal er mwyn cyflwyno byd addysg uwch iddynt a chodi eu disgwyliadau;
- cyngor ac arweiniad cyn gwneud cais;
- pwyntiau credyd tuag at sgoriau tariff Gwasanaeth Derbyn y Prifysgolion a'r Colegau (UCAS);
- cyswllt ar y cam gwneud cais er mwyn cyflwyno cynghorwyr a gwasanaethau;
- cymorth ariannol ar gyfer cyfweliadau a diwrnodau agored;
- mentor neu gynghorydd personol;
- cymorth i gynllunio a threfnu llety yn ystod y tymor ac yn ystod y gwyliau gyda'r opsiwn o lety gwarantedig yn y brifysgol drwy gydol y flwyddyn;
- help i ddod o hyd i gymorth ariannol a gwaith rhan-amser;
- bwrsarïau i'r rhai sy'n gadael gofal.

Mae pob sefydliad addysg uwch yng Nghymru bellach wedi ennill Nod Ansawdd ar gyfer y rhai mewn addysg uwch sy'n gadael gofal.

*Ffynhonnell: Buttle UK*

o godi oherwydd amrywiadau yn ansawdd y cymorth a'r gofal a roddir i blant sy'n derbyn gofal[63]. Yn bwysig ddigon, canfu'r ymchwil fod cysylltiad gwan yn aml rhwng yr ystod o ffactorau y cred awdurdodau lleol eu bod yn cyfrannu at gyrhaeddiad addysg gwan plant sy'n derbyn gofal a'r cymorth a gynigir ganddynt mewn gwirionedd. Er enghraifft, er bod awdurdodau lleol yn cydnabod o bosibl effaith niweidiol newid o un lleoliad i'r llall a'r effaith niweidiol y mae dod yn rhan o'r system ofal ar gam hwyr yn eu haddysg yn ei chael ar blant, ychydig iawn o awdurdodau lleol a oedd wedi rhoi strategaethau ar waith i leihau nifer y lleoliadau ar y cam hwn.

**2.47** Fel rhan o'n hadolygiad, cwblhaodd pump o'r chwe awdurdod lleol yng Nghymru a'n cynorthwyodd fersiwn o adnodd hunanasesu a ddatblygwyd gan y Comisiwn Archwilio[64] ac a addaswyd i'w ddefnyddio yng Nghymru. Nododd yr awdurdodau lleol cryn amrywiad yn eu hasesiadau o'u darpariaeth.

**2.48** Ni nododd yr un o'r pum awdurdod lleol fod eu strategaeth leol ar gyfer Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) yn diwallu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn effeithiol. Yn ôl astudiaeth ar y cyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, Estyn ac AGGCC a gyhoeddwyd yn 2009 mae gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed, a ddarperir drwy'r GIG yn bennaf, yn methu â diwallu anghenion llawer o blant a phobl ifanc yn gyffredinol. Nododd yr adroddiad, er gwaethaf rhai datblygiadau cadarnhaol mewn gwasanaethau arbenigol i blant sy'n derbyn gofal, fod y rhain yn anghyson a bod gwendidau mewn polisïau, strategaethau a phrosesau cyflawni yn gyffredinol[65]. Mewn adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru

63 Llywodraeth Cymru, *Gwerthusiad Allanol o RHAGORI - Adroddiad Thematig ar Gymorth Dysgu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal*, Yr Uned Pobl a Gwaith, 2009.

64 Mae adroddiad y Comisiwn Archwilio a'r pecyn cymorth sy'n cynnwys yr adnodd hunanasesu ar gael gan y Comisiwn Archwilio. Datblygwyd yr adnodd gyntaf yn 2003 ac fe'i diweddarwyd sawl gwaith ar nifer o achlysuron, yn fwyaf diweddar yn 2010. http://www.audit-commission.gov.uk/childrenandyoungpeople/lactoolkit/Pages/default.aspx



wedi hynny (Gorffennaf 2011) tynnwyd sylw at y problemau penodol y gall plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal eu Hawdurdo d eu hwynebu i gael gafael ar wasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. Oherwydd rhestrau aros hir a diffyg gwaith blaengynllunio, yn aml mae'n rhaid i bobl ifanc deithio bellteroedd mawr o'u sir frodorol i weld ymarferwyr iechyd meddwl plant a'r glasoed neu maent yn colli parhad gofal am fod yr awdurdod sy'n eu lleoli heb roi gwybodaeth na chynllunio'r symud yn briodol[66].

**2.49** Nodwyd diffygion hefyd yn y gwasanaethau eirioli a ddarperir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Yn ôl adroddiad diweddar Comisiynydd Plant Cymru[67] mae anghysondebau mawr a daeth i'r casgliad fod ‘plant sy’n derbyn gofal sydd eisiau cymorth gan eiriolwr proffesiynol annibynnol i’w helpu i sicrhau bod eu llais yn cael ei glywed yn cael cam’.

**2.50** Un datblygiad diweddar sy'n helpu i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yw sefydlu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion. Datblygodd Llywodraeth Cymru y strategaeth ar gyfer y gwasanaethau a neilltuodd £1 filiwn ar eu cyfer yn 2008-09[68], £2.5 miliwn yn 2009-10 a £3 miliwn yn 2010-11 i ariannu'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau, gan gynnwys hyfforddi cwnselwyr. Bwriad Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yw y caiff yr arian ar gyfer gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion ei ddarparu i awdurdodau lleol drwy'r grant cynnal refeniw ar ôl cychwyn y Bil Safonau a Threfniadaeth Ysgolion. Ar hyn o bryd, mae gan y rhan fwyaf o ysgolion uwchradd gwnselydd sy'n gweithio o leiaf yn rhan amser ac mae gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol gwnselwyr allgymorth sydd ar gael i'r rhai sydd y tu allan i addysg brif ffrwd. Mae cynlluniau peilot hefyd yn mynd rhagddynt mewn rhai ysgolion cynradd. Yn ôl gwerthusiad mae mynd i weld cwnselydd yn helpu i leihau gofid meddwl a nododd cleientiaid, athrawon a chwnselwyr foddhad mawr gyda'r gwasanaeth. Cafodd y rhan fwyaf o bobl ifanc eu hatgyfeirio at y gwasanaeth gan athrawon a staff yr ysgol. Ymddengys fod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn fwy tebygol o ddefnyddio'r gwasanaeth nag eraill: rhoddwyd ychydig o dan bump y cant o'r cyfnodau therapi i bobl ifanc sy’n derbyn gofal, sy’n gyfran uwch na'r disgwyl[69]. Mae'r ffigur hwn yn cyfateb i 10.5 y cant o nifer y plant a phobl ifanc o oedran ysgol uwchradd sy’n derbyn gofal yng Nghymru tra bod plant ysgol uwchradd yn gyffredinol yn cyfrif am 2.9 y cant o'r rhai a gafodd eu cwnsela[70].

65 Archwilydd Cyffredinol Cymru, *Gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anghenion emosiynol ac iechyd meddwl*, Tachwedd 2009 http://www.wao.gov.uk/assets/welshdocuments/CAMHS_cym.pdf

66 Comisiynydd Plant Cymru, *Ar Goll Ar ôl Gofal*, Gorffennaf 2011, tudalen 58.

67 Comisiynydd Plant Cymru, *Lleisiau Coll, adolygiad o’r eiriolaeth annibynnol proffesiynol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru*, 2012.

68 Llywodraeth Cymru, *Gwasanaethau Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Strategaeth Genedlaethol*, Ebrill 2008.

69 Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru 23/2011, Hill, A et al, Gwerthusiad o'r Strategaeth Cwnsela mewn Ysgolion yng Nghymru: Adroddiad Terfynol, 2011.

70 Dyfynnwyd y ffigurau yn: Ar Goll ar ôl Gofal, Gorffennaf 2011, gan Gomisiynydd Plant Cymru.

# Rhan 3 – Nid yw Llywodraeth Cymru nac awdurdodau lleol wedi asesu a oes modd cyflawni gwelliant sylweddol ac nid oes ganddynt gynlluniau cyflawni ar y cyd

## Nid oes sicrwydd a oes digon o adnoddau i sicrhau gwelliannau sylweddol

**3.1** Nid yw Llywodraeth Cymru wedi asesu cost debygol cyflawni'r bwriad yn *Rhaglen Lywodraethu 2011* i leihau'r bwlch ar Gyfnod Allweddol 4 rhwng deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal, plant mewn angen a phlant yn gyffredinol ac i wella deilliannau eraill i blant sy'n derbyn gofal.

**3.2** Yn ogystal ag incwm grant penodol, mae gan awdurdodau lleol gyllid dewisol drwy'r grant cynnal refeniw a'u hincwm eu hunain i gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo addysg plant yn eu gofal. Gwelsom fod cyllid awdurdodau lleol o dan bwysau a hefyd ychydig iawn o awdurdodau lleol sydd mewn sefyllfa i asesu effaith newidiadau i brosiectau a gwasanaethau.

### Mae'r niferoedd cynyddol o blant sy'n dod yn rhan o'r system ofal, ynghyd â'r pwysau economaidd cyffredinol yn rhoi straen ychwanegol ar staffio a chyllidebau gofal cymdeithasol

**3.3** Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer y plant mewn gofal wedi cynyddu 20 y cant a phump y cant yn y flwyddyn hyd at fis Mawrth 2011 yn unig. Nododd Prif Arolygydd Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei Hadroddiad Blynyddol yn 2009-10[71] 'os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, bydd yn codi cwestiynau difrifol am gynaliadwyedd gwasanaethau fel y cânt eu trefnu a'u darparu ar hyn o bryd'. Yn fwy diweddar, mae'r Rhwydwaith Maethu (Rhagfyr 2011) wedi tynnu sylw at brinder gofalwyr maeth o bosibl ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ac yn y rhannau eraill o'r DU.

**3.4** Mae Ymddiriedolaeth Who Cares?, sef elusen sy'n cynrychioli'r rhai mewn gofal ac a fu mewn gofal, wedi mynegi pryder y bydd awdurdodau lleol yn ei chael yn anodd i flaenoriaethu gwariant ar blant sy'n derbyn gofal yn wyneb y pwysau hyn ar gyllidebau (Ffigur 14).

**3.5** Yn ogystal â'r galw cynyddol am wasanaethau, mae cyllidebau cenedlaethol a lleol yn addasu ar gyfer cyfnod pan fydd gostyngiad mewn gwariant mewn termau real. Mae'n rhaid i'r llywodraeth genedlaethol ac awdurdodau lleol wneud toriadau ac arbedion effeithlonrwydd sylweddol a chanolbwyntio ar eu blaenoriaethau pennaf. Er bod awdurdodau lleol wedi diogelu cyllidebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol fwyaf, canfu Swyddfa Archwilio Cymru, yn gyffredinol, y disgwylid i wariant awdurdodau lleol ar ofal cymdeithasol ac addysg ostwng tua dau y cant mewn termau real yn 2011-12. Dim ond chwech o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n bwriadu cynyddu cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol mewn termau real i ateb y galw cynyddol a dim ond un sy'n bwriadu cynyddu'r gyllideb addysg mewn termau real[72].

71 Llywodraeth Cymru, *Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2009-2010*, tudalen 14.

72 Swyddfa Archwilio Cymru, *Darlun o Wasanaethau Cyhoeddus 2011*, Hydref 2011, paragraffau 1.18 - 1.24.



**Ffigur 14 - Mae Ymddiriedolaeth Who Cares? wedi mynegi pryder y bydd gwasanaethau plant sy'n derbyn gofal yn dioddef oherwydd toriadau yng nghyllidebau awdurdodau lleol**

Wrth i ddirwasgiad 2009 ddwysau, un o'r ychydig bethau a oedd yn dal i werthu'n dda oedd dillad plant. Mae rhieni yn reddfol yn rhoi eu plant yn gyntaf.

Nid oes gan ‘riant corfforaethol’ y fath reddf, mae wedi'i gyfyngu gan gyllidebau a strategaethau cost-effeithiolrwydd - ac yn ymarferol mae'n gorfod rhoi'r un flaenoriaeth i hapusrwydd plant yn ei ofal â gwaredu sbwriel a goleuadau stryd.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n cefnogi plant mewn gofal eisoes yn gadarn iawn. Ond nid yw'n cael ei rhoi ar waith ar lawr gwlad mewn ffordd gyson. Bydd y penderfyniad i ddiystyru anghenion rhai plant nes bod argyfwng croch yn codi na ellir ei osgoi yn creu hyd yn oed fwy o gostau yn y pen draw i gymdeithas wrth iddi ei chael yn nodd i ymdopi â'r canlyniadau pan fydd nifer fach o bobl yn teimlo ac yn creu cryn ofid meddwl. Mae hyn yn aml yn arwain at genhedlaeth newydd o blant sydd wedi'u geni i rieni nad oes ganddynt unrhyw syniad sut i fagu plentyn.

*Ffynhonnell: Yr Ymddiriedolaeth Who Cares?, Making it better - how can the system improve, http://www.thewhocarestrust.org.uk*

**3.6** Mae nifer o fentrau wedi ceisio lleihau'r prinder gweithwyr cymdeithasol plant cymwysedig a nodwyd a chynyddu nifer ac ystod y lleoliadau sydd ar gael. Mae'r rhain yn cynnwys yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant sydd â'r nod o gynorthwyo'r broses o ddod o hyd i leoliadau gofal priodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru. Mae'n fenter gydgysylltiedig lwyddiannus gan y Llywodraeth, ac mae'r partneriaid yn cynnwys Llywodraeth Cymru, CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Uned Ddata Llywodraeth Leol sy'n darparu'r gwasanaeth ac wrth ei wraidd mae cronfa ddata amser real sy'n galluogi defnyddwyr i baru plant â darpariaeth yn seiliedig ar broffil o'u gofynion.

**Nid yw'r cyllid penodol sydd ar gael i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu ers 2005-06, ni chaiff ei glustnodi yn y dyfodol ac mae'n llai nag sydd ar gael ar gyfer addysg plant sy'n derbyn gofal yn y rhannau eraill o'r DU**

**3.7** Yn ystod y degawd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal yn wreiddiol drwy'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf a oedd yn cynnwys £1 filiwn i gefnogi addysg plant sy'n derbyn gofal. Parhaodd y lefel hon o ariannu yng ngrant Rhagori ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (2006-2011) ac, o fis Medi 2011, yng ngrant y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Mae telerau a meini prawf cymhwyso pob grant wedi bod ychydig yn wahanol i'w gilydd. Mae'r cyfanswm sydd wedi bod ar gael wedi aros yn ddigyfnewid ers 2002, ond mae ei werth mewn termau real wedi lleihau drwy gyfuniad o chwyddiant dros y cyfnod, niferoedd cynyddol o blant mewn gofal yn gyffredinol a'r meini prawf cymhwyso ehangach. O 2012-13, ni chaiff Grant Effeithiolrwydd Ysgolion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ei glustnodi mwyach o fewn y Gronfa Effeithiolrwydd Ysgolion.

**3.8** Yn Lloegr, mae pob plentyn sy'n derbyn gofal wedi bod yn gymwys i gael ‘premiwm disgybl’ o 2010-11, sy'n cael ei dalu, ar y cyfan, yn uniongyrchol i ysgolion (Ffigur 15). Bydd y Grant Amddifadedd Disgyblion, a gyflwynwyd yng Nghymru ym mis Ebrill 2012, yn rhoi £450 o arian yn uniongyrchol i ysgolion am bob

disgybl sydd wedi'i gofrestru i gael prydau ysgol am ddim. Nid oes rhaid i ysgolion wario eu grant ar y disgyblion hyn ond bydd yn rhaid iddynt gyfrif am y ffordd y defnyddiwyd yr arian i gefnogi gwelliant. Ni chaiff y Grant Amddifadedd Disgyblion ei dalu mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal fel grŵp ar wahân ac, yn ymarferol, dim ond mewn perthynas â chwarter y plant sy'n derbyn gofal y bydd ysgolion yn cael premiwm gan nad yw'r rhan fwyaf o ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim[73]. Yn Lloegr telir Premiwm Disgybl o £600 fesul disgybl ar gyfer 2012-13 a chaiff ei dalu ar gyfer pob disgybl sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim ac ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Amcangyfrifwn, pe bai pob plentyn o oedran ysgol sy'n derbyn gofal yng Nghymru yn cael yr un faint o arian â'r premiwm disgybl yn Lloegr, y byddai ysgolion yng Nghymru yn cael tua £2 filiwn yn 2012-13 i gefnogi eu haddysg.

**3.9** Yng Nghymru, mae'r Llywodraeth ac awdurdodau lleol yn ymrwymedig i leihau arian grant penodol ac mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu addysg rhag gostyngiadau mewn cyllid mewn termau real. Mae hyn yn rhoi mwy o gyfrifoldeb ar awdurdodau lleol ac ysgolion i benderfynu faint o arian sydd ei angen ar awdurdodau i gyflawni eu cyfrifoldebau am blant sy'n derbyn gofal a sut y byddant yn ei ddefnyddio.

**3.10** Yng Nghymru, efallai y bydd pobl ifanc sy'n dechrau addysg bellach yn 16-18 oed yn gymwys i wneud cais am y Lwfans Cynhaliaeth Addysg, sef lwfans wythnosol o £30 yr wythnos ond sy'n dibynnu ar brawf modd ar gyfer cartrefi lle mae'r incwm yn llai na £20,817 (neu £23,077, os oes mwy nag un plentyn neu berson ifanc dibynnol). Mae gan bobl ifanc mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal sydd â chyfrif banc ac sy'n gwneud cais ac yn rhoi'r wybodaeth angenrheidiol i'w hawdurdod lleol yr hawl i gael y lwfans llawn ac mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn ymdrin â'u ceisiadau drwy weithdrefn garlam. Mae'r rhai hŷn sydd wedi gadael gofal hefyd yn gymwys i hawlio Grant Dysgu'r Cynulliad a gyflwynwyd yn 2002-03 i annog pobl 19 oed a throsodd sy'n byw yng Nghymru i fynd ymlaen i addysg bellach er, yn ymarferol, mae llawer hefyd yn gymwys i hawlio'r Grant hwn ar sail incwm isel y cartref.

**Ffigur 15 - Darperir y 'premiwm disgybl' yn Lloegr ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal**

Mae'r premiwm disgybl yn arian ychwanegol i ysgolion a delir, ar y cyfan, yn uniongyrchol iddynt am y plant sy'n dod o'r teuluoedd tlotaf (y rhai y mae eu hincwm yn llai na £16,500 y flwyddyn). Ei nod yw mynd i'r afael â'r gwahaniaeth rhwng deilliannau plant o deuluoedd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant eraill. Gall yr ysgol benderfynu sut y bydd yn gwario'r premiwm disgybl ond bydd yn atebol am y ffordd y mae wedi cefnogi'r disgyblion tlotaf. Hefyd, mae pob plentyn sy'n derbyn gofal am fwy na chwe mis yn olynol yn gymwys i gael y premiwm disgybl. Rhoddwyd premiwm o £480 yn 2010-11 ac fe'i cynyddwyd i £600 o fis Ebrill 2012. Pan fydd plentyn mewn lleoliad nas cynhelir, gall yr awdurdod lleol benderfynu sut i wario'r arian yn fwyaf effeithiol.

*Ffynhonnell: Yr Adran Addysg, Pupil premium, What you need to know, Tachwedd 2011*

73 Mae 25 y cant o blant sy'n derbyn gofal yn cael prydau ysgol am ddim o gymharu ag 20 y cant o'r holl ddisgyblion o oedran statudol. Ffynhonnell: *Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru 2011*, Tabl 12, Datganiad y Gyfarwyddiaeth Ystadegol 32/2012 Ystadegau Cymru.



3.11 Yn Lloegr, mae'r rhai sydd wedi gadael gofal ac sy'n mynd ymlaen i addysg uwch cyn eu pen-blwydd yn 25 oed wedi bod yn gymwys i gael bwrsari o £2,000 yn ychwanegol at unrhyw arian arall a ddarperir gan eu hawdurdod lleol ers 2008. Ym mis Mehefin 2011, newidiodd Llywodraeth Cymru y rheoliadau i sicrhau bod yn rhaid i bob awdurdod lleol roi Bwrsari Addysg Uwch o £2,000 o leiaf i'r rhai sy'n gadael gofal. Gellir talu'r swm hwn o'r grant Effeithiolrwydd Ysgolion. Yn bwysig ddigon, nid oes rhaid i'r bwrsari Addysg Uwch gael ei ad-dalu gan y myfyriwr.

**Mae llawer o wasanaethau addysg plant sy'n derbyn gofal yn dibynnu ar arian byrdymor sy'n cael effaith ar gysondeb ac ansawdd y ddarpariaeth**

3.12 Er bod Llywodraeth Cymru wedi parhau i roi arian i gefnogi gwell deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar yr un lefel ers 2002, mae'r ffrydiau ariannu sy'n cefnogi'r gwaith i wella cyrhaeddiad plant sy'n derbyn gofal – Rhoi Plant yn Gyntaf, Rhagori ac erbyn hyn yr elfen o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal – wedi bod yn arian byrdymor ar y cyfan, yn para blwyddyn, dwy flynedd neu dair blynedd fel arfer. Mae awdurdodau lleol, staff a phrosiectau yn anochel wedi wynebu ansicrwydd wrth i'r grant dynnu at ei derfyn. Yn yr un modd, pan fo awdurdodau lleol ac ysgolion wedi defnyddio arian o grantiau eraill Llywodraeth Cymru (er enghraifft Cymorth a'r Gronfa Ysgolion Gwell) neu o ffynonellau elusennol, arian byrdymor fu hwnnw hefyd. Mae'r gwerthusiad o'r rhaglen Rhagori yn nodi bod natur fyrdymor arian Rhagori wedi cael ei hystyried yn her yn gyson a bod Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg a CLILC wedi codi hyn fel achos pryder yn eu cyflwyniad i ymchwiliad gan Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru i grantiau penodol ym maes addysg[74].

3.13 Mae nifer o benderfyniadau ariannu eraill gan Lywodraeth Cymru hefyd o fudd i blant sy'n derbyn gofal. Er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant o £586,000 ar gyfer rhaglenni Dechrau Da a Chlwb Blwch Llythyrau Booktrust dros dair blynedd o 2012-2015. Mae rhaglen y Clwb Blwch Llythyrau[75] yn canolbwyntio ar wella rhagolygon addysgol plant 7-13 oed mewn teuluoedd maeth drwy ddarparu parsel dwyieithog o lyfrau, gweithgareddau mathemateg a deunydd ysgrifennu bob mis am chwe mis.

## Ers i'r rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf ddod i ben, ni fu cynllun cyflawni gweithredol ar y cyd ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud â gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal

3.14 Un o'r ffactorau pwysig a all helpu i sicrhau gwelliant mewn cadwyni cyflawni cymhleth yw presenoldeb cynlluniau cyflawni gweithredol ar y cyd sy'n egluro'r disgwyliadau ar bob rhan o'r system gyflawni. Gwelsom nad oes unrhyw gynllun cyflawni ar y cyd ar hyn o bryd i helpu i wella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal.

**Nid yw'r cydberthnasau rhwng llywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol a chyda phartneriaid eraill wedi cael eu defnyddio i sicrhau bod pob partner yn cyfrannu i gynllun glir â deilliannau ar y cyd**

3.15 Mewn adroddiad diweddar, *Dysgu i Wella: Asesiad Annibynnol o Bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol*[76],

74 Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, adroddiad 15/2012, *Gwerthusiad o dair blynedd gyntaf Rhagori: Adroddiad Terfynol,* cynhaliwyd gan yr Uned Pobl a Gwaith, paragraff 17.24 – yn cyfeirio at dystiolaeth CLILC a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i Ymchwiliad Grantiau Addysg wedi'u Neilltuo Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2009, cyfeirnod: FIN(3) 03-09 (tudalen 3).

75 http://www.letterboxclub.org.uk/letterbox-worldwide/wales/

76 Canolfan Ymchwil Llywodraeth Leol a Rhanbarthol Ysgol Fusnes Caerdydd, *Dysgu Gwella: Asesiad Annibynnol o Bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol*, Adroddiad Cyntaf, 2009.

awgrymwyd y gall y berthynas rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol gael ei threfnu mewn pedair ffordd wahanol iawn:

- ymreolaeth: gall Llywodraeth Cymru roi'r rhyddid i lywodraeth leol benderfynu ar ei pholisïau a'i harferion ei hun;
- gorchymyn: gall Llywodraeth Cymru geisio cymaint o atebolrwydd a rheolaeth â phosibl drwy offerynnau hierarchaidd;
- partneriaeth: gall Llywodraeth Cymru geisio meithrin cydberthnasau cydweithredol drwy ymhelaethu ar nodau cyffredin a chyfnewid adnoddau'n wirfoddol;
- cystadleuaeth: gall Llywodraeth Cymru geisio meithrin effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd drwy annog cystadleuaeth rhwng darparwyr gwasanaethau cyhoeddus sy'n cystadlu â'i gilydd.

**3.16** Mae'r trefniadau ar gyfer gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal wedi cynnwys elfennau o'r tri dull gweithredu cyntaf. Rhwng 1999 a 2004, ymgymerodd Llywodraeth Cymru â rôl arwain drwy lythyr yr Ysgrifennydd Gwladol, targedau cenedlaethol, ffrydiau ariannu, a systemau ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Gweithredu Rheoli Rhoi Plant yn Gyntaf. Fodd bynnag, wedi hynny, bu mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth lle mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi awdurdodau lleol yn eu rôl fel rhieni corfforaethol. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi arwain at Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a phartneriaid eraill yn datblygu strategaeth gyffredinol sy'n dwyn ynghyd bolisïau a chynlluniau a ddatblygwyd dros amser na mesurau canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru. Mae'r diffyg hwn wedi creu gwendid yn y fframwaith cyffredinol ar gyfer sicrhau gwelliant ac nid oes unrhyw gynllun gweithredol cyffredinol i ddwyn y llu o ddatblygiadau gwahanol ynghyd a'u cysylltu â chyfres gyffredin o ganlyniadau.

### Mae nifer o gynlluniau a dogfennau yn cynnwys elfennau o gynllunio ar y cyd ond nid oes fframwaith cynllunio cydlynol na chynhwysfawr sy'n cwmpasu'r asiantaethau perthnasol a'r lefelau perthnasol o'r llywodraeth

**3.17** Disgwylir i awdurdodau lleol, naill ai fel sefydliadau unigol neu ar y cyd â phartneriaid, lunio cyfres o gynlluniau strategol a gweithredol sy'n cael eu cymeradwyo ar ryw lefel gan Lywodraeth Cymru neu y mae angen ymgynghori â Llywodraeth Cymru yn eu cylch. Ymhlith y rhain mae:

- Cynlluniau Gweithredu Rheoli Rhoi Plant yn Gyntaf (hyd at 2005-06); Cynigion ar gyfer defnyddio arian grant Rhagori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal (2006-2011); Cynigion ar gyfer y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion – Plant sy'n Derbyn Gofal Cynigion 2011-2014;
- Cytundebau Gwella (2008-2010) a Chytundebau Canlyniadau (2010-2013);
- Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc 2008-2011 a 2011-2014;
- cynlluniau datblygu'r Rhwydwaith 14-19.

**3.18** Fodd bynnag, er y gall pob un o'r rhain gynnwys elfennau o gynllunio ar y cyd, nid oes yr un yn gynllun cyflawni ar y cyd sy'n croesi ffiniau llywodraeth ganolog a llywodraeth leol ac asiantaethau eraill ac sy'n nodi'r ystod o ddisgwyliadau ar gyfer y prif ffactorau sy'n ymwneud ag addysg plant sy'n derbyn gofal. Mewn rhannau eraill o'r DU aethpwyd ati mewn ffyrdd gwahanol; yn yr Alban, er enghraifft, aethpwyd ati i ddatblygu fframwaith polisi a threfniadau ar y cyd (Ffigur 16).



**Ffigur 16 - Mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a nifer o bartneriaid i roi fframwaith polisi cyffredin ar waith a chefnogi trefniadau i hyrwyddo gwell deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal**

Mae fframwaith polisi cyffredin ar gyfer gweithio gyda phlant yn yr Alban ar waith: mae *Getting It Right For Every Child* yn ymwneud â rhychwant eang o asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau i blant a'u teuluoedd ac mae cyfres o werthoedd ac egwyddorion a rennir yn hanfodol i'w lwyddiant. Bwriedir i'r gwerthoedd helpu unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n chwarae rhan yn y gwaith o hybu lles plant i fyfyrio a herio ei hun ac mae'n cynnig sylfaen ddefnyddiol ar gyfer ymgysylltu trawsasiantaethol. Mae gwerthoedd tebyg yn sail i adroddiadau polisi cenedlaethol o'r enw: *We Can and Must Do Better* a'r *National Residential Child Care Initiative* sy'n cymhwyso'r dull gweithredu ar y cyd at blant sy'n derbyn gofal yn fwy penodol.

Yn yr Alban, arweiniodd yr adroddiadau a grybwyllir uchod at sefydlu uned ar y cyd i ddatblygu polisi, hyfforddiant a nodi arfer da. Fe'i lleolwyd o fewn Llywodraeth yr Alban i ddechrau ond mae wedi trosglwyddo i CELCIS, y Ganolfan er Rhagoriaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr Alban a sefydlwyd yn 2011, ym Mhrifysgol Strathclyde (http://www.celcis.org). Mae'r Ganolfan hefyd yn gartref i Grŵp Gweithredu Strategol Plant sy'n Derbyn Gofal a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban. Mae'r datblygiadau hyn yn cynnwys aelodau a chyfranogiad gan Lywodraeth yr Alban, awdurdodau lleol, prifysgolion, sefydliadau gwirfoddol perthnasol, a Gweinyddiaeth Cofnodwr Plant yr Alban (sy'n chwarae rhan bwysig yng nghyfundrefn gyfreithiol yr Alban). Ymhlith ei gweithgareddau eraill mae CELCIS hefyd yn trefnu cyrsiau a digwyddiadau gan gynnwys hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o staff, rheolwyr a Chynghorwyr ym maes ‘Improving the Educational Outcomes of Our Looked After Children and Young People’ a materion perthnasol eraill.

*Ffynhonnell: Y Ganolfan er Rhagoriaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn yr Alban, http://www.celcis.org*

# Rhan 4 – Mae gwelliant wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad er y bydd newidiadau diweddar i gynyddu cydweithredu rhanbarthol yn cynnig cyfleoedd i sicrhau gwell deilliannau o bosibl

## Mae'r gwaith o sicrhau gwell deilliannau wedi'i danseilio gan wendidau mewn rhianta corfforaethol a rheoli perfformiad, diffyg atebolrwydd, a diffyg gwerthuso

### Mae Rhianta Corfforaethol yn datblygu ond nid yw'n gwbl effeithiol eto

**4.1** Pwysleisiwyd y disgwyliadau ar ‘rieni corfforaethol’ yn y rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf o 1999-2006. Mae Llywodraeth Cymru a CLILC wedi pwysleisio pwysigrwydd rôl y rhiant corfforaethol yn yr arweiniad i gynghorwyr ‘Pe bai'n blentyn i mi...’ a gyhoeddwyd yn 2005 (ac a ddiweddarwyd yn 2009). Noda mai ’swyddogaeth y rhiant corfforaethol yw ceisio’r un canlyniadau ar gyfer plant mewn gofal cyhoeddus ag y byddai pob rhiant da’n eu dymuno ar gyfer ei blant ei hun. Mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd gyfreithiol a moesol i roi cefnogaeth fel hyn i’r plant sy'n derbyn ei ofal’. Mae deunydd hyfforddi a baratowyd gan CLILC a'r Rhwydwaith Maethu i ategu'r arweiniad yn nodi cyfrifoldebau'r swyddogaeth anodd a heriol hon gan gynnwys y gofyniad i flaenoriaethu anghenion plant sy'n derbyn gofal yn y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor (Ffigur 17).

**4.2** Nid yw rhianta corfforaethol yn syml: noda papur briffio ar rianta corfforaethol ‘the concept of corporate parenting is inherently paradoxical: good parenting demands continuity, but organisations by their nature are continuously changing. Members of staff move on, elected members change, structures change, procedures change... One challenge of being a good corporate parent is to manage these changes while giving each individual child or young person a sense of stability.'[77]

**4.3** Ym mis Mehefin 2007, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*[78] a roddodd ddyletswyddau newydd ar awdurdodau lleol, y cyrff iechyd a phartneriaid eraill i wella iechyd, lles ac

**Ffigur 17 - Mae Llywodraeth Cymru a CLILC wedi nodi prif gyfrifoldebau rhieni corfforaethol**

- i flaenoriaethu anghenion plant sy'n derbyn gofal wrth wneud penderfyniadau;
- derbyn cyfrifoldeb am eu lles a'u datblygiad yn y dyfodol;
- dod o hyd i ffyrdd o gefnogi eu twf a'u cyrhaeddiad;
- sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau;
- sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei glywed.

*Ffynhonnell: Modiwl Hyfforddi Rhianta Corfforaethol , CLILC a'r Rhwydwaith Maethu, Hydref 2009*

77 Brîff gan CELCIS ar rianta corfforaethol http://www.celcis.org/index.php/looked_after_children/corporate_parenting/

78 Llywodraeth Cymru, *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell*, 2007.



addysg plant sy'n derbyn gofal. Darparodd ganllawiau a rheoliadau newydd gan adeiladu ar y pwerau o dan Ddeddf Plant 2004 i sicrhau bod pob asiantaeth yn cydweithredu ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol yn llawn.

**4.4** Er bod *Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell* yn nodi rheoliadau manwl ym mis Medi 2008, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol at gynghorwyr ac uwch swyddogion mewn llywodraeth leol i bwysleisio pwysigrwydd cyfrifoldebau rhiant corfforaethol. Roedd y llythyr yn cynnwys y rhestr o gwestiynau y dylai cynghorwyr ddisgwyl cael atebion iddynt (Ffigur 18).

**4.5** Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu grwpiau neu bwyllgorau rhianta corfforaethol, er bod y rhain yn amrywio o ran aelodaeth a'r ffordd y maent yn cysylltu â strwythurau ffurfiol pob cyngor. Fodd bynnag, mae a wnelo rhianta corfforaethol â diwylliant llawn cymaint â strwythurau. Gall blaenoriaethu anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal fod yn anodd i swyddogion a chynghorwyr sydd hefyd yn gyfrifol am reoli'r cyllidebau a'r gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac eraill mewn angen (Ffigur 19).

**Ffigur 18 - Ym mis Medi 2008, ysgrifennodd y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gynghorwyr yn eu hatgoffa am y cwestiynau ynghylch plant sy'n derbyn gofal y dylent ddisgwyl cael atebion iddynt**

- A yw plant yn ddiogel?
- A oes ganddynt gartrefi da mewn amgylchedd diogel a gofalgar?
- A ydynt yn cael eu lleoli o fewn ardal yr awdurdod lleol, yn agos i'w cartrefi a'u cymunedau; os nad ydynt, pam?
- A ydynt yn cael addysg dda?
- A ydynt yn cefnu ar ymddygiad gwrthgymdeithasol?
- A ydynt yn iach?
- A ydynt yn ffynnu ac yn datblygu'n gymdeithasol ac yn emosiynol fel y dylent?
- A ydym yn rhoi digon o gymorth iddynt ymdopi â'r problemau sydd ganddynt wrth dyfu i fyny?
- Pa mor dda rydym yn eu paratoi ar gyfer y broses bontio i fyd oedolion?
- A ydym yn ddigon uchelgeisiol ar eu rhan?
- A ydym yn eu helpu i gyflawni hyd eithaf eu gallu?
- A oes gennym uchelgeisiau mawr iddynt ac a ydym yn dangos ein bod yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau?
- A allwn eu helpu i ymdopi â'u methiannau?
- A allwn ymdopi â'r problemau y maent yn eu hachosi i ni?

*Ffynhonnell: Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gynghorwyr yng Nghymru, 29 Medi 2008*

**Ffigur 19 - Cynhaliodd Bwrdd Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Cyngor Abertawe adolygiad 'Care to help' – gyda'r nod o atgyfnerthu rôl rhianta corfforaethol Cynghorwyr**

Ystyriodd Bwrdd Trosolwg a Chraffu Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Dinas a Sir Abertawe enghreifftiau o arfer da gan awdurdodau lleol eraill yn Lloegr ac mewn rhannau eraill o Gymru, gan gynnwys Casnewydd, Sir Ddinbych a Sir Gaerfyrddin. Er enghraifft, sefydlodd Sir Ddinbych fforwm i Gynghorwyr ym mis Mai 2007 a chychwyn y gwaith o ddatblygu llywodraethwyr ysgol fel rhieni corfforaethol. Ymwelodd cynghorwyr â phlant yn eu cartrefi er mwyn gweld y cymorth a gynigiwyd i blant sy'n derbyn gofal a deall heriau gweithio mewn amgylchedd o'r fath. Yn dilyn yr ymweliadau, aeth y cynghorwyr ati i drafod y ffyrdd y gallent gyflawni eu dyletswyddau fel rhieni corfforaethol.

Argymhellodd y Bwrdd fod cyfrifoldebau rhianta corfforaethol allweddol yn cael eu cynnwys yn y disgrifiadau rôl ar gyfer cynghorwyr, mewn pecynnau enwebu ac ymsefydlu yn ogystal â chynnig hyfforddiant ac arweiniad i rianta corfforaethol. Rhoddir gwybodaeth am berfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn rheolaidd i gynghorwyr. Argymhellodd y Bwrdd hefyd y dylid diwygio'r cylch gorchwyl ar gyfer y fforwm Rhianta Corfforaethol i roi mwy o ffocws ar ymgorffori'r agenda rhianta corfforaethol ar draws y Cyngor, drwy graffu a monitro perfformiad. Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Mawrth 2011, ac mae cynllun gweithredu yn cael ei lunio i ddatblygu'r argymhellion.

*Ffynhonnell: Gwahaniaeth er gwell – adroddiad perfformiad blynyddol, 2010-11, Dinas a Sir Abertawe, paragraffau 7.4-7.6*

**4.6** Gwelsom fod adroddiadau i grwpiau rhianta corfforaethol yn aml yn cynnwys gwybodaeth annigonol am ddeilliannau gan gynnwys cyrhaeddiad addysgol. Pan ddarperir gwybodaeth, gall nodi'r cymorth a roddir ond yn aml nid yw'n cynnig fawr ddim tystiolaeth na her i asesu pa gymorth y gellid bod wedi'i roi i sicrhau gwell deilliannau.

**4.7** Yn ei adroddiad yn 2011 ar brofiad y rhai sy'n gadael gofal[79], canfu Comisiynydd Plant Cymru, er y gall llawer o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ffynnu gyda chymorth gofalwyr maeth, gweithwyr proffesiynol a rhieni corfforaethol, mae llawer yn methu â llwyddo mewn bywyd ar ôl gofal. Yn yr adroddiad, galwodd ar awdurdodau lleol i ddatblygu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig drwy'r awdurdod cyfan, gan gynnwys adrannau gwasanaethau cymdeithasol, addysg, tai ac adrannau perthnasol eraill er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n symud ymlaen i fyw'n annibynnol yn cael cymorth a chyngor o'r safon uchaf i ddiwallu eu holl anghenion. Cydnabu hefyd fod angen i awdurdodau lleol weithio gyda darparwyr gwirfoddol a phreifat i ddarparu gwasanaethau effeithiol.

**4.8** Mewn rhai awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr, mae uwch swyddogion yn cymryd diddordeb uniongyrchol yng nghynnydd un neu ddau o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal drwy fentrau megis 'Hyrwyddwyr Addysg' (Ffigur 20).

## Mae trefniadau rheoli perfformiad yn aml yn anfoddhaol

**4.9** Er mwyn bod yn rhieni corfforaethol effeithiol mae angen i gynghorwyr gael dealltwriaeth dda o'r plant yng ngofal yr awdurdod, eu cynnydd, a'u hanghenion. Ac eto, nid yw llawer o awdurdodau lleol yn rhoi'r wybodaeth

79 Comisiynydd Plant Cymru, *Ar Goll Ar ôl Gofal*, Gorffennaf 2011.



**Ffigur 20 - O dan gynlluniau Hyrwyddwyr Addysg mae uwch arweinwyr yn cefnogi cynnydd plant unigol sy'n derbyn gofal**

Mae'r fenter 'Hyrwyddwyr Addysg' yn cynnig un ffordd o annog cynghorwyr ac uwch swyddogion yn yr awdurdod lleol i fynd ati i gefnogi plant sy'n derbyn gofal yn fwy gweithredol. Cafodd y fenter hon ei datblygu mewn rhai awdurdodau lleol yn Lloegr ac mae wedi cael ei mabwysiadu yng Nghymru gan Gyngor Sir Ddinbych. Mae pob aelod o'r Tîm Gweithredol Corfforaethol yn dod yn 'Hyrwyddwr Addysg' dros ddisgybl blwyddyn 11 sy'n derbyn gofal. Maent yn gweithredu fel 'rhiant sy'n dangos gofal' ac yn olrhain cynnydd a datblygiad y person ifanc mewn perthynas ag addysg a deilliannau allweddol eraill. Maent yn cysylltu'n rheolaidd â phobl allweddol sy'n gweithio gyda'r person ifanc - athrawon, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a gweithwyr iechyd proffesiynol - i ofyn cwestiynau, herio cynnydd a cheisio dileu unrhyw rwystrau i gyflawni.

fanwl i gynghorwyr ac uwch swyddogion perthnasol i ateb y cwestiynau y mae Gweinidogion (gweler paragraff 4.4) neu ganllawiau Llywodraeth Cymru (paragraff 2.26) yn awgrymu y dylai cynghorwyr a rhieni corfforaethol eu gofyn. Gwelsom hefyd fod diffyg prosesau herio neu graffu effeithiol mewn rhai awdurdodau lleol. Mewn llawer o awdurdodau lleol, roedd adroddiadau ar ddeilliannau addysgol plant a oedd yn derbyn gofal yn annigonol: weithiau dim ond gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad statudol a gynhwyswyd mewn adroddiadau, heb fawr ddim sylwadau neu weithiau nid oeddent yn cynnwys gwybodaeth am blant wedi'u lleoli y tu allan i ardal yr Awdurdod. Roedd rhai awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiadau ar gyrhaeddiad gwirioneddol unigolyn heb gyfeirio at y deilliannau a ragwelwyd ar ei gyfer ac felly'n cyfyngu ar y gallu i lunio asesiad realistig o gynnydd. Yn aml roedd adroddiadau yn priodoli perfformiad gwan i'r nifer fach o blant mewn carfan.

**4.10** Roedd y gwendidau o ran rheoli perfformiad ar lefel awdurdod lleol yn aml yn gwrthgyferbynnu â'r wybodaeth fanwl a oedd gan dimau gwasanaethau addysg plant sy'n derbyn gofal, yr oedd rhai ohonynt yn gweithio gyda phlant a oedd yn derbyn gofal mewn ffordd greadigol ac effeithiol. Mewn rhai achosion, teimlai aelodau tîm fod disgwyl iddynt roi gwybodaeth gadarnhaol am y plant a oedd yn derbyn gofal ond roeddent yn teimlo rhwystredigaeth nad oedd digon o sylw yn cael ei roi i'r ffordd y gellid gwneud gwelliannau pellach drwy leihau nifer y symudiadau o un lleoliad i'r llall a oedd yn amharu ar addysg neu drwy ymestyn faint o gymorth a oedd ar gael.

### Mae rhai awdurdodau lleol a rhieni corfforaethol wedi defnyddio adnoddau hunanasesu i nodi eu cryfderau a'u gwendidau a llunio cynlluniau gwella

**4.11** Mae sawl sefydliad wedi datblygu adnoddau hunanasesu i helpu awdurdodau lleol a rhieni corfforaethol i asesu eu gwasanaethau cyfredol a datblygu cynlluniau gwella. Gwelsom y gall hunanasesiad godi ymwybyddiaeth o gryfderau a gwendidau a phan gaiff ei gynnal ar y cyd ar draws adrannau a'r sefydliad cyfan gall nodi ffyrdd o gydweithio i wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal:


- Paratôdd y Comisiwn Archwilio becyn cymorth i awdurdodau lleol yn 2003-04, sydd wedi cael ei ddiweddaru, yn fwyaf diweddar ym mis Chwefror 2010[80]. Mae'n cynnwys adnodd hunanasesu i helpu asiantaethau i asesu eu sefyllfa yn erbyn safonau ar gyfer y materion allweddol yn ogystal ag adnoddau i gynnal arolwg o blant sy'n derbyn gofal, cyfrifiad o

80 Y Comisiwn Archwilio, *Education of looked after children toolkit*, Chwefror 2010, http://www.audit-commission.gov.uk/localgov/audit/childrenandyoungpeople/lactoolkit/pages/default.aspx

bresenoldeb disgyblion, olrhain achosion a datblygu cynlluniau gweithredu. Aethom ati i weithio gyda chwe awdurdod lleol a ddefnyddiodd y pecyn cymorth ac a nododd ei fod yn fuddiol. I rai, bu'n sail i gynlluniau gweithredu i wella gwasanaethau.

- Yn yr Alban, mae Arolygiaeth Addysg Ei Mawrhydi wedi paratoi adnodd defnyddiol ar gyfer hunanasesu perfformiad yn erbyn cyfres o ddangosyddion ansawdd (Ffigur 21)[81]. Yn 2011, daeth yr Arolygiaeth yn rhan o Education Scotland, y corff cenedlaethol allweddol sy'n hybu ansawdd a gwelliant ym maes addysg yr Alban.

**Ffigur 21 - Mae Education Scotland wedi paratoi adnodd sy'n asesu perfformiad yn erbyn cyfres o ddangosyddion ansawdd**




81 Ffynhonnell: Education Scotland, Improving services for children. *How good is our corporate parenting? How good can we be?* 2009.



**Ffigur 22 - Mae'r Ganolfan er Rhagoriaeth yng Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (C4EO) wedi annog rhieni corfforaethol i ofyn saith cwestiwn i'w helpu i asesu amcanion a pherfformiad a'u helpu i gynllunio**

- Beth yw eich gweledigaeth ar gyfer gwella bywydau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn eich ardal leol? Pa ddeilliannau (amodau ansawdd bywyd) rydych yn eu dymuno ar eu cyfer?
- Sut beth fyddai'r deilliannau pe baech yn gallu eu gweld neu eu profi?
- A sut y gallwch eu mesur?
- Beth yw'r sefyllfa ar hyn o bryd? Sut rydych yn gwneud ar hyn o bryd ar y mesurau pwysicaf?
- Pwy yw'r partneriaid gwella?
- Beth sy'n gweithio mewn gwirionedd i wella'r deilliannau a ddymunwch?
- Beth rydych yn bwriadu gwneud nesaf?

*Ffynhonnell: C4EO.org.uk, Vulnerable/looked after children – Director's Summary 4, Tachwedd 2009*

**4.12** Mae'r Ganolfan er Rhagoriaeth yng Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc (C4EO) wedi annog defnyddio cyfres o gwestiynau am Atebolrwydd sy'n seiliedig ar Ddeilliannau ac wedi rhoi canllawiau ar sut y gall awdurdodau lleol a phartneriaid asesu eu gwaith presennol a chynllunio ar gyfer gwella (Ffigur 22)[82].

### Ceir cyswllt rheolaidd rhwng timau Gwasanaethau Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ond mae systemau adborth a dysgu eraill yn annigonol

**4.13** Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi rhwydweithiau cenedlaethol a rhanbarthol swyddogion addysg plant sy'n derbyn gofal mewn awdurdodau lleol drwy ei swyddog sy'n cefnogi proses Grant Rhagori, ac erbyn hyn, yr elfen o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Bu'r rhain yn fforymau effeithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth am bolisi ac arfer gweithredol er nad yw pob awdurdod lleol yn cael ei gynrychioli'n rheolaidd yng nghyfarfodydd y rhwydwaith Gwasanaethau Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal ac nad yw'r swyddogion sy'n mynychu'r cyfarfodydd hyn ar lefel ddigon uchel yn aml i sicrhau bod awdurdodau lleol yn gweithredu ar wybodaeth. Caiff rhwydweithiau eraill ar gyfer grwpiau o swyddogion arbenigol (e.e. y rhai sy'n gyfrifol am anghenion addysgol arbennig) eu cefnogi drwy Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg a CLILC. Mae cyfarfodydd achlysurol Grŵp Rhanddeiliaid Llywodraeth Cymru ar Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal hefyd yn rhoi cyfle i drafod datblygiadau a rhannu gwybodaeth. Fodd bynnag, nid oes gan y Grŵp Rhanddeiliad systemau ar waith i ledaenu gwybodaeth yn fwy cyffredinol.

## Mae trefniadau cyflawni lleol, rhanbarthol a chenedlaethol newydd yn rhoi cyfleoedd i wella gwaith cynllunio cydgysylltiedig i sicrhau gwell deilliannau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal

### Gall llawer o bolisïau a mentrau Llywodraeth Cymru helpu i wella deilliannau plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal ond gellir gwneud rhagor i arwain a chydgysylltu gwelliannau

**4.14** Mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o gydgysylltu a chefnogi rhianta corfforaethol effeithiol. Fel y nodwyd eisoes, y Gweinidog Addysg sy'n gyfrifol am gyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal

82 C4EO - *What is OBA?* and *Vulnerable/Looked After Children – Director's Summary 4*, Tachwedd 2009, www.C4EO.org.uk

ond mae gan weinidogion a llawer o adrannau eraill gyfraniadau pwysig i'w gwneud ac nid oes unrhyw ddogfen gyhoeddedig sy'n dangos sut y gellir cydgysylltu rolau gwahanol adrannau a ffrydiau ariannu i roi'r cymorth mwyaf posibl i wella deilliannau plant sy'n derbyn gofal. Hefyd, ymddengys nad yw rhai datblygiadau polisi wedi eu cydnabod fel rhai sy'n berthnasol i blant sy'n derbyn gofal i ddechrau, er enghraifft, ni chafodd plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal eu cynnwys yng nghylch gwaith y fenter 'Ymgyrraedd yn Ehangach' ym maes addysg uwch ar y dechrau. Ymhlith y meysydd polisi sy'n berthnasol iawn i blant sy'n derbyn gofal mae:

- mentrau i leihau diweithdra;
- cefnogi ymgysylltiad a chyflogaeth pobl ifanc;
- trefniadau ar gyfer tai â chymorth a mynd i'r afael â digartrefedd;
- ehangu mynediad i addysg uwch;
- gwasanaethau integredig ar gyfer cymorth i deuluoedd;
- lleihau'r bwlch mewn cyrhaeddiad a'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion;
- cefnogi canlyniadau iechyd plant a phobl ifanc.

**4.15** Mae llawer o'r meysydd polisi hyn yn rhan o feysydd Strategaeth Tlodi Plant Cymru. Gallai'r Strategaeth gael ei datblygu i gydgysylltu polisïau i godi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn fwy penodol.

## Mae fframwaith newydd ar gyfer gweithredu polisi yn datblygu

**4.16** Mae trefniadau cyflawni newydd yn datblygu o ran gwasanaethau lleol ac ar gyfer cydberthnasau â Llywodraeth Cymru. Yn 2011, cyflwynodd dau grŵp annibynnol adroddiadau ar drefniadaeth gwasanaethau cymdeithasol[83] a gwasanaethau addysg[84] yng Nghymru. Mae'r adroddiadau hyn, a'r trafodaethau dilynol rhwng Gweinidogion, CLILC a chyrff perthnasol eraill, yn rhagweld y datblygir gwasanaethau a arweinir ar lefel ranbarthol sy'n cwmpasu agweddau ar addysg a gofal cymdeithasol, ynghyd â rhai agweddau eraill a gyflawnir yn genedlaethol ac eraill a gyflawnir yn lleol.

**4.17** At hynny, mae polisïau a strategaethau eraill yn ailddiffinio cydberthnasau awdurdodau lleol â Llywodraeth Cymru. Mae Strategaeth Tlodi Plant Cymru Llywodraeth Cymru yn nodi fframwaith sy'n gosod cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal o fewn polisi ehangach sydd â'r nod o leihau'r bwlch rhwng grwpiau o blant o dan anfantais a'u cyfoedion. Mae hyn yn ei dro yn rhan o'r strategaeth ehangach i leihau anghydraddoldebau mewn canlyniadau i blant.

**4.18** Y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion yw'r fframwaith polisi cyffredin ar gyfer trawsnewid safonau a darpariaeth addysgol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar wella llythrennedd a rhifedd a lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol. Mae'r canllawiau ar y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a'r Grant Amddifadedd Disgyblion ar gyfer 2012-13[85] yn nodi ar gyfer y flwyddyn gyntaf ers (2011-12) bod 'rhaid i adroddiadau consortia gynnwys canlyniadau rhagamcanol a gwirioneddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r gweithgareddau a gyflawnwyd i gynyddu lefelau cyrhaeddiad pob plentyn sy'n derbyn

83 Llywodraeth Cymru, *Lleol, rhanbarthol, cenedlaethol: pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?*, Mawrth 2011.

84 Llywodraeth Cymru, *Strwythur Gwasanaethau Addysg yng Nghymru: adroddiad grŵp gorchwyl a gorffen annibynnol*, Mawrth 2011.

85 Llywodraeth Cymru, *Canllawiau ar Grant Effeithiolrwydd Ysgolion a Grant Amddifadedd Disgyblion 2012-13*, Mawrth 2012.



gofal sy'n byw yn ardal y consortia lleol' ond nid oes gofyniad cyfatebol ar gyfer 2012-13 a 2013-14.

**4.19** Mae'r consortia rhanbarthol hefyd yn arwain y gwaith o ddatblygu gwasanaethau gwel ac effeithiolrwydd ysgolion yn rhanbarthol yn ystod 2012-13. Noda'r achos busnes llawn dros y gwasanaeth arfaethedig yng Ngogledd Cymru y caiff ymyriadau thematig, megis y rhai sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, eu cynnwys yng nghwmpas y gwasanaeth newydd. Noda'r achos busnes dros Wasanaeth Cyflawni Integredig De-ddwyrain Cymru y bydd perfformiad plant sy'n derbyn gofal ar bob cyfnod allweddol ymhlith y meini prawf llwyddiant sydd i'w hystyried yn gynyddol ar lefel consortia.

**4.20** Y consortia addysg rhanbarthol sy'n arwain y gwaith o roi'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ar waith. Mae'r Uned Safonau Ysgolion yn Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar weithredu polisïau. Mae'r Uned yn gyfrifol am fireinio'r defnydd a wneir o ddata, cryfhau atebolrwydd, sicrhau y caiff arfer mawr ei effaith ei rannu'n gyson a gwerthuso'r ffordd y gweithredir polisïau. Yn ei hadroddiadau cloriannu bob tymor mae'r Uned wedi canolbwyntio ar y bwlch rhwng disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim a disgyblion yn gyffredinol i ddechrau ond yn ystod 2012-13 bwriedir edrych yn fanylach ar grwpiau penodol o ddisgyblion gan gynnwys y plant sydd fwyaf agored i niwed a phlant sy'n derbyn gofal.

**4.21** Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig cysoni ardaloedd consortia addysgol â phartneriaethau rhanbarthol eraill a phennu iddynt yr un ffiniau â byrddau iechyd. Mae trafodaethau â chynrychiolwyr llywodraeth leol yn mynd rhagddynt ynghylch y fframwaith ar gyfer cydweithredu rhanbarthol a dylai hyn arwain at fwy o eglurder ynglŷn â rolau cenedlaethol a rhanbarthol yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau.

**4.22** Mae awdurdodau lleol yn parhau i ddatblygu eu partneriaethau a'u trefniadau cynllunio lleol. Mewn sawl ardal, maent yn datblygu strategaethau cymunedol symlach sydd hefyd yn bodloni gofynion y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc a chynlluniau statudol eraill.

**4.23** Mae'r datblygiadau hyn yn rhoi fframwaith newydd lle y bydd strategaethau cydgysylltiedig cliriach o bosibl ar gyfer pobl ifanc sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau. Ynghyd â chysoni ffrydiau ariannu, gallai'r newidiadau hyn sicrhau'r gydlyniaeth sydd ei hangen ar strategaethau a chynlluniau i wella deilliannau addysgol plant a phobl ifanc, gan gynnwys deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal. Efallai y bydd atebolrwydd a chyfrifoldebau cliriach ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol er nad yw hyn yn sicr a chaiff hyn ei lesteirio lle nad yw consortia addysgol a mathau eraill o gydweithredu rhanbarthol wedi'u cysoni â'i gilydd. Gallai gwahanol grwpiau rhanbarthol ar gyfer addysg ac iechyd a gofal cymdeithasol beri i brosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd fod yn fwy cymhleth. Erys y risg hefyd, er gwaethaf y ddyletswydd benodol ar awdurdodau lleol, na fydd plant sy'n derbyn gofal yn cael y sylw manwl sydd ei angen. Mae'n werth nodi nad yw'r adroddiad ar ad-drefnu gwasanaethau cymdeithasol na'r adroddiad ar ad-drefnu gwasanaethau addysg yn cyfeirio at addysg plant sy'n derbyn gofal yn eu hargymhellion.

**4.24** Mae'r rôl ehangach y disgwylir i gonsortia a phartneriaethau rhanbarthol ymgymryd â hi yn cynnig sawl cyfle, gan gynnwys gwella cydweithio a chyflawni ar y cyd â chyrff rhanbarthol eraill o bosibl. Gallai mwy o gydweithredu, er enghraifft, â byrddau iechyd arwain at ddatblygu gwasanaethau amlddisgyblaethol mwy effeithiol, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n

derbyn gofal. Ystyrid bod rhai awdurdodau lleol unigol yng Nghymru yn rhy fach i weithredu model y 'pennaeth ysgol rhithwir' (Ffigur 10). Fodd bynnag, gallai Penaethiaid Rhithwir weithredu'n fwy dichonadwy ar lefel ranbarthol o bosibl lle y gallai'r niferoedd mwy o blant sy'n derbyn gofal gyfiawnhau penodi pennaeth â digon o awdurdod i fonitro cynnydd plant sy'n derbyn gofal, ymgysylltu ag ysgolion a herio arfer lle nad yw arferion rhianta corfforaethol gorau i'w gweld.

4.25 Mae datblygu trefniadau rhanbarthol cadarn hefyd yn rhoi cyfle i nodi'r arfer gorau i gefnogi cyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac yna helpu pob awdurdod lleol i weithredu ar y lefel honno. Bydd cyfuno data ar lefel ranbarthol yn ei gwneud yn haws i gymharu gwybodaeth am berfformiad a'i chyhoeddi. Os bydd gan Lywodraeth Cymru, consortia a phartneriaethau rhanbarthol ddisgwyliadau mawr o well deilliannau ac os byddant yn sicrhau bod adnoddau priodol ar gael i fodloni'r disgwyliadau hyn, dylai hyn oresgyn rhai o'r anghysondebau y cyfeirir atynt yn gynharach drwy wella cyflawniad ym mhob rhanbarth.



# Atodiad 1 – Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| Plentyn sy'n derbyn gofal | Term a ddefnyddir yn Neddf Plant 1989 i ddisgrifio pob plentyn sy'n destun gorchymyn gofal, neu y darperir llety iddo ar sail wirfoddol am fwy na 24 awr. |
| Plant mewn angen | Mae'r term yn cynnwys grŵp ehangach o blant sy'n annhebygol o fod mewn cyflwr iechyd rhesymol neu ddatblygu'n rhesymol a pharhau i wneud felly heb gymorth gan wasanaethau cymdeithasol. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys plant ag anableddau a phlant ar y gofrestr risg. Mae Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru yn seiliedig ar gasglu data ar blant sy'n cael cymorth a ariennir o gyllidebau gwasanaethau cymdeithasol plant, gan gynnwys y rhai a gynorthwyir o fewn eu teuluoedd neu'n annibynnol, plant ar y gofrestr amddiffyn plant a phlant sy'n derbyn gofal. |
| Y rhai sy'n gadael gofal | Pobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Mae cyfrifoldeb ar awdurdodau lleol i gadw mewn cysylltiad â'r rhai sydd wedi gadael gofal a chynnig cymorth iddynt nes eu bod yn 21 oed neu'n hŷn os ydynt yn dal i fod mewn addysg neu hyfforddiant. |
| TGAU | Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd – arholiad sy'n cael ei sefyll ar ddiwedd Blwyddyn 11 fel arfer. |
| Sgôr pwyntiau ehangach | Mae'r sgôr pwyntiau ehangach yn cynnwys pob cymhwyster a gymeradwyir at ddefnydd cyn 16 yng Nghymru. |
| Sgôr pwyntiau wedi'i chapio | Cyfanswm y pwyntiau o'r wyth cymhwyster gorau a enillwyd. Mae effaith pobl ifanc sy'n ennill cryn nifer o gymwysterau ar gyfanswm y sgôr ehangach yn llai. |
| Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 2 (DPC) | Cyflawni lefel 4 neu'n uwch yn y pynciau craidd sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (gyfun). |
| Dangosydd Pynciau Craidd Cyfnod Allweddol 3 (DPC) | Cyflawni lefel 5 neu'n uwch yn y pynciau craidd sef Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth (gyfun). |
| GNVQ | Cymhwyster Galwedigaethol Cenedlaethol Cyffredinol. |

# Atodiad 2 – Methodoleg

## Adolygiad o lenyddiaeth

Adolygwyd amrywiaeth eang o ddogfennau polisi, strategaeth, ymchwil a chanllawiau Llywodraeth Cymru gennym yn ystod y gwaith hwn, ynghyd â gwaith ymchwil a chanllawiau perthnasol o ffynonellau eraill a data ystadegol o wledydd eraill y DU.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae sawl adroddiad seiliedig ar ymchwil wedi nodi'n eithaf cyson ffactorau sy'n gysylltiedig â gwella deilliannau addysgol plant sy'n derbyn gofal a chyfeirir at y rhain ym mharagraffau 2.30-2.32. Ymhlith yr adroddiadau pwysicaf mae:

1. *Darpariaeth Addysgol i Blant sy'n Derbyn Gofal: Adroddiad Arolygiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ac Estyn*, 2001 http://wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/socialservices/reportsenglish/children-e.pdf;jsessionid=P2MJTxyC8VjMhJ1TGh2QlPN31FN2gYlL4tk6nDMTrJJpBrT5GyCC!-1658114170?lang=cy

2. *A better education for children in care*, Adroddiad yr Uned Allgáu Cymdeithasol, 2003 https://www.education.gov.uk/publications/standard/publicationdetail/page1/SEU-Report

3. *Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i Gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal,* Cyhoeddiad ar y cyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yn seiliedig ar waith gwreiddiol gan yr Adran Addysg a Sgiliau ac Uned Wybodaeth Llywodraeth Leol), Mehefin 2009 http://ssia.wlga.gov.uk/media/pdf/2/g/corporate_parenting.pdf

4. Y Ganolfan er Rhagoriaeth a Chanlyniadau mewn Plant (C4EO) a Gwasanaethau Pobl Ifanc, *Directors' Summary 4 on Vulnerable/Looked After Children,* Tachwedd 2009, www.C4EO.org.uk

5. Education of Looked After Children toolkit, y Comisiwn Archwilio (diweddarwyd 2010) http://www.audit-commission.gov.uk/childrenandyoungpeople/lactoolkit/Pages/default.aspx



## Gwerthuso'r hyn a gyflawnir ar draws systemau cyflawni cymhleth

Wrth benderfynu ar gwmpas ein gwaith, ystyriwyd adroddiad 2006 y Swyddfa Archwilio Genedlaethol[86] a edrychodd ar ddarparu gwasanaethau drwy gadwyni cyflawni cymhleth yn y sector cyhoeddus. Mae hwn yn amlinellu ffactorau sydd eu hangen i ddarparu gwasanaethau'n effeithiol ac yn ceisio tystiolaeth o'r canlynol:

- deilliannau wedi'u diffinio'n glir;
- sylfaen dystiolaeth gadarn o'r hyn sy'n gweithio;
- digon o adnoddau a gallu, gan gynnwys adnoddau i gyflawni;
- cynllun gweithredol ar y cyd.

Mae'r adroddiad yn ystyried y gwahanol fathau o gydberthnasau rhwng y rhai sy'n ymwneud â sicrhau newid a'r angen am strategaeth ariannu i ddylanwadu ar weithgarwch yn unol â'r amcan. Er mwyn cefnogi prosesau cyflawni effeithiol yn llawn, mae'r adroddiad yn annog partneriaid i ystyried a oes ganddynt y canlynol:

- prosesau cyfathrebu a chydgysylltu da;
- ysgogiadau a chymhellion sy'n addas at y diben;
- risgiau sy'n cael eu deall a'u rheoli'n dda;
- systemau rheoli perfformiad effeithiol;
- arweinyddiaeth gadarn sy'n atebol drwy strwythurau llywodraethu eglur;
- systemau ar gyfer adborth a dysgu rheolaidd.

## Grŵp Cyfeirio

Sefydlwyd Grŵp Cyfeirio gan gynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, sefydliadau academaidd, cyrff gwirfoddol ac elusennol, sefydliadau sy'n cynrychioli plant sy'n derbyn gofal, a chyrff arolygu a rheoleiddio. Cawsom gymorth gan y grŵp hwn i bennu cwmpas ein hadroddiad a'n cyfeirio at ddeunydd a gweithgareddau perthnasol.

Roedd y grŵp cyfeirio yn cynnwys sefydliadau sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, ac sy'n eu cynrychioli. Rydym wedi ystyried safbwyntiau pobl ifanc drwy'r sefydliadau hyn ac o brosiectau ac astudiaethau ymchwil sydd wedi gweithio'n uniongyrchol gyda phlant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ac rydym wedi cynnwys dyfyniadau gwreiddiol perthnasol o'r deunydd hwn lle y bo'n briodol.

86 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol a'r Comisiwn Archwilio, *Delivering Efficiently: Strengthening the links in public service delivery chains,* Mawrth 2006. http://www.nao.org.uk/publications/0506/delivering_efficiently-strengt.aspx

## Ymchwilio i'r gwasanaethau a ddarperir mewn awdurdodau lleol

Gwnaeth chwe awdurdod lleol fynychu gweithdai, cynnal hunanasesiad a rhoi gwybodaeth am eu darpariaeth addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Yr awdurdodau lleol a gymerodd ran oedd:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Gwynedd
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Powys
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

## Ffynonellau o wybodaeth am arfer da

Defnyddiwyd nifer o ffynonellau o wybodaeth am arfer da ym maes gwella addysg plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal gan gynnwys:

Arfer Da Cymru:
http://www.goodpracticewales.com/Home.aspx

Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth: plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a phlant wedi'u mabwysiadu
http://www.scie.org.uk/publications/guides/guide40/index.asp

Canolfan er Rhagoriaeth a Chanlyniadau yng Ngwasanaethau Plant a Phobl Ifanc
http://www.c4eo.org.uk/themes/vulnerablechildren/educationaloutcomes/resources.aspx?priorityid=7&accesstypeid=1

Sefydlwyd yr Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2006 i helpu awdurdodau lleol i gyflymu'r broses wella a hyrwyddo rhagoriaeth o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Fe'i cynhelir gan CLILC. Mae'n darparu crynodeb o arfer nodedig.
http://www.ssiacymru.org.uk/media/pdf/1/l/100406_Getting_Engaged_Notable_Practice_Compendium.pdf

Cyhoeddodd CLILC (2011) grynodeb o arfer nodedig mewn perthynas â rhianta corfforaethol
http://www.ssiacymru.org.uk/media/pdf/o/8/WLGA_NOTABLE_PRACTICE__COMPENDIUM_CORPORATE_PARENTING_2011.pdf



# Atodiad 3 – Plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru

Diffinnir disgwyliadau ynglŷn ag addysg plant sy'n derbyn gofal mewn deddfwriaeth a Chanllawiau:

*'Plant sy'n derbyn gofal yw'r plant y mae'r awdurdod lleol yn gofalu amdanynt dan orchymyn gofal a wneir gan lys neu drwy gytundeb â'u rhiant/rhieni, boed hynny mewn cartref preswyl, gydag aelodau eraill o'u teulu estynedig neu gyda gofalwyr maeth.'* [87]

Pan fydd plentyn yn derbyn gofal, yr awdurdod lleol sydd â chyfrifoldeb rhiant, neu caiff y cyfrifoldeb ei rannu â'r rhieni geni neu eraill. Dyma rianta corfforaethol. Mae Deddf Plant 1989[88] yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles plant sy'n derbyn gofal; gan ymddwyn fel y gwna rhieni da. Mae'r ddyletswydd hon yn gymwys i bob cynghorydd. Mae cyfrifoldeb rhianta corfforaethol yn cynnwys y rhai sy'n gadael gofal yn ogystal â phlant sy'n derbyn gofal. Cyflwynwyd dyletswyddau statudol ychwanegol ar gyfer cynghorwyr yn Neddf Plant 2004[89] sy'n gosod dyletswydd gadarnhaol ar awdurdodau lleol i hyrwyddo cyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. O dan Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008[90] diwygiwyd y system ofal ymhellach i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gofal a chymorth o safon uchel ac i ysgogi gwelliannau mewn gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar anghenion y plentyn, gan roi blaenoriaeth i wella profiad a chyrhaeddiad addysgol.

Ar 31 Mawrth 2011, roedd 5,415 o blant yn derbyn gofal mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, sef cynnydd o bump y cant ers y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu 20 y cant yn ystod y pum mlynedd diwethaf, sef cyfradd ar hyn o bryd o 87 fesul 10,000 o'r boblogaeth o blant o dan 18 oed, o gymharu â 55 fesul 10,000 yn Lloegr. Daeth 1,885 o blant yn rhan o'r system ofal yn 2010-11. Y prif reswm pam bod gwasanaethau cymdeithasol wedi dod i gysylltiad â'r plant hyn i ddechrau oedd cam-drin neu esgeulustod (Ffigur 24). Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi cynyddu bob blwyddyn ers 1998. Mae cyfradd y plant sy'n derbyn gofal fesul 10,000 o'r boblogaeth o blant o dan 18 oed yng Nghymru wedi cynyddu o 45 yn 1997 i 87 yn 2011.

Mae'r rhan fwyaf (80 y cant) o blant sy'n derbyn gofal mewn lleoliadau gofal maeth, ond mae naw y cant arall yn byw gyda'u rhieni, neu berson arall sydd â chyfrifoldeb rhiant, yn aml aelod o'r teulu. Mae tri chwarter o oedran ysgol ac mae dros hanner (55 y cant) yn 10 oed neu drosodd. Mae chwech y cant o blant sy'n derbyn gofal yn dod o gefndir nad yw'n gefndir gwyn, o gymharu â 2.7 y cant o'r boblogaeth gyffredinol yng Nghymru. Mae pump y cant o blant sy'n derbyn gofal yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru, yn bennaf yn Lloegr.

Mae tua dau o bob tri phlentyn sy'n derbyn gofal yn destun Gorchymyn Gofal sy'n rhoi'r cyfrifoldeb cyfreithiol i gyngor, ar ei ben ei hun neu ar y cyd ag eraill, ymgymryd â chyfrifoldeb rhiant am y plant. Mae 27 y cant arall yn derbyn gofal o dan gytundeb gwirfoddol â'u rhieni tra bod niferoedd bach yn derbyn gofal o dan ddarpariaethau cyfreithiol eraill neu eu bod ar remand (Ffigur 23).

87 Llywodraeth Cymru a CLILC, *Pe bai'n blentyn i mi: Arweiniad i Gynghorwyr ynghylch bod yn rhiant corfforaethol da i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal,* Mehefin 2009, paragraff 1.1.

88 Y Llyfrfa, *Deddf Plant 1989*, adran 22.

89 Y Llyfrfa, *Deddf Plant 2004*, adran 52.

90 Y Llyfrfa, *Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008*, adrannau 20-23.

### Ffigur 23 - Lleoliadau plant sy'n derbyn gofal, ar 31 Mawrth 2011[1]

| | Nifer | % |
|---|---|---|
| Lleoliadau gofal maeth | 4,311 | 80 |
| Wedi'u lleoli gyda'u rhieni eu hunain gyda chyfrifoldeb rhiant | 498 | 9 |
| Cartrefi diogel, cartrefi i blant neu hostelau | 214 | 4 |
| Wedi'u rhoi i'w mabwysiadu | 183 | 3 |
| Byw'n annibynnol | 68 | 1 |
| Ysgolion preswyl | 67 | 1 |
| Lleoliadau eraill[2] | 78 | 1 |
| **Tri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2011** | **499** | **9** |

Nodiadau:

1 Nid yw'n cynnwys plant ar leoliadau byrdymor

2 Mae lleoliadau eraill yn cynnwys cartref gofal preswyl, GIG/Ymddiriedolaeth Iechyd, canolfan deuluol neu uned mamau a'u babanod, Sefydliad Troseddwyr Ifanc neu nid yw'n hysbys ble y maent

*Ffynhonnell: Adoptions, outcomes and placements for children looked after by local authorities: Year ending 31 March 2011, Tabl 1 http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/110915sdr1662011en.pdf*



Mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu nifer o anawsterau. Y prif reswm pam y gwnaeth gwasanaethau cymdeithasol ddod i gysylltiad yn y lle cyntaf â'r plant sy'n derbyn yn gofal oedd oherwydd achos o gam-drin neu esgeulustod ar gyfer 59 y cant o blant. Daw 26 y cant o blant sy'n derbyn gofal o deuluoedd sydd mewn gofid mawr neu drafferthion. Yn ôl ymchwil gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru[91] aseswyd bod gan 49 y cant o sampl o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru anhwylder meddyliol, gan gynnwys salwch meddwl neu anhwylder emosiynol neu ymddygiadol. Yn ôl Cyfrifiad Plant mewn Angen 2011 roedd gan 64 y cant o blant a oedd yn derbyn gofal ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu roeddent yn dod o dan y categorïau Gweithredu gan yr Ysgol neu Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy (Ffigur 24).

## Ffigur 24 - Nodweddion plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2011

| | % |
|---|---|
| **Oedran**[1] | |
| O dan flwydd oed | 5 |
| 1-4 oed | 20 |
| 5-9 oed | 21 |
| 10-15 oed | 39 |
| 16-17 oed | 15 |
| 18-20 oed | 1 |
| **Angen sylfaenol plant sy'n dechrau derbyn gofal**[2] | |
| Cam-drin neu esgeulustod | 59 |
| Salwch, anabledd neu straen rhiant | 8 |
| Teulu o dan straen fawr neu mewn trafferthion | 26 |
| Ymddygiad cymdeithasol annerbyniol | 5 |
| Arall | 2 |
| **Darpariaeth addysgol arbennig**[1] | |
| Dim anghenion addysgol arbennig | 36 |
| Gweithredu gan yr ysgol neu weithredu gan yr ysgol a mwy | 43 |
| Datganiad anghenion addysgol arbennig | 21 |

*Nodiadau*
1 *Ystadegau Cymru, Cyfrifiad Plant mewn angen Cymru, 2011 SDR 32/2012, Chwefror 2012*
*http://wales.gov.uk/docs/statistics/2012/120229sdr322012en.pdf*
2 *Ystadegau Cymru, Adoptions, Outcomes and Placements for Children Looked After by Local Authorities: year ending 31 March 2011, SDR 116/2011, Medi 2011*
*http://wales.gov.uk/docs/statistics/2011/110915sdr1662011en.pdf*

91 *The mental health of young people looked after by local authorities in Wales: 2003*, Swyddfa Ystadegau Cymru.

# Atodiad 4 – Data addysg plant sy’n derbyn gofal yn ôl awdurdodau lleol yng Nghymru

Ceir amrywiad sylweddol rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru o ran cyfran y plant sy'n derbyn gofal ac sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig ar wahanol gyfnodau drwy gydol eu haddysg. Gellir priodoli rhywfaint o'r amrywiad hwn i'r nifer fach o blant sy'n derbyn gofal mewn rhai awdurdodau lleol: er enghraifft ledled Cymru, dim ond 250 o blant oedd yn gymwys i gael eu hasesu ar Gyfnod Allweddol 2 a 313 ar Gyfnod Allweddol 3 yng Nghymru yn 2010-11.

## Ffigur 25 - Deilliannau plant sy'n derbyn gofal yn ôl ardal awdurdod lleol

| | Nifer y plant sy'n derbyn gofal, ar 31 Mawrth 2011 [1] | Nifer y plant o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2011 [2] | % y sesiynau y gallai plant yn yr ysgol gynradd sy'n derbyn gofal fod wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ysgol ddiweddaraf pan oeddent mewn gofal ond ni wnaethant eu mynychu [3] | % y sesiynau y gallai plant yn yr ysgol uwchradd sy'n derbyn gofal fod wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ysgol ddiweddaraf pan oeddent mewn gofal ond ni wnaethant eu mynychu [4] | % y plant cymwys sy'n cyrraedd y lefel ofynnol ar Gyfnod Allweddol 2 yn ôl asesiad athro [5] | % y plant cymwys sy'n cyrraedd y lefel ofynnol ar Gyfnod Allweddol 3 yn ôl asesiad athro [6] | % y rhai 16-19 oed sy'n gadael gofal ac sy'n ennill o leiaf un cymhwyster (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol)[7] | % y rhai 16-19 oed sy'n gadael gofal ac sy'n ennill 5 TGAU graddau A*-G neu fwy [8] | Nifer gyfartalog y pwyntiau a sgoriwyd mewn cymwysterau allanol gan blant 15 oed a oedd yn derbyn gofal ar 31 Awst [9] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymru** | **5415** | **3503** | **5.8** | **9.9** | **44** | **22** | **71** | **35%** | **183** |
| Ynys Môn | 80 | 46 | 6.8 | 16.9 | 33 | 50 | 82 | * | 172 |
| Gwynedd | 175 | 113 | 3.7 | 12.4 | 40 | 31 | 40 | 33 | 188 |
| Conwy | 165 | 134 | 3.7 | 7.4 | 80 | 33 | 96 | 44 | 219 |
| Sir Ddinbych | 175 | 106 | 4.9 | 8.9 | 50 | 20 | 73 | * | 193 |
| Sir y Fflint | 160 | 121 | 3.3 | 7.5 | 0 | 25 | * | * | * |
| Wrecsam | 160 | 99 | 7.6 | 9.2 | 33 | 13 | 69 | * | * |
| Powys | 170 | 114 | 2.7 | 5.2 | 50 | 50 | 91 | 45 | 183 |
| Ceredigion | 80 | 53 | 0.9 | 10.5 | 60 | 0 | 50 | 38 | 72 |
| Sir Benfro | 155 | 102 | 3.6 | 10.3 | 36 | 29 | 85 | 39 | 179 |
| Sir Gaerfyrddin | 260 | 176 | 4.1 | 9.4 | 36 | 10 | 70 | 40 | 158 |
| Abertawe | 580 | 346 | 8.0 | 13.8 | 38 | 21 | 80 | 31 | 156 |
| Castell-nedd Port Talbot | 410 | 256 | 5.3 | 8.9 | 43 | 19 | 80 | 37 | 197 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 325 | 208 | 5.2 | 10.3 | 88 | 25 | 69 | 28 | 185 |
| Bro Morgannwg | 200 | 120 | 6.5 | 8.2 | 78 | 22 | 65 | 41 | 275 |
| Caerdydd | 520 | 339 | 8.7 | 13.8 | 42 | 14 | 56 | 38 | 128 |

Nodiadau
* = Dim gwybodaeth ar gael oherwydd niferoedd bach o blant neu bobl ifanc gymwys.



## Ffigur 25 - Deilliannau plant sy'n derbyn gofal yn ôl ardal awdurdod lleol (parhad)

| | Nifer y plant sy'n derbyn gofal, ar 31 Mawrth 2011 [1] | Nifer y plant o oedran ysgol gorfodol sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2011 [2] | % y sesiynau y gallai plant yn yr ysgol gynradd sy'n derbyn gofal fod wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ysgol ddiweddaraf pan oeddent mewn gofal ond ni wnaethant eu mynychu [3] | % y sesiynau y gallai plant yn yr ysgol uwchradd sy'n derbyn gofal fod wedi'u mynychu yn ystod y flwyddyn ysgol ddiweddaraf pan oeddent mewn gofal ond ni wnaethant eu mynychu [4] | % y plant cymwys sy'n cyrraedd y lefel ofynnol ar Gyfnod Allweddol 2 yn ôl asesiad athro [5] | % y plant cymwys sy'n cyrraedd y lefel ofynnol ar Gyfnod Allweddol 3 yn ôl asesiad athro [6] | % y rhai 16-19 oed sy'n gadael gofal ac sy'n ennill o leiaf un cymhwyster (gan gynnwys cymwysterau galwedigaethol)[7] | % y rhai 16-19 oed sy'n gadael gofal ac sy'n ennill 5 TGAU graddau A*-G neu fwy [8] | Nifer gyfartalog y pwyntiau a sgoriwyd mewn cymwysterau allanol gan blant 15 oed a oedd yn derbyn gofal ar 31 Awst [9] |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhondda Cynon Taf | 550 | 322 | 6.2 | 8.2 | 32 | 15 | 63 | 40 | 190 |
| Merthyr Tudful | 165 | 105 | 4.4 | 8.7 | 42 | 18 | 91 | 68 | 184 |
| Caerffili | 300 | 241 | 5.4 | 9.5 | 38 | 27 | 72 | 42 | 230 |
| Blaenau Gwent | 130 | 81 | 5.1 | 7.9 | 40 | 38 | 100 | * | 182 |
| Torfaen | 290 | 200 | 7.7 | 9.9 | 55 | 44 | 67 | 21 | 195 |
| Sir Fynwy | 80 | 51 | 8.3 | 10.8 | 50 | 14 | 81 | * | 141 |
| Casnewydd | 285 | 170 | 7.6 | 7.7 | 50 | 14 | 48 | 23 | 216 |

Nodiadau
* = Dim gwybodaeth ar gael oherwydd niferoedd bach o blant neu bobl ifanc gymwys
1 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, ffurflen SSDA903, tabl 024382
2 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, ffurflen PM1, tabl 024694
3 Uned Ddata Llywodraeth Leol, Gofal Cymdeithasol, data Gwasanaethau Plant, (SCC/022a)
4 Uned Ddata Llywodraeth Leol, Gofal Cymdeithasol, data Gwasanaethau Plant, (SCC/022b)
5 Uned Ddata Llywodraeth Leol, Gofal Cymdeithasol, data Gwasanaethau Plant, (SCC/035)
6 Uned Ddata Llywodraeth Leol, Gofal Cymdeithasol, data Gwasanaethau Plant, (SCC/036)
7 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, ffurflen OC1, tabl 24551
8 Llywodraeth Cymru, Stats Cymru, ffurflen OC1, tabl 24551
9 Uned Ddata Llywodraeth Leol, Gofal Cymdeithasol, data Dangosyddion Strategol Cenedlaethol, (EDU/011)

*Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata dangosyddion perfformiad sydd ar gael gan Uned Ddata Llywodraeth Leol (http://dissemination.dataunitwales.gov.uk/webview/index.jsp) ac Ystadegau Cymru (http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx a http://www.statswales.wales.gov.uk/ReportFolders/reportFolders.aspx)*

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Wales Audit Office / Swyddfa Archwilio Cymru

24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel / Ffôn: 029 20 320500
Fax / Ffacs: 029 20 320600
Email / Ebost: wales@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Dyddiad: 5 Medi 2012
Ein cyf: HVT/1718/fgb
Tudalen: 1 o 24

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Darren

## YMCHWILIAD Y PWYLLGOR CYFRIFON CYHOEDDUS I EGWYDDORION CYFFREDINOL BIL ARCHWILIO CYHOEDDUS (CYMRU)

1. Rwyf yn ddiolchgar iawn am wahoddiad y Pwyllgor i gyflwyno tystiolaeth i ategu ei ymchwiliad i egwyddorion Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru). Croesawaf fwriad datganedig y Bil i roi sail statudol i drefniadau llywodraethu Swyddfa Archwilio Cymru. Fodd bynnag, mae gennyf rai pwyntiau sy'n peri pryder o ran cynigion Llywodraeth Cymru a nodaf y pwyntiau hynny isod. Atodaf hefyd sylwadau ar gymalau unigol yn atodiad A a chrynodeb o oblygiadau ariannol y Bil yn atodiad B. Rhydd atodiadau C a D sylwadau pellach ar fodelau llywodraethu. Gobeithio y bydd y deunydd hwn o gymorth i'r Pwyllgor wrth lunio ei adroddiad ar y Bil.

**Byddai deddfwriaeth i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd Swyddfa Archwilio Cymru o fudd**

2. Credaf y byddai deddfwriaeth i atgyfnerthu atebolrwydd a threfniadau llywodraethu swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) a Swyddfa Archwilio Cymru o fudd. Yn benodol, credaf ei bod yn briodol iawn sefydlu bwrdd statudol ar gyfer SAC, gan y bydd hyn yn galluogi i drefniadau llywodraethu cadarn gael eu rhoi ar waith o ran goruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru ac uwch reolwyr y sefydliad. Byddai hyn yn goresgyn prif ddiffyg y ddeddfwriaeth bresennol, sef er ei bod yn galluogi ACC i bennu trefniadau llywodraethu, megis pwyllgorau cynghori, ei bod hefyd yn galluogi ACC i roi'r gorau i'r trefniadau hynny neu eu diystyru.

**Fodd bynnag, mae rhai problemau pwysig yn deillio o'r cynigion yn y Bil**

3. Er bod y bwriadau bras sy'n sail i'r Bil yn gadarn, mae problemau sylweddol yn deillio o'r cynigion manwl. Yn anad dim, mae'r Bil yn darparu ar gyfer bwrdd SAC â swyddogaethau gweithredol o ran rhedeg y swyddfa archwilio, ond mae hefyd yn nodi mai aelodau anweithredol fydd y rhan fwyaf o aelodau'r bwrdd. Felly mae'r bwrdd arfaethedig yn yr agen rhwng dau amcan - goruchwylio ACC (swyddogaeth bwrdd 'goruchwylio') a rhedeg y Swyddfa Archwilio (swyddogaeth bwrdd 'gweithredol') - ac nid yw'n debygol o gyflawni'r naill na'r llall yn arbennig o effeithiol. Caiff

Llinell Uniongyrchol: 029 2032 **0510** E-bost: huw.vaughan.thomas@wao.gov.uk

swyddogaethau goruchwylio'r bwrdd arfaethedig eu peryglu hefyd oherwydd ei swyddogaethau gweithredol.

4. Er bod y cynigion yn debyg i ryw raddau i drefniadau Swyddfa Archwilio Genedlaethol y DU, ceir rhai gwahaniaethau sylweddol. Er enghraifft, gyda'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, mae cod statudol yn ymdrin â'r berthynas rhwng y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a bwrdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol. Mae'r cod hwn yn berthnasol i'r gwaith o baratoi strategaeth ac amcangyfrif o incwm a gwariant gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a bwrdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, a gweithgareddau allweddol eraill, ac mae'n ofynnol er mwyn adlewyrchu annibyniaeth archwilio'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Mae bodolaeth y cod hwn yn arwydd o'r ffaith bod angen rheoli'r tensiwn y mae'r corff corfforaethol yn ei roi ar annibyniaeth y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Nid oes darpariaeth gyfatebol ar gyfer cod o'r fath yn y Bil. Yn lle hynny, mae'r Bil yn rhagnodi gweithdrefnau ac yn rhoi swyddogaethau i fwrdd SAC sy'n tanseilio annibyniaeth archwilio ACC.

5. Yn ogystal, gall y darpariaethau yn y Bil ar gyfer trosglwyddo staff i'w cyflogi gan fwrdd SAC esgor ar anghydfodau cyfreithiol. Ac yn fwy cyffredinol, mae'r cynigion yn debygol o fod yn fwy costus na'r hynny a nodwyd ym Memorandwm Esboniadol y Llywodraeth.

6. Ystyriaf y materion hyn ymhellach isod, ynghyd â rhai awgrymiadau ar gyfer ymdrin â hwy naill ai drwy sicrhau bod bwrdd SAC yn canolbwyntio ar swyddogaethau goruchwylio neu drwy lunio bwrdd gweithredol ac iddo aelodaeth fwy priodol.

**Ni fydd gan y bwrdd fel y'i cynigiwyd yn y Bil ddigon o aelodau gweithredol i sicrhau y caiff ei swyddogaethau gweithredol eu cyflawni'n effeithiol.**

7. Bwriedir i fwrdd SAC gynnwys aelodau “anweithredol” yn bennaf: pump o aelodau anweithredol yn erbyn ACC, gydag aelod sy'n gyflogai i “sicrhau bod profiad y cyflogai yn gallu llywio gweithgarwch a gweithrediadau’r Bwrdd” (Atodlen 1 (para 1)). Mae sawl problem yn deillio o hyn oherwydd er bod aelodaeth o'r fath o bosibl yn briodol ar gyfer bwrdd goruchwylio, nod y Llywodraeth yw y bydd gan y bwrdd swyddogaethau gweithredol o ran rhedeg y sefydliad, megis cyflogi staff a chytuno ar y cynllun blynyddol. Fodd bynnag, mae'r aelodaeth arfaethedig yn golygu nad oes gan y bwrdd ddigon o aelodau gweithredol i sicrhau bod yr uwch reolwyr sy'n gyfrifol am roi penderfyniadau ar waith yn teimlo bod ganddynt berchenogaeth ystyrlon ddigonol o'r penderfyniadau hynny. Mae hyn yn wahanol i aelodaeth bwrdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n cynnwys tri aelod sy'n gyflogeion, y gall y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gan fod yn rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol eu hargymell, sicrhau eu bod yn uwch reolwyr priodol.

**Byddai bwrdd goruchwylio yn opsiwn mwy cost-effeithiol, ac yn hwyluso proses gadarn o oruchwylio'r Archwilydd Cyffredinol**

8. Credaf y byddai'n well pe bai swyddogaethau'r bwrdd yn canolbwyntio ar swyddogaethau goruchwylio, yn hytrach na phennu swyddogaethau rhedeg y sefydliad iddo hefyd. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r bwrdd ganolbwyntio ar ystyried pa un a oedd ACC yn rhedeg y sefydliad yn briodol a chynghori ACC a'r Cynulliad yn unol â hynny, yn hytrach na pheryglu'r rôl oruchwylio bwysig honno drwy gymryd rhan mewn

penderfyniadau sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad. Fel y nodwyd yn atodiad C, gallai swyddogaethau'r bwrdd gynnwys cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol wrth iddo ystyried adroddiadau amcangyfrif ac adroddiadau blynyddol ACC, a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ôl y galw ar unrhyw faterion sy'n peri pryder mewn perthynas ag ACC. Byddai hyn yn atgyfnerthu'r broses oruchwylio y tu hwnt i'r lefel a ddarperir gan gorff corfforaethol, a byddai'n helpu i liniaru'r baich goruchwylio manwl ar y Cynulliad Cenedlaethol.

9. Byddai canolbwyntio ar swyddogaethau goruchwylio hefyd fwy na thebyg yn opsiwn mwy fforddiadwy, gan na fyddai angen i ffioedd aelodau'r bwrdd gynnwys elfen i gydnabod eu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau. Ni fyddid yn mynd i rai costau sylweddol penodol sy'n deillio o weithredu, gan gynnwys costau trosglwyddo staff, asedau a rhwymedigaethau, ychwaith (gweler para B13 o atodiad B), a byddai'r broses weithredu yn symlach ac yn gyflymach i'w chyflawni na'r broses ar gyfer bwrdd corff corfforaethol.

**Os caiff bwrdd gweithredol ei greu, yna bydd angen gwneud newidiadau sylweddol i'r Bil er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben**

10. Fodd bynnag, er mwyn gwireddu dewis Llywodraeth Cymru i gael bwrdd i redeg sefydliad archwilio Cymru, bydd angen gwneud newidiadau i'r Bil o ran aelodaeth y bwrdd er mwyn sicrhau ei fod yn addas at y diben. Yn arbennig, dylai bwrdd o'r fath gynnwys digon o aelodau gweithredol nid yn unig i lywio penderfyniadau ond hefyd i sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am roi penderfyniadau ar waith yn teimlo bod ganddynt berchenogaeth ystyrlon ddigonol o'r penderfyniadau hynny. Byddai hefyd yn briodol gwneud newidiadau er mwyn ymdrin â rhai o'r risgiau a'r costau a all ddeillio o'r trefniadau cyflogi a throsglwyddo fel y'u drafftiwyd ar hyn o bryd. Ceir rhagor o fanylion am drefniadau corff corfforaethol mwy ymarferol na'r rhai a nodir yn y Bil yn atodiad D. Fodd bynnag, mae'n debygol y bydd unrhyw opsiwn corff corfforaethol yn fwy costus na bwrdd goruchwylio gan y bydd angen talu cyfradd uwch i aelodau'r bwrdd i adlewyrchu'r cyfrifoldebau sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad ac o ganlyniad i gost trosglwyddo staff, asedau a rhwymedigaethau (gweler para B14 o atodiad B).

**O dan y Bil, caiff annibyniaeth archwilio ei thanseilio gan allu'r bwrdd i wrthod rhaglen waith ACC, ac nid yw'r gofyniad ar gyfer cytuno o reidrwydd yn ymarferol**

11. Mae hyder yn y broses archwilio yn dibynnu i raddau helaeth ar annibyniaeth yr archwilydd, ac mae annibyniaeth yn ofyniad allweddol o fewn safonau archwilio moesegol a phroffesiynol rhyngwladol a'r DU. Yn hanesyddol, adlewyrchwyd pwysigrwydd annibyniaeth archwilio o fewn statws cyfansoddiadol Archwilwyr Cyffredinol yn nemocratiaethau'r gorllewin. Ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod fod hyn yn broblem yn rhai o nodweddion y Bil. Yng nghymal 26, maent wedi ceisio cyfyngu ar allu bwrdd SAC i ymyrryd ym mhenderfyniadau ACC am ei raglen waith drwy ddynodi mai dim ond os bydd y datganiad, neu ran ohono, yn "afresymol" y gall bwrdd SAC wrthod datganiad ACC am ei raglen waith. Yn anffodus, nid yw hyn yn diogelu annibyniaeth archwilio ACC yn ddigonol, gan fod y cymal yn dal i ganiatáu i fwrdd SAC wrthod barn ACC am ba faterion sy'n haeddu archwiliad.

12. Mae problemau hefyd yn deillio o gymal 26 yn yr ystyr ei fod yn nodi'r posibilrwydd o anghydfod heb roi ffordd o ddatrys yr anghydfod hwnnw. Ac eithrio cyfaddawdu, yr

unig ffordd realistig o ddatrys gwahaniaeth barn ar y rhaglen waith yw i'r ACC neu aelodau eraill o'r bwrdd ymddiswyddo. Nid yw'r awgrym y gellid datrys gwahaniaethau yn y llys, fel y cyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 1 Mai 2012, yn gynnig ymarferol o ystyried yr achos cynhenid o wrthdaro buddiannau sy'n deillio o'r ffaith bod yn rhaid i ACC ddibynnu ar gyngor cyfreithiol sy'n gweithio o dan gontract i SAC.

13. Mae'r gofyniad penodol i gytuno ar y cynllun blynyddol cyffredinol o dan gymal 25 hefyd yn tanseilio annibyniaeth archwilio. Mae gofyn am gytundeb yn ei gwneud yn debygol y bydd angen cyfaddawdu, ac mae hyn yn peryglu annibyniaeth archwilio a barn Archwilydd Cyffredinol.

14. Gellid osgoi'r problemau hyn drwy fabwysiadu model bwrdd goruchwylio. Fel arall, gellid eu rheoli'n well pe byddai'r Bil yn dilyn trefniadau'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn agosach, yn arbennig pe bai'n ei gwneud yn ofynnol i baratoi cod i ddiogelu annibyniaeth ACC mewn perthynas â gweithgareddau gwneud penderfyniadau allweddol.

**Caiff annibyniaeth archwilio ACC hefyd ei thanseilio gan allu'r bwrdd i lywio'r ffordd y caiff swyddogaethau ACC eu gweithredu**

15. Er mwyn i ACC ddirprwyo ei waith neu ei gwaith, sy'n ymarferol angenrheidiol, o dan gymal 18(2) rhaid bod ganddo neu ganddi gynllun dirprwyo a gymeradwywyd gan fwrdd SAC. O ganlyniad, daw'r bwrdd yn rhan o'r broses o redeg y sefydliad, ac mae hyn yn gyfyngiad sylweddol posibl ar y ffordd y bydd ACC yn gweithredu ei swyddogaethau. Er enghraifft, gallai atal ACC rhag cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer y DU gyfan, ac ystyrir hyn ymhellach ym mharagraffau A37 i A41 yn atodiad A.

16. I'r gwrthwyneb, o dan gymal 19, rhoddir y pŵer i fwrdd SAC drefnu gyda chyrff cyhoeddus i ACC ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny. Ond o dan y cymal hwn ni fydd angen cytundeb ACC—gall gweddill y bwrdd bleidleisio yn erbyn ACC. Felly gallai'r cymal arwain at achosion sylweddol o wrthdaro buddiannau a fyddai'n tanseilio gwaith archwilio ACC. Er enghraifft, gallai bwrdd SAC drefnu, er gwaethaf gwrthwynebiad ACC, i ACC ddarparu gwasanaethau gweinyddu'r gyflogres i gorff a gaiff ei archwilio ganddo. Byddai hyn yn fater moesegol sylweddol ac yn mynd yn groes i safonau proffesiynol rhyngwladol gan y byddai ACC yn archwilio gwasanaethau y mae ef ei hun wedi'u darparu.

17. O dan gymal 21 a phara 20 o Atodlen 1, bwrdd SAC fydd cyflogwr holl staff SAC, ac mae cymalau 14 a 21 yn rhoi swyddogaethau eraill iddo megis “sicrhau” gwasanaethau. Mae hyn yn cyfyngu ymhellach ar allu ACC i fodloni gofynion proffesiynol. Yn benodol, ni fydd ACC (sef y person a fydd yn darparu barnau archwilio) yn gallu cyflogi unrhyw un yn uniongyrchol i asesu ansawdd staff a

gwasanaethau a ddarperir gan fwrdd SAC (caiff hyn ei wahardd gan gymal 9(2)), a gallai hyn ei atal rhag cydymffurfio â safonau proffesiynol rhyngwladol.[1].

18. Mae'n bosibl y gellid goresgyn y problemau sy'n gysylltiedig â sicrhau cymorth staff priodol i ACC i ryw raddau pe byddai'r bwrdd yn dirprwyo'r awdurdod i ACC, fel Prif Weithredwr y sefydliad, roi mesurau ar waith megis comisiynu arolygiadau sicrwydd ansawdd annibynnol. Fodd bynnag, gan mai ar ffurf drafft y mae'r Bil ar hyn o bryd, nid oes sicrwydd y ceir yr awdurdod angenrheidiol, ac mae hyn yn codi mater ehangach o ran diffyg cydbwysedd rhwng awdurdod a chyfrifoldeb ac atebolrwydd. ACC fydd yn gyfrifol yn y pen draw am ddarparu archwiliadau ac astudiaethau heb yr awdurdod llawn i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny.

**Nid yw'r Bil yn darparu digon o gamau diogelu sy'n cyfateb i TUPE i'r aelodau o staff sy'n trosglwyddo i'r SAC newydd, a gallai hyn arwain at anghydfodau cyfreithiol costus**

19. Caiff staff a gyflogir gan ACC eu trosglwyddo i'w cyflogi gan fwrdd y SAC arfaethedig (para 5 o Atodlen 3). Nid yw'r cynllun trosglwyddo yn rhoi'r un diogelwch â rheoliadau TUPE (gweler para A33 o atodiad A), ac mae'n annhebygol y bydd rheoliadau TUPE eu hunain yn gymwys. Felly, ymddengys fod y Bil yn mynd yn groes i ddatganiad Llywodraeth Cymru ym mhara 242 o'i dogfen ymgynghori ar ei bil drafft dyddiedig 15 Mawrth 2012 sy'n nodi "yn ôl y ddarpariaeth hon, ni fydd trosglwyddo staff ar delerau llai ffafriol nag a fyddai o gymhwyso TUPE".

20. Yn ogystal, mae'r gofyniad i'r SAC arfaethedig sicrhau bod y telerau cyflogaeth yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru (para 20 o Atodlen 1) yn creu tensiwn pe ceid nad yw telerau trosglwyddo unrhyw staff yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru (gweler paragraffau A14 a A15 o atodiad A). Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio ei bwriadau yn y maes hwn. Fodd bynnag, ni waeth hynny, nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn eglur yn hyn o beth, a gall hyn esgor ar anghydfodau cyfreithiol costus.

**Mae cost y Bil fel y saif yn debygol o fod yn sylweddol uwch na'r amcangyfrif a nodir yn y memorandwm esboniadol**

21. Bydd y corff corfforaethol a gyflwynwyd yn y Bil yn anochel yn mynd i gostau. Rwyf yn amcangyfrif y byddai'r costau sefydlu a'r costau trosiannol (gan gynnwys costau ACC y Bil ei hun) rhwng £180,000 a £350,000, a'r costau cylchol blynyddol parhaus rhwng £200,000 a £650,000, gyda rhywbeth yn agosach at y ffigur is yn fwy tebygol ond nid yw hynny'n sicr (gweler atodiad B am ragor o fanylion). Mae'r ffigurau uwch ar gyfer costau parhaus yn adlewyrchu'n bennaf y risgiau sy'n gysylltiedig ag anghydfodau, trethu treuliau teithio a chynhaliaeth, a'r angen posibl i sicrhau bod telerau cyflogaeth yn fwy cydnaws â thelerau Llywodraeth Cymru, sydd oll yn deillio o'r cynnig arfaethedig i drosglwyddo staff o gael eu cyflogi gan ACC i gael eu cyflogi gan fwrdd

[1] Y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 (ISQC1) a'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA220), fel y'u cymhwyswyd drwy Nodyn Ymarfer 10

SAC. Mae cost y bwrdd ei hun o ran pethau fel ffioedd aelodau'r bwrdd hefyd yn debygol o fod yn uwch na'r hyn a nodwyd ym Memorandwm Esboniadol Llywodraeth Cymru.

22. Byddwn yn fwy na pharod i ddarparu rhagor o wybodaeth i'r Pwyllgor i ategu ei ymchwiliad er mwyn helpu i sicrhau y caiff y Bil ei ddatblygu'n ddeddfwriaeth sy'n addas at y diben.




**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

**Atodiad A**

**Sylwadau ar ddarpariaethau unigol y Bil**

**Adrannau 2-12—Archwilydd Cyffredinol Cymru**

A1. Yn fy marn i, mae cymalau 2 i 7 yn gwneud darpariaeth synhwyrol i barhau â swydd ACC, a phenodi, ymddiswyddo, diswyddo, anghymhwyso ACC a chyfyngiadau ar gyflogaeth, statws a chydnabyddiaeth ACC.

A2. Mae cymal 8 yn darparu bod gan ACC ddisgresiwn llwyr ynglŷn â'r ffordd y caiff ei swyddogaethau eu harfer ac nad yw'n cael ei gyfarwyddo na'i reoli gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru na Llywodraeth Cymru. Fy mhryder yw bod hon ychydig yn llai penodol na'r ddarpariaeth gyfatebol ar gyfer Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol y DU (adran 17 o Ddeddf Cyfrifoldeb am Gyllidebau ac Archwilio Cenedlaethol 2011—Deddf BRANA), sy'n ei gwneud yn glir bod gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ddisgresiwn llwyr ynghylch cyflawni swyddogaethau (nid dim ond y modd), gan gynnwys, yn arwyddocaol, ynghylch penderfynu a ddylid cynnal archwiliadau gwerth am arian:

> *17 How functions are to be exercised*
> *(1) The Comptroller and Auditor General has complete discretion in the carrying out of the functions of that office, including in determining whether to carry out an examination under Part 2 of the National Audit Act 1983 and as to the manner in which any such examination is carried out.*

A3. Byddai'n well gennyf pe bai cymal 8 yn adlewyrchu rhywbeth tebyg i'r cyfeiriad at archwiliadau yn adran 17 o Ddeddf BRANA.

A4. Mae Cymal 9(1) yn gwneud darpariaeth briodol ar gyfer pwerau atodol i ACC, ond mae cymal 9(2) yn gwahardd ACC rhag gwneud unrhyw beth y mae gan fwrdd SAC gyfrifoldeb amdano o dan gymal 21(2)(a) i (c), sy'n cynnwys cyflogi staff a sicrhau gwasanaethau. Gan nad yw'n glir beth yn union yw ystyr “cyflogi staff” a “sicrhau gwasanaethau” yn y cyd-destun hwn, gall hyn o bosibl danseilio gallu ACC i gyflawni swyddogaethau a ddirprwyir iddo gan fwrdd arfaethedig SAC (a ddirprwyir o dan bara 29 o Atodlen 1), a fyddai'n tanseilio ei swyddogaeth fel Prif Weithredwr. Er enghraifft, nid yw'n glir a fydd ACC yn gallu cyfarwyddo contractwyr i ymgymryd â thasgau ar adegau penodol neu derfynu eu contractau. Gall hyn fod yn rhwystr posibl arall i gyfranogiad ACC yn y Fenter Twyll Genedlaethol, fel y nodwyd ym mharagraffau A37 i A41 isod. Nid oes cymal sy'n cyfateb i gymal 9(2) yn neddfwriaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (Deddf BRANA 2011).

A5. Mae cymal 10 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gyhoeddi cod ymarfer archwilio sy'n pennu'r ffordd y caiff swyddogaethau ACC eu cyflawni. Mae i god o'r fath gryn werth, gan y bydd yn rhoi sail i ACC sicrhau bod archwiliadau a gynhelir gan staff a chontractwyr o safon dda. Fodd

bynnag, fel y'i drafftiwyd, mae cwmpas arfaethedig y cod yn llawer rhy eang gan gwmpasu materion sydd ymhell y tu hwnt i ymarfer archwilio. Er enghraifft, mae'n cwmpasu rhoi cyngor a chymorth i landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o dan adran 145D o Ddeddf Llywodaeth Cymru 1998. Nid oes angen i'r cwmpas fod mor eang ac mae'n debygol o arwain at greu cod helaeth a fydd yn fwy costus i'w baratoi a'i gynnal nag sydd ei angen, ac a all fod yn anodd ei ddilyn. Felly byddwn yn awgrymu y dylid diwygio'r cymal hwn a hepgor 10(2)(c)(ii) i (vi), 10(2)(d)(iii) a 10(2)(e)(i). Mae'r cyfeiriad olaf yn ymwneud â hawliau statudol ACC i gael mynediad at ddogfennau. Mae'r gofyniad i gynnwys rhagnodiad ynglŷn ag arfer hawliau o'r fath mewn cod ymarfer archwilio yn debygol o fod yn wrthgynhyrchiol gan y byddai'n eitem y gallai personau sy'n ceisio osgoi eu rhwymedigaethau o ran mynediad ei defnyddio i herio hawliau mynediad statudol ACC, gan beri oedi i archwiliadau a chynyddu eu cost o bosibl.

A6. Mae cymal 11 yn gwneud ACC yn archwilydd cyrff llywodraeth leol yn lle archwilwyr penodedig. Ar hyn o bryd, mae presenoldeb dau archwilydd mewn llywodraeth leol yn arwain at ddryswch a rhwystredigaeth ymhlith y cyhoedd, ac felly dylai'r cymal hwn helpu i sicrhau mwy o eglurder.

A7. Mae cymal 12 yn darparu, a hynny'n briodol, fod yn rhaid ymgynghori ag ACC cyn bod Gweinidogion Cymru yn trosglwyddo swyddogaethau gorchwylio i ACC. Dylai helpu i atal swyddogaethau nad ydynt yn gyson ag annibyniaeth ACC rhag cael eu trosglwyddo.

**Cymalau 13-28— Swyddfa Archwilio Cymru a'i pherthynas ag ACC**

A8. Mae cymal 13 yn sefydlu SAC newydd fel corff corfforaethol, a fydd yn gorff cyhoeddus ychwanegol wedi'i gyd-blethu ag ACC, a fydd yn parhau i fod yn gorff cyhoeddus. Mae cymal 13 yn cyflwyno Atodlen 1, sy'n manylu ar natur SAC, ac mae elfennau ohono yn achosi problemau.

A9. Mae Atodlen 1 (para 1) yn rhoi aelodaeth "anweithredol" yn bennaf i fwrdd SAC. Mae sawl problem yn deillio o hyn oherwydd bwriedir i'r bwrdd fod yn gyfrifol am redeg y sefydliad (e.e., cyflogi staff ac ati, fel y nodwyd yng nghymal 21 a chytuno ar y cynllun blynyddol (cymalau 25 a 26)). Byddai'r aelodaeth arfaethedig yn golygu na fyddai gan y bwrdd ddigon o aelodau gweithredol i sicrhau bod uwch reolwyr sy'n gyfrifol am roi penderfyniadau ar waith yn cael digon o berchenogaeth yn y penderfyniadau hynny. (Ni fyddai aelodaeth y bwrdd yn achosi cymaint o broblem pe na bai gan y bwrdd swyddogaethau ynghylch rhedeg y sefydliad.)

A10. O dan bara 1 o Atodlen 1 bydd un aelod yn un o gyflogeion SAC. Yn ôl nodiadau esboniadol Llywodraeth Cymru rôl y person hwn yw "sicrhau bod profiad y cyflogai yn gallu llywio gweithgarwch a gweithredoedd y bwrdd". Mae'r datganiad hwn, ynghyd â'r ddarpariaeth bod yn rhaid i'r aelod sy'n gyflogai gael ei benodi gan aelodau anweithredol, yn awgrymu efallai na fydd unrhyw uwch reolwr, gan gynnwys cyfarwyddwr cyllid, yn aelod o'r bwrdd.

Golyga hyn y byddai diffyg aelodau sy'n gyfrifol am roi penderfyniadau'r bwrdd ar waith, ar wahân i ACC, a fydd yn ymgymryd â rôl Prif Weithredwr. Mae hyn yn wahanol i aelodaeth bwrdd y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, sy'n cynnwys tri aelod sy'n gyflogeion, y gall y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, gan fod yn rhaid i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol eu hargymell, sicrhau eu bod yn uwch reolwyr priodol.

A11. Nid yw'n eglur ychwaith sut y bydd aelodau anweithredol yn penodi'r aelod sy'n gyflogai "yn ôl teilyngdod", fel sy'n ofynnol o dan bara 2(2) o Atodlen 1. Gall diffyg eglurder ynglŷn â'r pwynt hwn arwain at anghydfod rhwng y bwrdd a gweithlu SAC, gan arwain at gostau, a cholli effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

A12. Os penderfynir cael bwrdd goruchwylio, yna byddai'n briodol i'r ddeddfwriaeth roi meini prawf ar gyfer penodi'r aelod sy'n gyflogai i adlewyrchu buddiannau a phrofiad cyflogeion. Fodd bynnag, os penderfynir cael bwrdd â swyddogaethau gweithredol, awgrymwn y byddai'n well pe bai o leiaf ddau aelod sy'n gyflogai na ellid eu penodi ond drwy argymhelliad ACC. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i ACC sicrhau bod digon o reolwyr yn cael cynrychiolaeth ar y bwrdd, ond ar yr un pryd gadw'r mwyafrif o aelodau anweithredol.

A13. O dan bara 20 o Atodlen 1 a chymal 21, bwrdd SAC fydd cyflogwr y staff, ac mae cymalau 14 a 21 yn rhoi swyddogaethau eraill iddo, gan gynnwys sicrhau gwasanaethau. Gan na fydd ACC (sef y person a fydd yn rhoi barn archwilio) yn gallu cyflogi unrhyw un yn uniongyrchol i asesu ansawdd staff a gwasanaethau a ddarperir gan fwrdd SAC (mae cymal 9(2) yn ei wahardd rhag gwneud hynny), gall hyn fod yn rhwystr posibl i gydymffurfio â safonau proffesiynol rhyngwladol[2]. Ymhlith pethau eraill, mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i ACC lunio polisïau a gweithdrefnau sy'n rhoi sicrwydd i ACC fod ganddo neu ganddi ddigon o bersonél sy'n meddu ar y cymhwysedd proffesiynol angenrheidiol ac ymrwymiad i egwyddorion moesegol. Gellid goresgyn hyn pe bai'r bwrdd yn dirprwyo'r awdurdod i gymryd camau megis contractio mewn arolygiadau sicrhau ansawdd annibynnol i ACC, fel prif weithredwr y sefydliad. Fodd bynnag, fel y mae'r Bil wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, nid yw'r awdurdod angenrheidiol wedi'i warantu am fod gan y Bwrdd ddisgresiwn llwyr yn ei gylch.

A14. Mae para 20 o Atodlen 1 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC arfaethedig sicrhau bod telerau cyflogaeth staff "yn cyfateb yn fras" i delerau aelodau o staff Llywodraeth Cymru. Ar wahân i'r cwestiwn a yw Llywodraeth Cymru yn gymharydd priodol (yn gyffredinol, mae gwaith SAC yn eithaf gwahanol i waith Llywodraeth Cymru), mae'r ddarpariaeth hon yn amwys ond yn ddigon rhagnodol i achosi problemau. Gan nad yw "yn cyfateb yn fras" wedi'i

[2] Y Safon Ryngwladol ar Reoli Ansawdd 1 (ISQC1) a'r Safon Ryngwladol ar Archwilio (ISA220), fel y'u cymhwyswyd drwy Nodyn Ymarfer 10

ddiffinio yn y Bil nac yn unman arall, bydd SAC yn wynebu ansicrwydd, a fyddai'n cael ei waethygu bob tro y newidiodd Llywodraeth Cymru ei thelerau. Yn benodol, byddai SAC yn agored i geisiadau posibl gan staff, undebau llafur neu grwpiau pwyso am adolygiad barnwrol. Gellid tybio bod i “yn cyfateb yn fras” yr ystyr y byddai person rhesymol yn ei phriodoli i'r ymadrodd, ac ar y sail honno credaf fod telerau presennol fy staff yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid oes sicrwydd y byddai Barnwr yn dod i'r un casgliad.

A15. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, awgrymaf yn gryf, os bydd unrhyw ddarpariaeth “yn cyfateb yn fras”, yna y dylai ddilyn y geiriad mwy pragmatig a nodir ym mhara 17 i Atodlen 2 i Ddeddf BRANA:

> *In determining the terms of employment of any staff, NAO must <u>have regard to the desirability of keeping</u> the terms broadly in line with those applying to civil servants.*

(Ychwanegwyd y pwyslais)

Byddai hyn yn lleihau'r risg o adolygiad barnwrol a chostau i'r cyhoedd o ganlyniad i hynny.

A16. Fel y nodwyd yn fy ymateb i'r ymgynghoriad ar y bil drafft, byddai'r darpariaethau anghymhwyso ar gyfer aelodau SAC (para 24 o Atodlen 1) yn fwy perthnasol pe baent yn cynnwys aelodau neu gyflogeion cyrff a archwilir gan ACC.

A17. Ymddengys bod yr ymadrodd ym mhara 31(5) o Atodlen 1, “fel y gwêl y person hwnnw yn dda” mewn perthynas ag archwilydd cyfrifon SAC, yn rhoi gormod o ryddid a gall arwain at waith archwilio o ansawdd gwael.

A18. I'r gwrthwyneb, dylai para 32(3) o Atodlen 1 gynnwys y geiriau “ym mhob ffordd berthnasol” ar ôl “yn fodlon” er mwyn sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn darparu ar gyfer archwiliad y gellir ei gyflawni'n realistig sy'n unol â safonau archwilio proffesiynol.

A19. O dan gymal 16 ACC fydd Prif Weithredwr SAC, mae para 1 o Atodlen 1 i'r Bil yn gwneud ACC yn aelod o fwrdd SAC, ac mae para 30 o Atodlen 1 yn gwneud ACC yn Swyddog Cyfrifyddu SAC. Felly bydd gan ACC bedair rôl allweddol: (a) fel Archwilydd Cyffredinol, y person sy'n gyfrifol yn y pen draw am gyflawni archwiliadau ac astudiaethau, (b) fel Swyddog Cyfrifyddu, yn gwarchod adnoddau'r sefydliad, (c) fel Prif Weithredwr, prif reolwr y sefydliad (d) fel aelod bwrdd, sy'n cymryd rhan yn nhrafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd. Nid oes unrhyw wrthdaro annatod rhwng rolau (a) i (c), ond maent yn achosi problemau o dan y trefniadau arfaethedig ar gyfer bwrdd gweithredol. O dan y trefniadau arfaethedig, mae ACC, fel Prif Weithredwr, yn ddarostyngedig i benderfyniadau'r bwrdd ynglŷn â'r rhaglen waith, ei hadnoddau a'r ffordd y caiff y sefydliad ei redeg yn gyffredinol. Felly, fel Prif Weithredwr, cyfyngir ar ei allu i gyflawni ei ofynion proffesiynol fel Archwilydd Cyffredinol

gan yr angen am gytundeb y bwrdd ar faterion rheoli allweddol, megis recriwtio a hyfforddi staff.

A20. At hynny, ACC fydd yn gyfrifol yn y pen draw am gynnal archwiliadau ac astudiaethau heb yr awdurdod llawn i gyflawni'r cyfrifoldebau hynny. Mae'r cyfrifoldeb personol hwn yn y pen draw hefyd yn ymestyn i ofynion rheoleiddio, megis cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data, ac unwaith eto, heb awdurdod llawn.

A21. Yn wahanol i'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, nid yw'r Bil yn darparu cod a all helpu i leddfu'r tensiynau annatod sy'n deillio o sefyllfa lle mae archwilydd cyffredinol yn rhan o fwrdd corff corfforaethol ac yn ddarostyngedig iddo. Mae para 10 o Atodlen 3 i Ddeddf BRANA yn darparu ar gyfer cod i ymdrin â'r berthynas rhwng y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol, ac mae'n ofynnol yn benodol i hwn adlewyrchu'r egwyddorion a nodwyd yn adran 17 o Ddeddf BRANA (gweler y dyfyniad yn A2 uchod), h.y. disgresiwn llwyr y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol ynghylch cyflawni swyddogaethau. Mae'r cod yn arwydd bod angen rheoli'r tensiwn y mae corff corfforaethol yn ei greu o ran annibyniaeth y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

A22. Mae cymal 16(2) yn cyflwyno Atodlen 2, y mae para 1 ohoni yn ei gwneud yn ofynnol i ACC a chadeirydd SAC baratoi adroddiadau blynyddol ac interim ar y cyd. Fel yn achos paratoi a gosod amcangyfrifon ar y cyd (cymal 20), gosod y cynllun blynyddol ar y cyd (cymal 27), a chyflwyno cyfrifon blynyddol gan y cadeirydd i'w harchwilio (para 32(1)(b) o Atodlen 1), mae paratoi adroddiadau ar y cyd yn tanseilio atebolrwydd personol clir ACC fel Swyddog Cyfrifyddu. Mae'r gofyniad ar gyfer adroddiadau interim hefyd yn debygol o gynnig gwerth gwael am arian. Dylai adroddiadau blynyddol fod yn ddigon i roi cyfrif am weithgareddau ACC a gweithgareddau ehangach y sefydliad. Mae adroddiadau interim gorfodol mynych yn annhebygol o gynnig y gwerth y byddai adroddiadau ad hoc i'r Cynulliad ynghylch materion sy'n achos pryder gan fwrdd goruchwylio, fel y'i rhagwelwyd ym mharagraff C4.ii o Atodiad C, yn ei gynnig.

A23. Mae cymal 18(2) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun dirprwyo gan ACC gael ei gymeradwyo gan fwrdd SAC. Mae hyn yn gyfyngiad sylweddol ar y ffordd y mae ACC yn arfer ei swyddogaethau. Ymhlith pethau eraill, gall atal ACC rhag cymryd rhan ym Menter Twyll Genedlaethol y DU, a ystyrir ymhellach ym mharagraffau A37 i A41 isod.

A24. Mae cymal 19 yn galluogi bwrdd SAC i drefnu â chyrff cyhoeddus i ACC ddarparu gwasanaethau i'r cyrff hynny. Ond o dan y cymal hwn ni fydd angen cytundeb ACC—gall gweddill y bwrdd bleidleisio yn erbyn ACC. Gallai'r cymal arwain at gryn wrthdaro buddiannau a fyddai'n tanseilio annibyniaeth archwilio ACC. Er enghraifft, gallai bwrdd SAC drefnu, er gwaethaf gwrthwynebiad ACC, i ACC ddarparu gwasanaethau gweinyddu'r gyflogres i gorff a gaiff ei archwilio ganddo. Byddai hyn yn fater moesegol sylweddol ac yn mynd yn groes i safonau proffesiynol rhyngwladol gan y byddai ACC yn archwilio gwasanaethau y mae ef ei hun wedi'u darparu.

A25. Credaf hefyd y gellid ymestyn y diffiniad o “awdurdod perthnasol” yng nghymal 19 i gwmpasu, er enghraifft, asiantaethau datblygu rhyngwladol nad ydynt yn gyrff cyhoeddus o dan gyfraith y DU.

A26. Mae cymal 25 yn ei gwneud yn ofynnol i ACC a bwrdd SAC gytuno ar gynllun blynyddol y sefydliad. Felly mae rhaglen waith ACC, gan gynnwys yr astudiaethau y mae ACC yn bwriadu eu cynnal, yn amodol ar gytundeb bwrdd SAC. Mae hyn yn amharu ar annibyniaeth archwilio ACC drwy lesteirio ei allu i ddewis materion penodol i'w hystyried. Mae cymal 25 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r adnoddau sydd i'w neilltuo ar gyfer rhaglen waith ACC fod yn amodol ar gytundeb bwrdd SAC.

A27. Yn gysylltiedig â chymal 25, mae cymal 26 yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun a chyllid blynyddol ACC gydymffurfio â gweithdrefn lle mae'n rhaid i ACC gyflwyno datganiad o'i raglen waith ac amcangyfrif o'r uchafswm adnoddau sydd eu hangen ar ei chyfer i'r Bwrdd. Er yr ymddengys bod cymal 26 yn ceisio cyfyngu ar allu bwrdd SAC i ymyrryd ym mhenderfyniadau ACC am ei raglen waith drwy ddynodi mai dim ond os bydd y datganiad, neu ran ohono, yn “afresymol” y gall bwrdd SAC wrthod datganiad ACC am ei raglen waith, nid yw hyn yn diogelu annibyniaeth archwilio ACC yn ddigonol. Caniateir o hyd i fwrdd SAC wrthod barn ACC ynglŷn â'r hyn sy'n haeddu cael sylw. Mae hefyd yn anfoddhaol yn yr ystyr ei fod yn codi'r posibilrwydd o anghydfod heb roi modd i'w ddatrys.

A28. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer gwrthod datganiad o dan gymal 26 a'r gofyniad i gael cytundeb o dan gymal 25 ill dau yn awgrymu mai'r unig ffordd realistig o ddatrys gwahaniaeth barn ynglŷn â'r rhaglen waith, ac eithrio drwy gyfaddawdu, a fyddai yn achos ACC yn golygu peryglu annibyniaeth ei farn, yw i ACC neu aelodau eraill o'r bwrdd ymddiswyddo. Mae'r awgrym y gellid datrys gwahaniaeth barn mewn llys, fel y'i cynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar 1 Mai 2012, yn anymarferol yn ôl pob tebyg oherwydd yr achos cynhenid o wrthdaro buddiannau sy'n deillio o'r ffaith bod yn rhaid i ACC ddibynnu ar gyngor cyfreithiol sy'n gweithio o dan gontract i SAC, sef y corff y byddai gan ACC anghydfod ag ef. Ar y gorau, mae mynd i gyfraith yn anymarferol ac yn gostus.

**Cymalau 29 to 37—darpariaeth amrywiol a chyffredinol**

A29. Mae cymal 29 yn galluogi Cynulliad Cenedlaethol Cymru i benderfynu drwy Reolau Sefydlog sut y caiff ei swyddogaethau o dan y Bil eu harfer. Credaf fod hyn yn briodol gan ei fod yn helpu i ddileu'r lefel uchel o ragnodi gwaith y Pwyllgor a fu'n bresennol yn y Bil drafft.

A30. Mae cymal 34 yn cyflwyno Atodlen 3, ac mae para 5 o Atodlen 3 yn darparu ar gyfer trosglwyddo staff o gyflogaeth ACC i gyflogaeth y SAC arfaethedig. Ni fyddai angen y darpariaethau hyn pe na bai'r SAC arfaethedig yn dod yn gyflogwr staff, ond, os bydd hynny yn digwydd, mae'n bwysig nodi eu bod yn cynnwys rhai problemau a all arwain at anghydfodau costus.

A31. Mae para 5(2) o Atodlen 3 yn nodi bod contractau cyflogaeth yn trosglwyddo o ACC i'r SAC arfaethedig ac y byddant yn weithredol fel petaent wedi'u gwneud yn wreiddiol rhwng y cyflogai a'r SAC arfaethedig. Gellir dadlau bod hyn yn diogelu staff rhag newidiadau anffafriol yn eu contractau cyflogaeth i ryw raddau, oherwydd o dan gyfraith gwlad mae'n rhaid i'r cyflogai a'r cyflogwr gytuno ar unrhyw newidiadau i gontract cyflogaeth. (Ond nid yw'n cynnig yr un diogelwch ag a geir gan Reoliad 4(4) o TUPE.). Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae para 20 o Atodlen 1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAC arfaethedig sicrhau bod telerau cyflogaeth yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn creu tensiwn os na fydd unrhyw rai o delerau'r staff sy'n trosglwyddo yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru, ac felly gallai'r darpariaethau beri anghydfod rhwng y sefydliad a'i staff.

A32. Mae'n bosibl nad yw tensiwn o'r fath yn fwriadol. Bwriad Llywodraeth Cymru o bosibl yw mai dim ond i ddechreuwyr newydd y bydd para 20(5) o Atodlen 1 yn gymwys, neu efallai ei bod o'r farn bod y telerau eisoes yn ddigon tebyg i osgoi unrhyw her gyfreithiol. Rydym wedi gofyn i Lywodraeth Cymru esbonio ei bwriadau yn y maes hwn. Fodd bynnag, ni waeth hynny, nid yw'r Bil fel y'i drafftiwyd yn eglur yn hyn o beth, a gall hyn esgor ar anghydfodau cyfreithiol costus.

A33. Mater arall sy'n codi o ran trosglwyddo staff yw nad yw'r Bil yn darparu darpariaethau sy'n debyg i TUPE y byddai disgwyl iddynt roi sicrwydd i'r staff. Mae'r Bil yn darparu'r hawl i aelodau o staff wrthwynebu cael eu trosglwyddo (para 5(4) a (5) o Atodlen 3) fel yn rheoliadau TUPE. Mae hyn yn adlewyrchu hawl sylfaenol i ddewis gweithio i gyflogwr penodol ai peidio, ond yn ymarferol nid yw fawr o werth i'r cyflogai na'r cyflogwr, gan nad yw'n ychwanegu dim o werth o ran yr hawl i ymddiswyddo. Nid yw'n helpu i sicrhau bod gan y sefydliad ddigon o staff â chymwysterau addas, ac nid yw'n helpu i leddfu ofnau staff ynglŷn â sicrwydd gwaith. Yn yr un modd, nid yw'r Bil yn cynnwys darpariaethau sy'n debyg i TUPE sy'n rhoi mwy o sicrwydd i staff, megis y rhai sy'n ymwneud â diogelu telerau ac amodau cyflogaeth, a diogelu staff rhag cael eu diswyddo. Ymddengys bod hynny'n mynd yn groes i ddatganiad Llywodraeth Cymru ym mhara 242 o'i dogfen ymgynghori ar y bil drafft dyddiedig 15 Mawrth 2012 sef “ni fydd trosglwyddo cyflogaeth ar delerau llai ffafriol nag a fyddai o gymhwyso TUPE”.

A34. Credaf y byddai'n fuddiol pe bai'r darpariaethau trosglwyddo yn Atodlen 3 yn cydnabod yn benodol mai o ganlyniad i ad-drefnu gweinyddol awdurdodau gweinyddol cyhoeddus mae'r trosglwyddo. Mae hyn yn bwysig er mwyn rhoi eglurder at ddibenion gweinyddu pensiynau wrth ymdrin â'r Adran Gwaith a Phensiynau a gweinyddwyr y cynllun pensiwn.

A35. Yn yr un modd, byddai'n fuddiol pe bai para 5(2)(b) yn cael ei newid i gydnabod yn benodol gyfnodau o gyflogaeth a drosglwyddwyd yn y gorffennol. Nid yw'n amlwg o'r ddarpariaeth bresennol bod cyfnodau cyflogaeth staff a drosglwyddodd i ACC o'r Comisiwn Archwilio a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005 yn cael eu trin fel cyflogaeth barhaus â'r SAC

newydd. Mae'r ansicrwydd hwn yn achos pryder i'r aelodau hyn o staff, sef mwyafrif o'r sefydliad presennol.

A36. Mae cymal 35 yn cyflwyno Atodlen 4, mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol. Er eu bod yn ymdrin â manylion canlyniadol y prif ddarpariaethau a amlinellir uchod, mae rhai o'r rhain yn werth eu nodi'n benodol.

*Diwygiadau i Baru Data (y Fenter Twyll Genedlaethol)*

A37. Mae para 59 o Atodlen 4 i'r Bil yn diwygio adran 64A(1) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn dileu darpariaeth lle y gall ACC drefnu i bersonau gynnal ymarfer parau data ar ei ran. (Ac mae paragraffau 60 i 62 yn dileu'r darpariaethau cysylltiedig yn Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a thrwy hynny atal cyrff rhag darparu gwybodaeth i berson sy'n gweithredu ar ran ACC.) Atgyfnerthir hyn gan y gwaharddiad yng nghymal 9(2) ar ACC i wneud unrhyw beth a allai ddod yn gyfrifoldeb SAC. Pryderaf mai effaith ymarferol hyn fydd rhoi terfyn ar gyfranogiad ACC yn y Fenter Twyll Genedlaethol o bosibl, oherwydd dim ond os gall ACC benodi'r un darparwr gwasanaeth ag a benodir gan asiantaethau archwilio eraill y DU i ymgymryd â'r gwaith prosesu data angenrheidiol ar ei ran y bydd yn ymarferol i ACC gyfranogi. Arweiniodd yr ymarfer diweddaraf at nodi twyll a gordaliadau gwerth £6 miliwn yng Nghymru, felly byddai'n resyn pe na bai modd cyfranogi mwyach. Cynhelir y prif ymarfer bob dwy flynedd.

A38. Gall cymal 18 o'r Bil oresgyn hyn gan ei fod yn galluogi ACC i ddirprwyo ei swyddogaethau i gontractwyr i'r SAC gorfforaethol arfaethedig, ar yr amod y caiff cynllun ei gymeradwyo gan SAC. Fodd bynnag, mae cymeradwyaeth y SAC arfaethedig yn golygu bod cyfranogiad ACC yn y Fenter Twyll Genedlaethol yn amodol ar gytundeb bwrdd SAC. Yn fy marn i, gallai hyn amharu ar annibyniaeth ACC mewn ffordd ddifrifol a gallai beryglu ymarfer paru data ar sail y DU gyfan i drechu twyll.

A39. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fyddai dirprwyo swyddogaethau paru data ACC i gontractwr i'r SAC gorfforaethol arfaethedig yn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth ar baru data (Rhan 3A o Ddeddf 2004) a deddfwriaeth arall (gan gynnwys Deddf Diogelu Data 1998). Rwyf wedi cael cadarnhad o'r diffyg eglurder hwn mewn cyngor cyfreithiol annibynnol. Mae paru data yn faes sensitif iawn sy'n tueddu i ddenu heriau cyfreithiol. Felly mae angen i'r ddeddfwriaeth fod yn glir iawn er mwyn sicrhau nad yw'r gwaith yn mynd yn groes i ddeddfwriaeth diogelu data, yn enwedig lle mae cyrff nad ydynt yn rhan o'r sector cyhoeddus dan sylw.

A40. Fel y saif, mae Rhan 3A o Ddeddf 2004 yn benodol iawn yn yr ystyr mai dim ond i ACC neu berson sy'n gweithredu ar ei ran y caniateir datgelu gwybodaeth sydd ei hangen i baru data. Gall llys ddehongli bod dileu'r ddarpariaeth am wybodaeth i'w datgelu i berson sy'n gweithredu ar ran ACC, fel y'i cynigiwyd yn y Bil, yn cael yr union effaith honno. Mae'n eithaf tebygol nad ystyrid y byddai cyfeirio at allu ACC i ddirprwyo ei swyddogaethau o dan gymal 18 o'r Bil yn bodloni gofynion penodol Rhan 3A o Ddeddf 2004 ar ôl i'r ddarpariaeth i ACC

drefnu i waith paru data gael ei gynnal ar ei ran gael ei dileu o'r Ddeddf honno. O gymharu â darpariaethau diwygiedig Deddf 2004 â'r darpariaethau cyfatebol, er enghraifft, yn Neddf Cyllid Cyhoeddus ac Atebolrwydd (yr Alban) 2000 awgrymir na chaniateir i wybodaeth gael ei darparu i bersonau sy'n gweithredu ar ran ACC. Gallai unrhyw un a oedd am osgoi cwmpas y Fenter Twyll Genedlaethol ddadlau hefyd mai ar ran y SAC gorfforaethol yn hytrach nag ACC y byddai'r darparwr gwasanaeth sy'n cael ei gontractio i'r SAC gorfforaethol yn gweithredu.

A41. Mae problem debyg yn codi o ran canlyniadau paru data: efallai na fyddai'r cyrff archwilio sy'n cymryd rhan yn gallu rhannu'n gyfreithlon ganlyniadau â chontractwr sy'n gweithredu ar ran SAC. Byddai'n anodd iawn ceisio mynd i'r afael â'r broblem hon drwy ddiwygiadau gyda'r nod o ddisodli ACC gan y SAC gorfforaethol yn y corff ehangach o ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â pharu data, gan y byddai angen diwygiadau o'r fath yn neddfwriaeth y DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Er mwyn osgoi colli gwaith paru data yng Nghymru byddwn yn awgrymu hepgor paragraffau 59 i 62 o Atodlen 4 i'r Bil a hepgor neu ddiwygio cymal 9(2).

*Diwygio Deddf Cydraddoldeb 2010*

A42. Mae para 88 o Atodlen 4 i'r Bil yn diwygio Rhan 2 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n enghraifft o'r ffordd mae'r Bil yn arwain at ehangu'r gofynion rheoleiddio presennol am ei fod yn creu corff cyhoeddus ychwanegol (y SAC arfaethedig) ochr yn ochr ag ACC. Effaith para 88 yw ychwanegu'r SAC gorfforaethol arfaethedig, yn ogystal ag ACC, at y rhestr o gyrff sydd wedi'u dynodi'n awdurdodau cyhoeddus o dan Ddeddf 2010. Mae hyn yn golygu y byddai'r SAC gorfforaethol ac ACC fel ei gilydd yn ddarostyngedig i ofynion Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011. Effaith ymarferol hyn yw ei gwneud yn ofynnol i'r SAC gorfforaethol ac ACC baratoi a chyflwyno adroddiad cynnydd ar gynllun cydraddoldeb strategol. Byddai'n rhaid i'r naill a'r llall hefyd ymgysylltu â phersonau sy'n cynrychioli buddiannau personau â nodweddion gwarchodedig o ran ystod o ddyletswyddau, megis cynnal asesiadau effaith cydraddoldeb o gynlluniau gwaith. Er y gellid rhannu rhywfaint o'r gwaith hwn rhwng y SAC gorfforaethol ac ACC o bosibl, mae'r diwygiad hwn yn debygol o arwain at gynyddu cost y trefniadau sydd eu hangen i fodloni deddfwriaeth ym maes cydraddoldeb.

*Diwygio Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000*

A43. Mae effaith debyg yn codi o bara 16 i Atodlen 4 i'r Bil. Mae hwn yn gwneud SAC yn gorff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. Mae hynny ynddo'i hun yn briodol, ond mae'n golygu i bob diben y bydd sefydliad archwilio cyhoeddus Cymru yn cael dos dwbl o reoleiddio gan y bydd angen i ACC a'r SAC arfaethedig baratoi a chynnal cynlluniau cyhoeddi, a fydd yn galw am ddefnyddio mwy o arian cyhoeddus, hyd yn oed os gellir cytuno ar gynlluniau ar y cyd.

A44. O ran y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, mae creu ail gorff cyhoeddus o fewn yr un sefydliad sydd â swyddogaethau dal gwybodaeth (cymal 21(2)(d) ac (e)) hefyd yn debygol o arwain at ddryswch o ran pa gorff sy'n dal y wybodaeth benodol a geisir. Er enghraifft, ni fyddai'n

amlwg yn achos rhywun sy'n anfon cais i SAC am gopi o adroddiad drafft astudiaeth gan ACC (gan dybio bod ACC wedi paratoi adroddiad o'r fath ond nad yw wedi'i ddarparu i gyd-aelodau o'r Bwrdd) p'un a fyddai'n gywir i SAC ymateb i'r ceisydd i ddweud nad yw'n dal yr adroddiad drafft. Yn ymarferol, bydd y drafft yn debygol o fod ym meddiant cyflogeion SAC, ond ni fyddai hynny ynddo'i hun yn debygol o arwain at dybiaeth bod SAC yn ei ddal. Gellid hefyd ddadlau bod ACC fel Prif Weithredwr ac aelod o fwrdd SAC yn rhan o SAC, ond mae hyn yn mynd yn groes i'r cysyniad o ACC fel awdurdod cyhoeddus ar wahân o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth. At ei gilydd, mae cryn le i greu dryswch a'r posibilrwydd o apeliadau costus i'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r Tribiwnlys.

A45. Mae'r diwygiadau hyn mewn perthynas â materion rheoleiddio (paragraffau 16 ac 88 o Atodlen 4) yn codi materion ehangach o ran y baich rheoleiddio cynyddol sy'n deillio o symud o un corff cyhoeddus i ddau. Yn ogystal â'r diwygiadau penodol, bydd rhwymedigaethau dyblyg eraill yn codi'n awtomatig o greu corff corfforaethol ochr yn ochr ag ACC. Er enghraifft, bydd angen i'r SAC arfaethedig gofrestru â'r Comisiynydd Gwybodaeth o dan Ddeddf Diogelu Data 1998, ond bydd hyn ochr yn ochr â chofrestriad presennol ACC ei hun.

A46. Mater cysylltiedig arall yw y bydd ACC yn parhau i fod yn ddarostyngedig i alwadau rheoleiddio ar adnoddau, megis paratoi cynllun cydraddoldeb strategol, ond ni fydd ganddo ei adnoddau ei hun i fodloni'r gofynion statudol hynny. O dan gymal 18, ni fydd ACC yn gallu dirprwyo'r gwaith y mae angen ei wneud i gydymffurfio â gofynion o'r fath oni bai bod y SAC gorfforaethol yn cymeradwyo dirprwyo o'r fath. Felly dim ond os caniateir hynny gan fwrdd y SAC arfaethedig y bydd modd i ACC gydymffurfio.

**Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth.**

A47. Mae'r tair darpariaeth ar gyfer gwneud is-ddeddfwriaeth—cymal 19(7) (cymeradwyo cyrff cyfrifwyr i ddarparu gwasanaethau), cymal 34(2) (darpariaeth etc atodol) a chymal 36(2) (cychwyn)—oll yn briodol. Fodd bynnag, gan mai diben sylfaenol ACC yw cyflwyno adroddiadau i'r cyhoedd a'i gynrychiolwyr ar y ffordd y mae'r llywodraeth yn defnyddio adnoddau, byddai'n well o safbwynt sicrhau annibyniaeth ac effeithiolrwydd archwilio pe bai'r pwerau hyn yn nwylo Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn hytrach na Gweinidogion Cymru.

**Atodiad B**

**Goblygiadau ariannol y Bil**

B1. Mae'r asesiad effaith a baratowyd gan Lywodraeth Cymru bron yn sicr yn tanamcangyfrif cost gweithredu'r Bil yn sylweddol. Dylwn hefyd nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi gofyn am unrhyw sylwadau gennyf am ei hamcangyfrifon o gostau.

B2. Mae asesiad effaith Llywodraeth Cymru yn tybio bod aelodau'r bwrdd yn cael tâl o £24,000 y flwyddyn, a £30,000 yn achos y Cadeirydd, ond byddant yn cael y cyfrifoldeb am redeg sefydliad gyda chyllideb o tua £24 miliwn heb bresenoldeb gweithredol sylweddol (ac eithrio ACC) ar y bwrdd. Rwyf yn amcangyfrif y byddai angen i'r ffioedd fod rhyw 50 y cant yn uwch na'r hyn a nodwyd gan Lywodraeth Cymru (h.y. £600 a £750 y diwrnod i aelodau anweithredol a'r cadeirydd yn y drefn honno), a hynny er mwyn gallu denu ymgeiswyr addas sy'n barod i ymgymryd â rôl sy'n golygu cytuno ar gynllun blynyddol y sefydliad, a gwrthod datganiad ACC am raglen waith ac adnoddau o bosibl, cytuno ar ddirprwyo swyddogaethau ACC ac ysgwyddo cyfrifoldeb uniongyrchol dros gyflogi staff, ynghyd â'r holl gyfrifoldebau cyfreithiol sydd ynghlwm wrth y rolau hynny. Byddai angen gwneud taliadau mewn perthynas ag Yswiriant Gwladol a theithio a chynhaliaeth hefyd, a all ychwanegu tua 20 y cant arall at y ffioedd sylfaenol.

B3. Credaf hefyd fod amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gyfraniad o bum diwrnod y mis ar gyfer y rolau hyn braidd yn isel. Hefyd, mae'n debygol y byddai angen i'r Bwrdd gyfethol aelodau annibynnol ar gyfer ei bwyllgor archwilio. Byddai angen rhoi cydnabyddiaeth i aelodau cyfetholedig, ac rwyf yn amcangyfrif y bydd hyn yn costio tua £10,000 gan gynnwys Yswiriant Gwladol a theithio a chynhaliaeth.

B4. Mae amcangyfrif Llywodraeth Cymru o gost cymorth i fwrdd corff corfforaethol (£29,000) hefyd yn debygol o fod yn rhy isel. Nid yn unig bydd angen ysgrifenyddiaeth sy'n rhoi cymorth gweinyddol ar fwrdd o'r fath, ond mae'n debygol hefyd y bydd angen cryn dipyn o gyngor cyfreithiol a thechnegol arbenigol parhaus ar arfer ei swyddogaethau'n briodol. Rwyf yn amcangyfrif y bydd costau cyflogaeth ysgrifenyddiaeth tua £60,000 (gan gynnwys Yswiriant Gwladol ac ati) ac y bydd angen cyngor cyfreithiol gwerth tua £10,000 y flwyddyn.

B5. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys unrhyw symiau ar gyfer costau i ACC sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r broses ddeddfwriaethol mewn amser staff a chael cyngor cyfreithiol, sef o leiaf £30,000 yn ôl fy amcangyfrif i. Yn ddiau, bydd yn mynd i'w chostau ei hun mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth, ond nid wyf mewn sefyllfa i roi amcangyfrif o gostau o'r fath.

B6. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cynnwys unrhyw symiau ar gyfer cost gweithredu'r ddeddfwriaeth ychwaith. Bydd hyn yn cynnwys amser staff SAC a chostau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag ymdrin â'r cynllun trosglwyddo, diwygio'r cod ymarfer archwilio (sy'n ofynnol o dan gymal 10), diwygio neu baratoi polisïau technegol ac adnoddau dynol newydd ar gyfer y SAC newydd, creu rheolau sefydlog ar gyfer y bwrdd newydd (sy'n ofynnol o dan bara 25 o Atodlen 1), a materion eraill megis sicrhau cydymffurfiaeth ACC a'r SAC arfaethedig â deddfwriaeth ym maes cydraddoldeb (gweler paragraff A42 uchod). Rwyf yn amcangyfrif y bydd yr eitemau hyn yn costio tua £200,000.

B7. Mae'n bosibl y bydd rhai costau sy'n gysylltiedig â threth hefyd. Yn wahanol i Ddeddf BRANA 2011, nid yw'r Bil yn diogelu rhag Treth Gorfforaeth na rhwymedigaethau Treth Enillion Cyfalaf sy'n deillio o drosglwyddo asedau. Rwyf wedi codi'r mater hwn gyda Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi ond nid wyf wedi cael awgrym eto sut y bydd yn ymdrin â'r Bil fel y saif, ac felly ni allaf roi amcangyfrif o'r rhwymedigaeth debygol.

B8. Yn yr un modd, os na fydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cytuno ar oddefeb â'r SAC arfaethedig o ran trethu taliadau treuliau teithio a chynhaliaeth staff yr eir iddynt mewn perthynas â gwaith i ACC (yn hytrach na SAC), yna bydd rhwymedigaeth dreth ychwanegol. Lle mae un person cyfreithiol yn talu treuliau i'w staff ac mae'r aelodau hynny o staff yn ymgymryd â gwaith dros berson cyfreithiol arall, gallai'r treuliau hynny ddod yn drethadwy yn nwylo'r rhai sy'n eu derbyn. Os nad yw Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cytuno ar oddefeb, o dan reolau treth y DU, byddai'n rhaid i'r staff dalu'r dreth ei hun, na fyddai'n unol â thelerau Llywodraeth Cymru ac felly yn achos anghydfod costus o bosibl. Er mwyn datrys yr anghydfod efallai y byddai'n rhaid i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi gytuno i SAC dalu'r dreth ar ran y staff. Rwyf yn obeithiol y byddai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn cytuno ar oddefeb o'r fath, ac mae'n anodd iawn nodi'r gost bosibl gydag unrhyw sicrwydd, ond mae'n bosibl y bydd cost ychwanegol o hyd at £380,000 i SAC yn codi.

B9. Onid ymdrinnir â'r tensiynau yn narpariaethau'r Bil sy'n ymwneud â chyflogaeth (gweler para 20 o gorff fy llythyr a pharagraffau A14 a A15 o atodiad A), efallai y bydd yn rhaid mynd i gostau ychwanegol o ran amser staff a gwasanaethau cyfreithiol oherwydd yr angen i ymdrin ag anghydfodau ynglŷn â thelerau. Mae'n anodd amcangyfrif costau anghydfodau o'r fath i sicrwydd, ond ni fyddai'n afrealistig rhagweld dau neu dri anghydfod yn codi, gyda phob un yn costio tua £20,000 o ran amser staff a chostau cyfreithiol.

B10. Mae'n bosibl hefyd y bydd y gofyniad i delerau fod "yn cyfateb yn fras" i delerau Llywodraeth Cymru yn arwain at gostau ychwanegol sylweddol pe bai Barnwr yn dyfarnu, yn groes i'm barn i, fod y telerau presennol eisoes yn cyfateb yn fras i'w gilydd. Yn niffyg Dyfarniad o'r fath, fodd bynnag, nid wyf mewn sefyllfa i amcangyfrif effaith y gofyniad i sicrhau bod telerau yn cyfateb yn fras i delerau Llywodraeth Cymru.

B11. At ei gilydd, rwyf yn amcangyfrif mai cost gychwynnol y Bil fel y saif yw rhwng £180,00 a £350,000. Rwyf yn amcangyfrif bod y gost gyfredol rhwng £200,00 a £650,000, gyda

rhywbeth yn nes at y ffigur isaf yn fwy tebygol ond nid yw hynny'n sicr (gweler tabl y crynodeb isod). Bydd angen i bob cynnydd yn sylfaen gost SAC gael ei ariannu drwy ryw fath o gyfuniad o gynnydd mewn ffioedd archwilio, arbedion effeithlonrwydd a thaliadau a godir ar Gronfa Gyfunol Cymru (drwy'r amcangyfrif blynyddol).

**<u>Crynodeb o amcangyfrifon cost</u>**

**Eitemau untro**

| Eitem | Swm Amcangyfrifedig Is £000 | Swm Amcangyfrifedig Uwch £000 |
|---|---:|---:|
| Cost y broses ddeddfwriaethol (SAC yn unig) | 30 | 40 |
| Gweithredu | 150 | 250 |
| Anghydfodau | 0 | 60 |
| Cyfanswm | 180 | 350 |

**Eitemau cylchol**

| Eitem | Swm Amcangyfrifedig Is £000 | Swm Amcangyfrifedig Uwch £000 |
|---|---:|---:|
| Ffioedd, treuliau ac YG aelodau'r Bwrdd | 155 | 185 |
| Ffioedd, treuliau ac YG aelodau wedi'u cyfethol | 5 | 15 |
| Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd | 40 | 70 |
| Trethu teithio a chynhaliaeth | 0 | 380 |
| Cyfanswm | 200 | 650 |

B12. Yn ogystal, os bydd y Bil yn atal ACC rhag cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, fel y disgrifir ym mharagraffau A37 i A41 uchod, yna bydd hyn yn golygu cost i drethdalwyr yn nhermau cynilion coll gwerth tua £3 miliwn bob blwyddyn.

B13. Pe câi'r Bil ei newid er mwyn darparu bwrdd goruchwylio, byddai'r costau cychwynnol yn debygol o fod yn sylweddol is, yn enwedig gan na fyddai angen trosglwyddo unrhyw staff, asedau na rhwymedigaethau a byddai'r risg bosibl o anghydfodau yn cael ei dileu. Yn yr un modd, ar sail barhaus, mae'r gost yn debygol iawn o gyfateb i'r swm amcangyfrifedig is, sef £200,000, gan na fydd angen i ffioedd aelodau'r bwrdd adlewyrchu cyfrifoldebau gwneud penderfyniadau busnes a chyflogaeth, a chan na fydd angen trosglwyddo staff i'w cyflogi gan y bwrdd, caiff y risg y bydd costau ychwanegol yn deillio o ofyniad i gysoni telerau ei dileu.

B14. Pe câi'r Bil ei newid i ddarparu corff corfforaethol mwy addas at y diben (gweler atodiad D), yna er y byddai costau parhaus yn debygol o fod rhwng £200,000 a £650,000 y flwyddyn o hyd, byddai'r costau sefydlu cychwynnol yn debygol o fod ar begwn isaf yr amrediad o £180,000 i £350,000, a hynny am y byddai'r risg o anghydfodau yn gysylltiedig ag aelodau o staff yn is gan na fyddai'n ofynnol i'r Bwrdd sicrhau bod telerau staff SAC yn gyson â thelerau Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn atodiad D, ac y byddai staff yn cael eu trosglwyddo o dan ddarpariaethau tebycach i TUPE, gan leihau'r tebygolrwydd y bydd anghydfodau yn codi. Mae'n bosibl y byddai materion gweithredu eraill, fel drafftio neu ddiwygio polisïau adnoddau dynol, hefyd rywfaint yn symlach ac felly yn llai costus.

**Atodiad C**

**Amlinelliad o nodweddion bwrdd goruchwylio**

C1. Er mwyn helpu i sicrhau eu hannibyniaeth a'u haddasrwydd cyffredinol ar gyfer cyflawni rôl graffu oruchwyliol, awgrymaf y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol benodi'r saith aelod o'r bwrdd, felly hefyd yr aelodau anweithredol o dan Atodlen 1 o'r Bil. Yn yr un modd, dylai'r Cynulliad Cenedlaethol bennu telerau ac amodau swydd yr aelodau.

C2. Er mwyn sicrhau bod y bwrdd mor wrthrychol â phosibl ac egluro atebolrwydd ACC cystal â phosibl, awgrymaf na ddylai ACC fod yn aelod o'r bwrdd. Ar yr un pryd, gellir ymestyn amrywiaeth yr aelodau er mwyn rhoi cyfle i fwy o randdeiliaid gyfrannu.

C3. Awgrymaf y dylai fod gan y bwrdd bwerau statudol i wneud y canlynol:

i. monitro a chynghori ACC o ran gweithredu swyddogaethau ACC (fel y nodir yng nghymal 17 o'r Bil);

ii. ei gwneud yn ofynnol i ACC ac unigolion eraill (staff, cyflenwyr ac archwilwyr ACC) ddarparu gwybodaeth ac esboniad o'r ffordd y caiff swyddogaethau ACC eu cyflawni;

iii. nodi, mewn perthynas â swyddogaethau ACC, y mathau o wybodaeth y dylid eu cynnwys mewn adroddiad gan ACC i gyd-fynd â chyfrifon blynyddol cyhoeddedig ACC

iv. cynghori'r Cynulliad Cenedlaethol i'w helpu i ystyried amcangyfrif ac adroddiad blynyddol ACC;

v. ei gwneud yn ofynnol i archwilydd allanol ACC ymchwilio i unrhyw faterion sy'n peri pryder.

C4. Dylai'r bwrdd hefyd fod yn gyfrifol am y dyletswyddau canlynol:

i. sefydlu pwyllgorau archwilio a chydnabyddiaeth;

ii. cyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol am unrhyw faterion sy'n peri pryder mewn perthynas ag ACC.

C5. Hoffwn awgrymu hefyd y dylid grymuso'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cais i archwilydd allanol ACC ystyried unrhyw faterion sy'n peri pryder y dygir sylw y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus atynt gan y Bwrdd.

C6. Er mwyn sicrhau bod y Bwrdd mor wrthrychol â phosibl a bod atebolrwydd ACC mor eglur â phosibl, ni ddylai fod gan y Bwrdd swyddogaethau gweithredol, megis cytuno ar gynllun blynyddol ACC, gwrthod rhaglen waith ACC, codi a phennu ffioedd, a chyflogi staff. Yn yr un modd, ni ddylai'r bwrdd na'i gadeirydd feddu ar swyddogaethau sy'n golygu eu bod yn chwarae rhan sylweddol yn y broses o baratoi a chyflwyno amcangyfrifon o incwm a threuliau, cyflwyno'r cynllun blynyddol, cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio na pharatoi adroddiadau blynyddol. ACC ddylai fod yn gyfrifol am bob un o'r swyddogaethau hyn. Ac yn unol â hyn, dylai ACC weithredu fel Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad.

C7. Gellid ariannu'r bwrdd yn briodol drwy ei amcangyfrif unigol ei hun, neu efallai yn fwy pragmatig, drwy linell unigol wedi'i neilltuo o fewn yr amcangyfrif blynyddol a gyflwynir gan ACC (ond nas pennir gan ACC) i'r Cynulliad Cenedlaethol ei ystyried.

**Atodiad D**

**Amlinelliad o drefniadau mwy ymarferol ar gyfer corff corfforaethol**

D1. Rwyf yn gadarn o'r farn y dylai ACC allu pennu ei raglen waith, ac eithrio o bosibl waith atodol, yn annibynnol. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen:

i. diddymu'r ddarpariaeth yng nghymal 26 i fwrdd SAC wrthod datganiad ACC o'i raglen waith a'i adnoddau;

ii. diddymu'r ddarpariaeth i fwrdd SAC gytuno i'r cynllun blynyddol (h.y. diwygio cymal 25(1)) (ond byddai'r gofyniad i ystyried cyngor y bwrdd wrth lunio'r cynllun a'r amcangyfrif yn parhau).

D2. Dylai ACC allu dirprwyo ei swyddogaethau statudol, ac eithrio o bosibl mewn perthynas â gwaith atodol, i staff a chontractwyr heb fod angen cael cymeradwyaeth bwrdd SAC (h.y. dylid hepgor cymal 18(2)).

D3. Dylai fod yn ofynnol i unrhyw drefniadau i ACC ddarparu gwasanaethau, os bydd bwrdd SAC yn gwneud trefniadau o'r fath, gael eu gwneud gyda chymeradwyaeth ACC. (Gellid cyflawni hyn drwy ddiwygio cymal 19). Mae angen hyn er mwyn atal ACC rhag bod yn ddarostyngedig i drefniadau sy'n peryglu annibyniaeth ACC, e.e. cytundeb i ACC ddarparu swyddogaeth cyflogres corff a archwilir.

D4. Dylid sicrhau bod aelodaeth SAC yn fwy cytbwys gan gynnwys aelodau o blith y rheolwyr yn ogystal ag ACC. Gellid gwneud hyn drwy ei gwneud yn ofynnol cael o leiaf ddau aelod sy'n gyflogeion, gyda'r ddau yn cael eu henwebu gan ACC. (Hynny yw, dylid diwygio para 1 o Atodlen 1 er mwyn newid aelodaeth y bwrdd a dylid newid para 14 o Atodlen 1 er mwyn sicrhau mai dim ond aelodau sy'n gyflogeion a gaiff eu henwebu gan ACC y gall aelodau anweithredol eu penodi). Fodd bynnag, rhaid cynnal yr egwyddor mai aelodau anweithredol fydd y rhan fwyaf o'r bwrdd.

D5. Os mai bwrdd SAC fydd cyflogwr y staff, yna er mwyn osgoi cysylltiadau diwydiannol gwael ac ymgyfreitha costus:

i. ni ddylai SAC fod yn ddarostyngedig i unrhyw ofynion "cysoni" o ran telerau cyflogaeth, ac ni ddylai ychwaith fod yn ofynnol iddi, wrth bennu telerau cyflogaeth, ystyried dymunoldeb cadw'r telerau yn gyffredinol gyson â'r rheini sy'n berthnasol i staff Llywodraeth Cymru (h.y. dylid sicrhau bod para 20(5) o Atodlen 1 i'r Bil yn llawer tebycach i bara 17 o Atodlen 2 o ddeddf BRANA 2011);

ii. dylai'r darpariaethau trosglwyddo staff (para 5 o Atodlen 3 i'r Bil) ddarparu mwy o gamau diogelu tebyg i TUPE sy'n rhoi sicrwydd i staff, yn enwedig o ran diogelu telerau fel y nodir o dan Reoliad 4(4) o TUPE.

D6. Er mwyn sicrhau y gall ACC gymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol, dylid hepgor y cynnig i ddiwygio Rhan 3A o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 drwy baragraffau 59 i 62 o Atodlen 4 i'r Bil, sy'n atal ACC rhag trefnu i bobl gynnal ymarferion paru data ar ei ran. Bydd angen hepgor neu ddiwygio cymal 9(2) hefyd er mwyn peidio â mynd yn groes i hyn.

# Public Accounts Committee

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Committee Room 3 - Senedd** |
| Meeting date: | **Tuesday, 17 July 2012** |
| Meeting time: | **09: - 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_400000_17_07_2012&t=0&l=en

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Darren Millar (Chair)**<br>**Mohammad Asghar (Oscar) AM**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Gwyn R Price**<br>**Jenny Rathbone**<br>**Aled Roberts**<br>**Lindsay Whittle** |
| Witnesses: | **Huw Vaughan Thomas, Auditor General for Wales, Wales Audit Office**<br>**Gillian Body, Assistant Auditor General, Wales Audit Office**<br>**Matthew Coe, Wales Audit Office** |
| Committee Staff: | **Tom Jackson (Clerk)**<br>**Sarah Beasley (Clerk)**<br>**Daniel Collier (Deputy Clerk)**<br>**Sarah Sargent (Deputy Clerk)**<br>**Joanest Jackson (Legal Advisor)** |

### 1. Introductions, apologies and substitutions

1.1 The Chair welcomed Members and members of the public to the meeting.

### 2. Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the meeting for the following business:

Items 3,4, 5 and 7.

## 3. Consideration of the Public Audit (Wales) Bill
3.1 The Committee agreed its terms of reference and approach to scrutiny of the Public Audit (Wales) Bill and agreed to launch a public consultation shortly.

## 4. Consideration of draft report 'Grants Management in Wales'
4.1 The Committee commented on and agreed amendments to its draft report 'Grants Management in Wales', which would be published shortly.

## 5. Consideration of draft report 'Progress in delivering the Welsh Housing Quality Standard'
5.1 The Committee commented on and agreed a report of its inquiry into 'Progress in delivering the Welsh Housing Quality Standard', which would be considered further via email.

## 6. Briefing from the Auditor General for Wales on the Wales Audit Office report 'Health Finances'
6.1 The Chair invited the Auditor General for Wales (supported by Gillian Body, Assistant Auditor General; and Matthew Coe, Financial Audit Manager) to brief the Committee on the Wales Audit Office's report 'Health Finances.'

6.2 The Auditor General briefed the Committee on key issues arising from his report and responded to Members' questions.

**Action point:**

The Auditor General for Wales agreed to provide:

- A note on when Local Health Boards were offered brokerage by the Welsh Government.

## 7. Options for handling the Wales Audit Office report 'Health Finances'

7.1 The Committee agreed to undertake an inquiry into Health Finances.

## 8. Papers to note
8.1 The Committee noted the correspondence on the Welsh Housing Quality Standard.

8.2 The Committee ratified the minutes of the meeting on 10 July 2012.

**TRANSCRIPT**
View the meeting transcript.